Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 26AIN TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 19 Tachwedd 2026)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Geraint Wyn Parry
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts
Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands
Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Richard Glyn Roberts
Angela Russell
Elwyn Jones

Aelodau Lleyg (6)

Dewi Lewis
Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Paul Millar Mills
Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION 5 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain o Hydref, 2026 fel rhai cywir

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR 20 - 38

I ystyried yr adroddiad

6. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION 39 - 47

I dderbyn yr wybodaeth ac ystyried y risgiau cyffredinol sy'n deillio o lithriadau yn yr arbedion

7. CYLLIDEB REFENIW 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026 48 - 73

Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau

8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2026/27 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 74 - 85

I ystyried yr adroddiad a'i dderbyn fel er gwybodaeh

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 86 - 113

I ystyried yr adroddiad

10. DIWYGIO ADRAN 11 RHEOLAU SEFYDLOG SWYDDOGION 114 - 140

I ystyried yr adroddiad a darparu sylwadau ar yr argymhelliad i'r Cyngor.

- Bod y Cyngor yn mabwysiadu Atodiad 1 i Adran 11 a'r addasiadau sy'n deillio o fewn Adran 11.
- Bod y Cyngor yn cytuno i sefydlu Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion gan fabwysiadu'r model yn Atodiad 3 a'r newidiadau I'r Cyfansoddiad.

11. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU A'R YMATEB SEFYDLIADOL 141 - 157

I ystyried y adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan'

12. BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR 158 - 160

I ystyried a derbyn y rhaglen waith

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 22ain o Hydref, 2026

Presenoldeb: Is-gadeirydd Carys Edwards

Cynghorwyr: Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Geraint Parry, Huw Rowlands, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Angela Russell, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Peter Barnes, Eifion Jones, a Paul Millar Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio Mewnol), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Gwion Elis Jones (Uwch Gyfrifydd), David Lloyd-Williams (Cyfrifydd Grŵp), Nel Gwynn Povey (Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 7:	Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Cyng. Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor / Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Cyng. Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) a Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol)
Eitem 7, 8 ac 17:	Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 9 a 10:	Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Eitem 17:	Lora Gwawr (Archwilio Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Lewis (Cadeirydd), a'r Cynghorwyr Menna Baines, Wendy Cleaver ac Arwyn Herald Roberts.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29ain o Fedi 2026 fel rhai cywir**.**

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniadau gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn cynnwys yr adroddiad

6. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Diolchodd Arweinydd y Cyngor am y gwahoddiad i gyflwyno cynnydd ar gynllun ymateb y Cyngor i adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Diolchodd i'r goroeswyr am eu dewrder ac mai nhw yn bennaf sydd yn gyrru'r gwaith ymlaen. Nododd bod Bwrdd Cynllun Ymateb, dan arweiniad a chadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, a'r Cabinet wedi derbyn yn llawn yr awgrymiadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2026. Atgoffwyd yr Aelodau bod tîm o bobl yn gweithio ar y Cynllun Ymateb gyda phob un yn atebol ac yn gyfrifol am ffrwd gwaith penodol ac fe fuddsoddwyd adnoddau ychwanegol i gryfhau'r trefniadau diogelu.

Adroddwyd bod 43 o'r 55 ffrwd gwaith bellach wedi eu cwblhau, neu wedi dod yn rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor. Pwysleisiodd nad oedd y Cynllun Ymateb yn 'ymarferiad ticio bocs' ond yn gynllun sydd yn mynd i'r afael â newid trefniadau diogelu. Cyfeiriodd at enghreifftiau o newidiadau megis; sicrhau bod plant sy'n cael eu henwi mewn cyfeiriadau yn cael cyfle i siarad efo gweithiwr cymdeithasol; gwirio gwybodaeth am honiadau hanesyddol; cyflwyno hyfforddiant newydd ar gam-feithrin, neu "grooming"; creu fideo hyfforddiant diogelu ar gyfer staff rheng flaen; a chryfhau'r hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr.

Cydnabuwyd y cynnydd a'r gwaith caled sydd eisoes wedi ei weithredu, ond bod yr her erbyn hyn yn symud o ofyn "be sydd wedi ei wneud?" i "pa wahaniaeth sydd wedi ei wneud?". Amlygodd yr angen i fesur effaith gan sicrhau bod newidiadau yn cael eu gwreiddio fel rhan o ddiwylliant Cyngor Gwynedd. Ategodd nad yw'r dioddefwyr a'u teuluoedd yn haeddu dim llai na bod Cyngor Gwynedd wedi gwrando, wedi gweithredu ac yn bwysicach oll, wedi newid.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, fanylion am ymarferoldeb y Cynllun Ymateb. Nododd bod 8 allan o 9 o'r argymhellion oedd wedi eu dynodi i Cyngor Gwynedd (neu bob Cyngor) wedi eu cyflawni gyda'r un sydd yn weddill i'w gwblhau cyn y Nadolig. Yng nghyd-destun yr 17 argymhelliad oedd wedi eu dynodi ar gyfer sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol, adroddwyd bod 9 wedi eu cyflawni yng Ngwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am yr ymdrech i gyflawni'r gwaith, sydd yn galonogol a phositif.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi ei gyflawni i ymateb i'r her
- Croesawu bod adnoddau ychwanegol wedi eu buddsoddi i feysydd gwaith diogelu
- Bod yr adroddiad a'r Cynllun Ymateb yn un proffesiynol
- Da gweld Gwynedd yn arwain ar newidiadau

Cyfeiriwyd at 'ystyried ymateb i'r sylwadau ac argymhellion a gyflwynwyd' yng nghyfarfod Ionawr 2026 ac at yr angen am 'sicrwydd bod trefniadau disgyblu mewn lle, amserlen ar gyfer

y broses disgyblu a modd o adrodd ar y weithred; bod hyn yn deg i'r teuluoedd hynny sydd wedi cael eu heffeithio' ac os oedd hyn wedi derbyn sylw, nododd y Prif Weithredwr na allai drafod materion cyfrinachol, ond gwnaeth addewid bod y Cyngor yn cymryd camau priodol ac yn dilyn prosesau disgwyliedig i ymdrin â'r mater; yn dilyn cyngor gan fargyfreithiwr a threfniadau statudol, ac y byddai adrodd yn ôl ar unrhyw weithred yn cael ei wneud yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn am fonitro ymddygiad addysgu yn y cartref, nododd y Pennaeth Addysg, er nad oedd y mater yn gysylltiedig â'r adroddiad, y byddai'n gallu darparu adroddiad o'r hyn sydd mewn lle i ddiogelu'r plant hyn.

Yng nghyd-destun cyllido'r gwaith ac os oedd Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol i fynd i'r afael â'r ymatebion oedd yn ymwneud ag ysgolion a staffio, a bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu buddsoddi £600,000 yn ychwanegol o'r gyllideb refeniw i feysydd gwaith yn ymwneud â diogelu - un o'r meysydd gwaith oedd cyfeiriadau plant a'r angen am fwy o adnoddau rheng flaen.

Ynglŷn ag adroddiadau cynnydd / diweddariadau pellach o'r gwaith, nododd y Prif Weithredwr bod trafodaethau yn cael eu cynnal am y broses o adrodd ar y cynnydd i'r dyfodol, gan awgrymu y bydd materion / themâu / agweddau penodol yn adrodd yn ôl i fforymau gwahanol – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sicr o fod yn rhan o'r broses honno.

PENDERFYNWYD

Derbyn cynnwys yr adroddiad

7. ARGYMHELLION YN DEILLIO O ASESIAD PERFFORMIAD PANEL - YMATEB DRAFFT Y CYNGOR

Diolchodd Arweinydd y Cyngor am y gwahoddiad i gyflwyno canlyniadau Asesiad Perfformiad Panel y Cyngor. Eglurodd mai dyma'r tro cyntaf iddi gael y profiad o fynd drwy'r broses a mynegodd bod cynnal asesiad perfformiad allanol o bryd i'w gilydd yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu ac yn rhoi cyfle i'r Cyngor dderbyn safbwynt annibynnol ar effeithiolrwydd y Cyngor, a'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

Cymerodd y cyfle i ddiolch i aelodau'r Panel am eu gwaith ac am yr amser a roddwyd ganddynt i gyfarfod gydag Aelodau a swyddogion yn ystod eu hymweliad ym mis Mawrth 2026, yn ogystal ag ystyried ystod eang o ddogfennau wrth lunio eu casgliadau.

Derbyniwyd copi terfynol o'r Asesiad ym mis Mehefin 2026. Ystyriwyd bod yr adroddiad yn adnabod nifer o gryfderau o fewn y Cyngor, ond fel unrhyw adolygiad adeiladol, amlygwyd hefyd feysydd lle gellid eu gwella ymhellach. Derbyniwyd bod hyn yn rhan allweddol o'r broses ac yn gymorth i'r Cyngor barhau i ddatblygu fel sefydliad. Amlygodd bod llawer o'r argymhellion yn ymwneud â chryfhau a datblygu trefniadau sydd eisoes mewn lle, yn hytrach na chreu trefniadau newydd.

Ategodd, er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd, mai calonogol oedd gweld bod yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad Aelodau a staff y Cyngor i gyflawni dros drigolion Gwynedd. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad ac felly yn ceisio barn y Pwyllgor ar y Cynllun Gweithredu drafft oedd yn amlinellu sut roedd y Cyngor yn bwriadu ymateb i argymhellion y Panel.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i nodi, er bod y Cyngor yn cwblhau Hunanasesiad Blynyddol ac yn adrodd ar berfformiad, bod yr Asesiad yn haen ychwanegol o fonitro trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn fodd o ychwanegu gwerth. Ategodd, er bod rhai

elfennau o'r argymhellion eisoes ar waith, bod y Cyngor yn croesawu argymhellion y Panel a bod y cynllun gweithredu yn amlinellu'r trefniadau y bwriedir eu rhoi mewn lle i fynd i'r afael a'r argymhellion a chefnogi gwelliant parhaus.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Amlwg bod y Cyngor yn cymryd yr asesiad o ddifrif
- Croesawu bod yr Asesiad yn ychwanegu gwerth
- Da clywed bod y Cyngor yn derbyn yr argymhellion

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag argymhelliad 2b Trawsnewid, a'r awgrym byddai ail drefnu Ffordd Gwynedd o fewn fframwaith trawsnewid ar draws y sefydliad yn cryfhau'r elfen yma, nododd y Prif Weithredwr bod trawsnewid yn weithrediad parhaus, y Cyngor bob amser yn edrych i wella a moderneiddio. Ategodd bod Cynllun Trawsnewid y Cyngor yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a mynegodd bod y panel yn ymwybodol bod Ffordd Gwynedd yn y broses o gael ei adolygu - bydd y Cyngor yn defnyddio egwyddorion gorau Ffordd Gwynedd ac yn adeiladu ar hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â deallusrwydd artiffisial (AI) ac nad oedd sylw at hyn yn yr Asesiad, ond ei fod yn allweddol i'r broses o drawsnewid, nododd y Prif Weithredwr bod AI yn sicr yn ychwanegu gwerth mewn rhai sefyllfaoedd a bod prosiectau yn cael eu peilota ar draws y Cyngor ar ddefnydd AI. Cyfeiriodd at enghraifft o ddefnyddio system 'BEAM Notes' all ryddhau gweithwyr cymdeithasol o waith cofnodi sgyrsiau i roi sylw yn hytrach ar gefnogi a diogelu pobl. Ategodd bod gwaith hefyd wedi ei gomisiynu gydag MSbarc i geisio adnabod meysydd gwaith all, neu beidio, drawsnewid o ddefnyddio AI.

Wrth ymateb i sylw ynglŷn â phryder trosiant staff, nodwyd nad oedd trosiant staff Gwynedd yn wahanol i gynghorau eraill, ond cydnabuwyd bod nifer o staff profiadol yn cyrraedd oed ymddeol a bod her o adnabod y don nesaf i gymryd eu lle. Cyfeiriodd at argymhelliad 1b oedd yn argymell adolygu capasiti arweinyddiaeth strategol y Cyngor a bod bwriad ymateb i hyn drwy benodi Cyfarwyddwr Corfforaethol ychwanegol. Ategodd yr Arweinydd bod oddeutu cant yn llai o staff o gymharu â blynyddoedd blaenorol a bod hyn yn ganlyniad i ddiffyg cyllideb a thoriadau dros y blynyddoedd - bod y Cyngor yn gorfod cyflawni mwy gyda llai.

Yng nghyd-destun trosiant adrannol nodwyd nad oedd ystadegau ar gael yn nhermau trosiant adrannol, ond bod pob adran gyda chynllun gweithlu eu hunain gan fod gofynion pob adran yn wahanol. Cyfeiriwyd at faes Gofal Iechyd fel enghraifft lle gwelir, wrth i staff profiadol ymddeol, bod pawb yn cystadlu am yr un pŵl o bobl a bod Gwynedd wedi ymateb i'r her drwy sefydlu'r Academi Gofal.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr ymateb drafft i'r Adroddiad gan nodi nad oedd unrhyw newid yn cael ei argymell i'r ymateb.**
- **Croesawu diweddariad ymhen 12 mis ar y cynnydd i weithredu'r argymhellion**

8. HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2025/26

Cyflwynwyd yr Hunanasesiad gan Arweinydd y Cyngor, Nododd bod yr Hunanasesiad yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn gyfle i edrych yn onest ar y perfformiad, sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau i gyflawni dros bobl Gwynedd. Atgoffwyd yr Aelodau bod y prif benawdau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2026 a diolchwyd am y sylwadau a'r mewnbwn a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw - y sylwadau hynny wedi cael sylw a'u cynnwys yn y ddogfen ddrafft.

Amlygodd nad oedd yr Hunanasesiad yn ceisio awgrymu bod y Cyngor yn gweithredu'n berffaith, ond yn hytrach yn cydnabod y meysydd lle mae cynnydd da wedi ei wneud mewn rhai meysydd, ac yn adnabod y meysydd hynny lle mae'r heriau yn parhau ac sydd angen sylw pellach i'r dyfodol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y ddogfen ddrafft a chynnig unrhyw sylwadau neu argymhellion pellach cyn cyflwyno i'r Cabinet ar y 10fed o Dachwedd ac yna i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Ragfyr. Ategwyd bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Gwahoddwyd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor i gyflwyno'r adroddiad mewn manylder. Nododd bod yr Hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mai'r Grŵp Llywodraethu (mewnol) sydd wedi arwain a chymryd trosolwg o'r broses i sicrhau y bydd y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol. Ategodd bod canfyddiadau'r Hunanasesiad ar gyfer 2025/26 yn cyd-fynd â chanfyddiadau ac argymhellion yr Adroddiad gan Banel, gan roi sicrwydd pellach bod y materion allweddol wedi eu hadnabod.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn un da
- Nifer o bethau positif wedi eu cynnwys – y wybodaeth yn rhoi darlun llawn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynnydd mewn cyfnod salwch staff ar draws y Cyngor (o 10 diwrnod i 13 diwrnod) ac y dylai'r mater gael ei gynnwys ar gofrestr risg y Cyngor, nododd yr Arweinydd bod y Gwasanaeth Corfforaethol wedi cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn rhoi sylw i'r mater ac ar y gwaith sydd yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa. Ategodd y Prif Weithredwr, o ran cymariaethau gyda Chynghorau eraill, nad oedd y cynnydd yng Ngwynedd yn sefyll allan. Nododd bod gwaith penodol yn cael ei wneud i ymdrin â chategorïau salwch straen a chyflwr cyhyrsgerbydol drwy ddadansoddi data gwahanol adrannau a chynnig gwelliannau fesul adran. Awgrymodd hefyd bod cofnodi salwch wedi ei symleiddio drwy ddefnydd Hunanwasanaeth a bod staff yn fwy parod i gydnabod eu salwch o gymharu â'r gorffennol.

Yng nghyd-destun ymgysylltu ac ymgynghori am dreth Cyngor gyda'r cyhoedd o ystyried bod y dreth yn cynyddu yn flynyddol, nodwyd bod cynnal ymgynghoriad ar y dreth yn anodd gan fod yr amserlen rhwng derbyn cyfanswm setliad Gwynedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, i osod cyllideb y Cyngor ym mis Mawrth, yn dynn iawn. Ategwyd, pe byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried setliad haenol (tiered settlement) yn hytrach na setliad blynyddol byddai hyn efallai yn rhyddhau cyfnod digonol i ymgynghori ynglŷn â'r dreth i'r dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen am ddadansoddiad clir o wariant ar alw lleol, nododd y Prif Weithredwr bod 90% o wasanaethau maes gofal yn ymateb i'r galw lleol a bod dyletswydd ar y Cyngor i weithredu hyn. Cytunodd bod demograffi'r Sir yn heriol ac mai realiti'r sefyllfa yw bod mwy o bobl hŷn yn y Sir, a llai o blant. Er hynny, pwysleisiodd mai dyletswydd y Cyngor oedd gofalu am bobl Gwynedd a phawb sydd yn byw o fewn ffiniau'r Sir gyda'r Cyngor yn canolbwyntio ar bobl Gwynedd, a'r rhai sy'n talu treth Cyngor Gwynedd. Gwnaed awgrym i bwysleisio hyn yn yr adroddiad.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r nifer sydd heb dalu'r Dreth Cyngor a beth yw'r diffyg mae'r Cyngor yn ei ragweld, nododd y Pennaeth Cyllid y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Chwefror yn rhoi diweddariad ar y gyfradd casglu. Ategodd bod y sefyllfa yn parhau yn un heriol, ac er yn derbyn bod cynnydd costau byw yn cael effaith ar y sefyllfa,

bod rhaid casglu treth a'r hyn sydd yn ddyledus. Er y gwelliannu diweddar a gyflwynwyd i'r Uned Trethi a Budd-dal, nid oedd gwahaniaeth sylweddol i'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond ei fod yn rhagweld gwelliannu i'r dyfodol; y sefyllfa yn ansefydlog, ond yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Mewn ymateb i sylw nad oed 21% o ymatebion staff i Arolwg Llais Staff 2026 yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa a bod angen i'r ffigwr fod oddeutu 50%, nodwyd bod cyfradd ymatebion o arolwg pellach oddeutu 40%, a bod dulliau ar wahân i'r Arolwg yn fodd o gasglu gwybodaeth. Cyfeiriwyd at y Rhwydwaith Rheolwyr sydd yn cyfarfod bob 3 mis gydag o leiaf 300 yn mynychu - yn gyfle gwych am sgwrs a chyfle i roi adborth.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**
- **Argymell ychwanegu 'salwch staff' i'r rhestr o heriau / risgiau yn y ddogfen Hunanasesiad mewn ymateb i'r cynnydd yn y cyfnod salwch**
- **Argymell i'r Cyngor ystyried ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dreth Cyngor**

9. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

Amlygodd y Pennaeth Cyllid ei fod ef, fel Swyddog 151 wedi arwyddo'r datganiad cyfrifon fel un oedd yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol. Ategodd ei fod yn hapus a bodlon gyda'r cynnwys a diolchodd i Swyddogion yr Adran Cyllid ac i Swyddogion Archwilio Cymru am eu gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau. Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfrifon amodol ar archwiliad Gwynedd ar gyfer 2025/26 eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2026 lle trafodwyd y Datganiad mewn manylder gan dynnu sylw at y prif faterion a'r nodiadau perthnasol. Ategwyd bod cyfrifon yr Harbyrau hefyd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai a braf oedd adrodd nad oedd unrhyw addasiadau yn deillio o'r Archwiliad, ac felly nid oedd angen eu hail gyflwyno.

Bu'r cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru a bod barn ddiamod wedi ei roi ar y cyfrifon gan yr Archwilwyr gyda chyfuniad o rai addasiadau ac argymhellion yn dilyn archwiliad, wedi eu gweithredu.

Cyfeiriwyd at y camddatganiadau oedd heb eu cywiro, gan nodi nad oeddynt yn cael eu hystyried fel rhai materol, ond ble'n berthnasol, byddant yn cael eu cywiro fel rhan o gyfrifon 2026/27. Y ddau faes dan sylw oedd;

Nodyn 15: Eiddo Offer a Chyfarpar - mater o ran categoreiddio, sef bod eitem o wariant cyfalaf wedi ei ariannu o grant UKSPF, wedi ei gategoreiddio yn anghywir a'i drin fel ychwanegiad i'r fantolen yn hytrach na fel gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf trwy statud. Cadarnhawyd nad oedd y gwariant yn cael ei gwestiynu. Roedd yr ail bwynt yn ymwneud â mater technegol sydd yn ymwneud â thriniaeth cyfalaf, a'r trydydd pwynt yn wall mewn taenlen gan y prisiwr. Nodwyd y bydd y materion hyn yn derbyn sylw priodol erbyn cyfrifon 2026/27.

Nodyn 21: Credydwyr - mater credydwyr yn ymwneud a thriniaeth balans grant. Nodwyd bod y mater yn ymwneud â phrydlesu, yn flwyddyn gyntaf o ran triniaeth cyfrifo prydlesau, ac felly bydd y materion yn cael sylw ar gyfer cyfrifon 2026/2027.

Wrth drafod addasiadau i'r Datganiad o'r Cyfrifon, nodwyd bod nifer o'r addasiadau yn ymwneud ag addasiadau rhwng categorïau ac nad oedd goblygiadau ar wyneb y Fantolen - gwerth yr addasiad mwyaf, oedd un oedd yn berthnasol i Nodyn 15 Eiddo Offer a Chyfarpar,

oedd wedi ei symud o un categori i'r llall. Materion arall a gywirwyd oedd triniaeth incwm yn y maes Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd a sut mae incwm wedi ei gategoreiddio o ran incwm buddsoddi. Nid oedd yr addasiadau hyn wedi effeithio'r llinell waelod, ond yn hytrach newid mewn dosbarthiad.

Ers cyflwyno'r fersiwn ddrafft ym mis Gorffennaf, adroddwyd nad oedd yr addasiadau uchod yn effeithio'r Fantolen, Datganiad Llif arian na'r datganiad o'r symudiadau mewn reserfau, ac o ran y Cyfrif Incwm a Gwariant, addasiadau rhwng gwahanol benawdau a weithredwyd oeddynt, yn hytrach na newid y sefyllfa net ar y llinell waelod.

Croesawyd Yvonne Thomas, Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Nodwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon 2025/26 gan ategu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ac yn cydymffurfio ag arferion priodol. Ategwyd bod y camau gweithdrefn bellach wedi eu cwblhau ac nad oedd materion ychwanegol. Tynnwyd sylw at y camddatganiadau gan amlygu bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Swyddogion ynglŷn â chywiro neu beidio, a bod angen eu hystyried ymhellach ar gyfer cyfrifon 2026/27. Er nad oedd sicrwydd cyflawn, nodwyd bod yr Archwilwyr yn gweithio ar lefel sicrwydd materol gyda lefel perthnasedd 2025/26 o £6.029 miliwn, ac wedi gweithredu yn annibynnol dros gyfnod yr archwiliad.

Diolchwyd i swyddogion cyllid Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth yn ystod y broses ac am y cydweithio da. Mynegodd bod gwelliant amlwg yn ansawdd y gwaith o ystyried yr amserlen heriol a osodwyd ac nad oedd materion arwyddocaol i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad gan fynegi mai braf oedd cael barn ddiamod oedd yn rhoi sicrwydd cadarn i'r Pwyllgor bod y cyfrifon yn gywir a theg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Nodyn 18a (Dyledwyr) ac 18b (Dyledwyr Treth Cyngor) - cyfeiriad at ddyledwyr tymor hir, a chynnydd, dros flwyddyn o oddeutu 50% mewn swm dyledion Treth Cyngor, ac os oedd camau cyfreithiol ynghlwm a'r sefyllfa, nodwyd bod trefniadau cyfreithiol mewn lle yng nghyd-destun dyledwyr Treth Cyngor gyda nifer fwy o achosion wedi mynd i'r Llys. Ategwyd bod trethdalwyr sydd yn newid o dreth annomestig i dreth Cyngor (ac efallai yn ôl i dreth annomestig) yn creu ansefydlogrwydd, ynghyd a materion ôl ddyddio taliadau a chasglu premiwm, ond bod gwaith a threfniadau mewn lle i drafod sefyllfaoedd unigol. Nodwyd bod Nodyn 18a hefyd yn cynnwys costau ar eiddo pobl mewn gofal a benthyciadau ceir. Mewn ymateb, nodwyd bod y sefyllfa yn ddealladwy a bod lefel staffio casglu premiwm wedi cynyddu, ond os nad yw pobl yn gallu talu Treth Cyngor bydd y broblem yn parhau i flwyddyn arall.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd**
- **Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2025/2026 (ôl-archwiliad)**
- **Awdurdodi Is-gadeirydd y Pwyllgor ynghyd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg**
- **Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod**
- **Diolch i Archwilio Cymru am y cydweithio da**

10. CYFRIFON TERFYNOL Y CYDBWYLLGOR GWE AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAI 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau. Atgoffwyd yr Aelodau mai Cyngor Gwynedd fel y Cyngor lletyol oedd wedi bod yn gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cydbwyllgor GwE. Nodwyd bod GwE wedi dod i ben ar 31 Mai 2025, ond gan nad oedd y Cydbwyllgor yn cyfarfod ar ôl y

dyddiad yma, bu raid i gyfrifon 2024/25 a chyfrifon 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu cymeradwyo.

Adroddwyd bod y cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru ers dechrau mis Ebrill a bod barn ddiamod wedi ei roi ar y cyfrifon gan yr Archwilwyr gydag ambell i addasiad wedi ei weithredu. Nid oedd unrhyw newid i'r prif ddatganiadau ariannol sef y Fantolen, Datganiad Incwm a Gwariant, datganiad llif arian na'r datganiad o'r symudiadau mewn reserfau. Er hynny, tynnwyd sylw at addasiadau i'r nodiadau sydd yn cefnogi'r Datganiad o'r Cyfrifon

Roedd yr addasiad cyntaf yn berthnasol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a hynny oherwydd bod cyfarfod olaf Cydbwyllgor GwE ar yr 21ain o Fai 2025, fe gyflwynwyd a derbyniwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024/25. Gan fod hyn ddeg diwrnod cyn i Gydbwyllgor GwE ddod i ben, roedd angen ymestyn cyfnod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 am ddau fis cyntaf y flwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 31 Mai 2025, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Roedd yr ail addasiad yn ymwneud â'r mater o ddod a GwE i ben a'r perthnasedd hynny gyda Chronfa Bensiwn Gwynedd oedd yn golygu bod yr Actiwari wedi gorfod newid eu hadroddiad i adlewyrchu'r sefyllfa agoriadol gywir.

Yn ychwanegol, cyfeiriwyd at nifer fach o fân ddiwygiadau naratif i rai o'r nodiadau.

Ar ran Archwilio Cymru, nododd Yvonne Thomas bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon 2025/26 gan ategu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa, yn cydymffurfio ag arferion priodol ac mai gweithio i lefel o 'berthnasedd' roedd Archwilio Cymru. Adroddwyd bod y lefel o berthnasedd yn cael ei bennu i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau allai beri fel arall i'r sawl sydd yn defnyddio'r cyfrifon gael eu camarwain. Pennwyd y lefel perthnasedd o £33,000 ar gyfer archwiliad 2025/26 ac adroddwyd ar gamddatganiadau trothwy uwchlaw £1,650, (a gyfrifir fel 5% o berthnasedd). Adroddwyd bod y camddatganiadau wedi eu cywiro a diolchwyd i swyddogion cyllid Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth yn ystod y broses ac am y cydweithio da. Nid oedd materion arwyddocaol i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor.

Croesawyd yr adroddiad a diolchwyd i bawb am eu gwaith.

PENDERFYNWYD

- **Cymeradwyo Cyfrifon Terfynol y Cydbwyllgor am 2025/26**
- **Derbyn adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cydbwyllgor Gwe**
- **Awdurdodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg ar gyfer GwE.**
- **Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod**
- **Diolch i Archwilio Cymru am y cydweithio da**

11. RHAGLEN GYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2026) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu penderfyniadau a gymeradwywyd gan y Cabinet 13 Hydref 2026

.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £175.7 miliwn am y 3 blynedd 2026/27 - 2028/29 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £79.483 miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £21.97 miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Ategwyd,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £123.5 miliwn yn 2026/27 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £72.1 miliwn (58%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £12.0 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2026/27 i 2027/28 a 2028/29.
- Bod y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £5.9 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill), £2.85 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £1.05 miliwm Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd, £1.0 miliwn Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys, £24.325m Grant Cronfa Twf Lleol Newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig;£16.365m Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy a'r Grant Gofal Plant tuag at Ysgol Bontnewydd; £11.648m Grant Cronfa Ffyniant Cyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig; £4.260m Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru; £2.840m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2026/27; £2.091m Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru a £1.656m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy -amrywiol gynlluniau

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Côd Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth - ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Derbyniadau Cyfalaf ac mai £164,00 yn unig oedd wedi ei gofnodi ar gyfer 2026/27 gyda cholofnau 2027/28 a 2028/29 wedi eu gadael yn wag, nodwyd mai ffigwr sydd yma ar gyfer y dull o ariannu rhaglen yn hytrach na'r swm sydd yn cael ei dderbyn i symud cynllun yn ei flaen. Mewn ymateb i gwestiwn ategol oni ddylai'r Cyngor e.e., gyda chynllun sydd yn delio gydag eiddo'r Cyngor, amcangyfrif rhif i'r colofnau gwag, nododd y Pennaeth Cyllid bod adolygiad parhaus o stad y Cyngor yn cael ei weithredu i sicrhau gwerth am arian. Ategodd bod Adroddiad Cynllun Asedau i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2027.

Gwnaed sylw bod amser gwerthu eiddo yn hanfodol ynghyd a sicrhau cynlluniau addas ar gyfer defnydd eiddo a defnydd grant, ac y dylai'r Cyngor osgoi cadw eiddo oni bai bod defnydd strategol i'r adeilad i'r dyfodol.

Gwnaed cais i'r swyddogion perthnasol ystyried cyflwyno'r Cynllun Asedau yn gynt yn y flwyddyn fel bod modd cael trafodaeth lawn ar y mater.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Cynllun Asedau – cais i'r adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd 2026 yn hytrach na chyfarfod mis Chwefror 2027

12. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2026/27 hyd 30 Mehefin 2026, yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2026. Nodwyd, yn unol â gofynion y strategaeth bod gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi adrodd ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys yn chwarterol.

Adroddwyd, ar y 30ain o Fehefin 2026, bod y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Gronfa Bensiwn. Nodwyd nad oedd unrhyw symud sylweddol wedi bod yn lefel y benthyciadau yn y 3 mis dan sylw; y Cyngor yn parhau gyda'r strategaeth o ddefnyddio adnoddau mewnol cyn benthyca'n allanol.

Yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, ategwyd bod y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau Lleol, Cronfeydd Marchnad Arian, Swyddfa Rheoli Dyledion a Chronfeydd wedi'i pwlio, a rhain yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi ei wneud gan y Cyngor ers nifer o flynyddoedd bellach gyda'r dychweliadau wedi bod yn gyson.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymiadau (liability benchmark) gan nodi bod y meincnod yn arf pwysig i helpu i sefydlu os yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor, ac felly yn siapio'r ffocws strategol a phenderfyniadau. Amlygwyd bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod a hynny oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, gyda'r llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn amlygu rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

13. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o'r 1af o Ebrill 2026 hyd 20fed Medi 2026. Amlygwyd bod 11 o archwiliadau cynllun gweithredol 2026-27 wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Ategwyd, bod crynodebau'r archwiliadau ychydig yn wahanol a hynny oherwydd ymateb i ofynion y Safonau Archwilio Byd-eang, Safon 14.3 Gwerthuso Darganfyddiadau, lle nodi'r bod "rhaid i archwilwyr mewnol werthuso pob darganfyddiad ymgysylltu posibl i bennu ei arwyddocâd. Wrth werthuso darganfyddiadau ymgysylltu posibl, rhaid i archwilwyr mewnol gydweithio â rheolwyr i nodi gwraidd materion pan fo'n bosibl, pennu'r effeithiau posibl, a gwerthuso arwyddocâd y mater". O ganlyniad, bu i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol adnabod deg prif gategori dadansoddiad 'gwraidd y broblem' > Llywodraethu, Prosesau a Gweithdrefnau, Atebolrwydd, Sicrwydd a Monitro, Adnoddau, Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant, Systemau, TG ac Offer Digidol, Rheoli Gwybodaeth a Chofnodi, Cyfathrebu a Chydlynu a Rheoli Risg a Diwylliant; gyda diffiniad o'r gwaith sydd angen bod mewn lle ac enghreifftiau o ddarganfyddiadau posib. Bydd y categorïau hyn yn cael eu gwerthuso ar y cyd gyda Rheolwyr y meysydd perthnasol.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y cydweithio da i geisio bod rheolaeth dda mewn lle ar draws y Cyngor

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Maes Gofal: Cefn Rodyn a Hafod Mawddach - darparu gofal preswyl. Lefel Sicrwydd Cyfyngedig > pryder nad oes cydymffurfiaeth gyda materion diogelwch, cynnal profion tân amserol ac adolygu cynlluniau gofal - sut fydd hyn yn cael ei fonitro er mwyn diogelu defnyddwyr?

  Bydd dilyniant penodol ar gyfer archwiliadau sydd â lefel sicrwydd cyfyngedig

- Maes Gofal Hafod Mawddach > pryder mewn methiannau talu cyflogau cywir

  Bod cyd-weithio da gyda'r Gwasanaeth Cyflogau wedi digwydd i geisio cywiro'r sefyllfa. Y mater heb ei ddilyn i fyny, ond bod y gwasanaeth yn y broses o roi trefniadau gwell mewn lle

- Maes Gofal Plas Hedd – croesawu bod y camau gweithredu wedi cael sylw

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r Gwasanaethau perthnasol**

14. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio oedd yn crynhoi gwaith y Gweithgor Gwella Rheolaethau a gynhaliwyd ar 1 Medi 2026. Cafodd pedwar archwiliad eu hadolygu yn fanwl gyda'r swyddogion perthnasol yn bresennol ynghyd ag Aelodau o'r Pwyllgor - Dewi Lewis, Cadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Geraint Parry, Ioan Thomas a Menna Baines. Atgoffwyd yr Aelodau mai prif bwrpas y Gweithgor yw herio ac olrhain cynnydd ar weithrediadau cytunedig lle nodwyd gwendidau rheolaethol.

Dilyniant Cludiant Ysgolion (Lefel Sicrwydd: Digonol)

Eglurwyd bod trefniadau newydd bellach mewn lle i roi adroddiadau misol awtomatig i'r Tîm Cludiant ar newidiadau disgyblion, gan wella cywirdeb data a chymhwysedd cludiant. Ategwyd bod Polisi Cludiant Addysg newydd wedi cwblhau cyfnod ymgynghori ac wedi ei gyflwyno i'r Cabinet, gyda gobaith y daw i rym Medi 2027. Nodwyd bod gwaith pellach angen ei wneud i wella systemau gwybodaeth a monitro cytundebau, yn enwedig mewn perthynas â gwiriadau DBS a threfniadau diogelu. Roedd y Gweithgor yn fodlon bod cynnydd sylweddol wedi digwydd a bod adrannau Addysg ac Amgylchedd yn cydweithio'n effeithiol.

Dilyniant Clybiau Brecwast (Lefel Sicrwydd: Cyfyngedig)

Adroddwyd mai'r risg fwyaf oedd rheoli alergeddau bwyd, rheoli gwahaniaethau mewn cofnodion a diweddaru polisïau a chanllawiau. Mynegwyd bod gwaith ar y gweill i ddatblygu polisi alergeddau newydd ar sail Cymru gyfan, gyda mwy o bwyslais ar dystiolaeth feddygol a gwell rheoli gwybodaeth drwy Bromcom, sef system newydd fydd yn disodli system SIMS. Ategwyd bod gwelliannau i ddarpariaeth ffrwythau a chyfarpar arbenigol i blant ag alergeddau wedi eu gweithredu ond bod diffyg mynediad staff ceginau at hyfforddiant digidol yn parhau'n her. Er hynny, nodwyd bod cynlluniau ar waith i ddarparu offer TG a gwella cydymffurfiaeth.

Trefniadau Tân (Lefel Sicrwydd: Digonol)

Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod trefniadau rheoli tân sylfaenol mewn lle, gyda rheolwyr safle wedi'u penodi ac archwiliadau blynyddol yn cael eu cynnal, ond bod gwendidau o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol, gweithredu ar argymhellion y Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth mewn modd amserol, cadw cofnodion cyfredol o Reolwyr Safle rheolaeth

trefniadau gwagio adeiladau mawr mewn argyfwng, yn parhau. Adroddwyd y bydd asesiad risg tân newydd ar gyfer Pencadlys yn cael ei drefnu ar ôl cwblhau gwaith adnewyddu'r adeilad ac fe bwysleisiwyd yr angen am newid diwylliant er mwyn cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd o ran iechyd a diogelwch.

Dilyniant Rheolaeth Categori Amgylchedd (Lefel Sicrwydd: Cyfyngedig)

Er bod cynnydd wedi'i wneud ar y pedwar gweithrediad gwreiddiol, nid oeddynt wedi'u cwblhau'n llawn eto. Nodwyd bod y gwasanaeth yn datblygu system PowerApp newydd i reoli contractau, monitro achrediadau, yswiriant a dyddiadau adnewyddu awtomatig. Ategwyd bod heriau capasiti oherwydd maint y rhaglen waith a maint cymharol fach y tîm, ond bod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Caffael 2023 gan gynnwys hyfforddiant staff a datblygu trefniadau corfforaethol newydd. Y bwriad yw darparu rhagor o ddiweddariadau erbyn Rhagfyr 2026 ar ddatblygiad y systemau a chynnydd yr hyfforddiant.

Adroddwyd bod y Gweithgor yn fodlon bod cynnydd pendant wedi'i wneud ym mhob un o'r pedwar maes, gyda nifer sylweddol o'r gweithrediadau cytunedig wedi eu gweithredu neu ar waith . Fodd bynnag, ystyriwyd bod rhai meysydd pwysig yn parhau i fod angen sylw, yn benodol rheoli alergeddau mewn clybiau brecwast, cydymffurfiaeth hyfforddiant, rheoli contractau a datblygu systemau gwybodaeth, gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu diwygiedig.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

15. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27. Ymddiheurodd bod y ffigyrau yn yr adroddiad yn anghywir a chyflwynodd ffigyrau diwygiedig o'r gwaith sydd wedi ei gwblhau. Adroddwyd, hyd at 20fed Medi 2026, bod 25.4% - allan o'r 59 archwiliad unigol sydd yng nghynllun diwygiedig 2026/27, bod 15 wedi ei ryddhau yn derfynol / cwblhau, neu wedi cau.

Cyfeiriwyd at statws y gwaith, yr amser a dreuliwyd ar bob archwiliad ac Addasiadau i'r Cynllun.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti y tîm, adroddwyd bod prentis wedi ei benodi i'r tîm, ond gyda'r prentis yn parhau o dan oruchwyliaeth nid oedd oriau'r prentis yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm dyddiau. Ategwyd bod un archwilydd wedi lleihau oriau gwaith o 5 diwrnod i 4 diwrnod.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod bwriad cyflwyno bid i'r Cabinet am adnodd ychwanegol ar gyfer 2027/28. Ategodd bod y rhagolygon o lwyddiant yn isel o ystyried pwysau gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor am arian ychwanegol.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2026/27

16. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDD CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB

Cyflwynwyd y Strategaeth gan y Rheolwr Archwilio oedd yn amlygu bod y risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd wedi'i adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor, ond yn cael ei asesu'n risg isel oherwydd cryfder y rheolaethau mewnol a'r sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan waith Archwilio Mewnol. Er hynny, amlygwyd pwysigrwydd cadw ffocws ar y maes oherwydd bod y Cyngor wedi profi achos o dwyll sylweddol yn y gorffennol.

Cydnabuwyd y gall risg godi gan unigolion allanol, staff, aelodau etholedig neu gyfuniad o'r rhain ac mewn ymateb cyflwynwyd modiwl e-ddysgu "Ymwybyddiaeth Twyll" (Tachwedd 2025) i staff ac aelodau er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth a hyrwyddo diwylliant atal twyll.

Adroddwyd bod y Strategaeth yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor ac yn dangos ymrwymiad i ddiogelu arian cyhoeddus a chynnal safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus. Prif amcanion y Strategaeth yw: Diffinio twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; Gosod disgwyliadau clir ar gyfer staff ac aelodau; Hyrwyddo atal a darganfod twyll; Esbonio sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd a chodi ymwybyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig sy'n ymwneud â thwyll.

Yn ogystal â'r Strategaeth, cyfeiriwyd at y Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd sydd i'w ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth. Nodwyd bod y Cynllun Ymateb yn darparu gweithdrefn glir ar gyfer ymdrin ag amheuon neu honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd drwy Ddiffinio rolau a chyfrifoldebau staff, rheolwyr ac archwilwyr; Cysylltu â pholisïau allweddol megis y Polisi Datgelu (Canu'r Gloch), Polisi Disgyblu, Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Siarter Archwilio Mewnol; Amlinellu'r broses ymchwilio i honiadau ac esbonio'r opsiynau sydd ar gael pan geir tystiolaeth ddigonol, gan gynnwys camau disgyblu, camau sifil neu erlyniad troseddol neu gyfuniad o'r rhain.

Ystyriwyd bod y Strategaeth a'r Cynllun Ymateb yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy ddarparu fframwaith clir ar gyfer atal, darganfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Er bod lefel y risg bresennol yn cael ei hystyried yn isel, mae'r dogfennau'n sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n wyliadwrus ac yn barod i ymateb yn effeithiol i unrhyw achosion all godi.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chadw data neu wybodaeth o enghreifftiau o sut mae'r Strategaeth wedi gweithio a bod hynny yn rhoi hyder i Aelodau bod y gweithrediadau yn llwyddiannus, nodwyd nad oedd data canolog yn bodoli ar hyn o bryd. Er hynny, wrth sefydlu a chyhoeddi Polisi Canu'r Gloch sefydlwyd Grŵp Ymateb fydd yn gyfrifol am dderbyn a dadansoddi cwynion a phryderon staff, gyda materion ariannol yn cael eu cyfeirio at Cyllid ac Archwilio Mewnol, a materion Diogelu yn cael eu cyfeirio at yr Uned Diogelu. O ganlyniad i'r drefn, bydd hyn yn galluogi i ddata canolog yn ymwneud a thwyll, llygredd a diogelwch gael ei gasglu ac yn cyflwyno gwybodaeth i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol adrodd ar y perfformiad a gweithrediadau'r Strategaeth. Ystyriwyd y bydd cwynion am faterion cyhoeddus yn cael eu cyfeirio drwy'r drefn cwynion.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn**
- **Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.**

Nodyn: Yn dilyn sefydlu trefniadau canolog i gasglu data yn ymwneud a thwyll, llygredd a diogelwch, bod adroddiad ar weithredu'r Strategaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

17. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

- **'DEFNYDDIO DATA WRTH GYNLLUNIO CYLLIDEB GWASANAETH PRESWYL OEDOLION'**
- **RHAGLEN WAITH 2026**

Croesawyd Lora Gwawr (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn adrodd ar ganfyddiadau adolygiad oedd yn edrych os oedd Cyngor Gwynedd yn defnyddio data i gynllunio cyllidebau gwasanaeth preswyl i oedolion yn effeithiol. Cwblhawyd yr adolygiad ar draws chwe Cyngor Gogledd Cymru rhwng mis Mawrth a Mis Mehefin 2026.

Adroddwyd, er bod gan y Cyngor wybodaeth sydd ei angen i gynllunio cyllideb gyda dull sydd yn cael ei arwain drwy ddata (yn dilyn ymchwil gynhwysfawr Llechen Lan), nad oedd y defnydd yn cyrraedd ei lawn botensial. Arweiniodd hyn at un argymhelliad gan Archwilio Cymru i'r Cyngor gryfhau defnyddio data cost a glaw i lywio penderfyniadau cyllidebol dros y tymor byr a canolig. Ategwyd bod y Cyngor wedi ymateb yn chwim i'r argymhelliad ac wedi gosod camau gweithredu sydd i'w cwblhau erbyn 2027.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sail y data ac os oedd Archwilio Cymru yn hapus gyda rhagamcanion hir dymor y gwasanaeth o ystyried cyfrifoldebau statudol ac amgylchiadau demograffi, nodwyd bod y Cyngor yn mynd tu hwnt i'r gofyn ac yn cynnig rhagamcanion yn ymwneud e.e., a gofynion sut mae pobl yn dymuno byw, fesul proffil, patrwm teuluol y gorffennol o'i gymharu â'r presennol, talu am ofal a gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaeth preswyl.

Ategwyd bod gan y Cyngor fwriad i gynhyrchu dogfen ymchwil i ragweld anghenion plant a phobl ifanc.

Croesawyd y bwriad yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwneud defnydd llawn o'r cyfoeth o ddata sydd ar gael i gwrdd â'r galw a sut bydd y gwasanaeth yn ymateb i hyn, nododd y Pennaeth Cyllid, er bod arian ychwanegol yn cael ei roi i'r maes gofal, bod y galw yn parhau yn fwy na'r gyllideb; bod y galw yn cynyddu a chostau gofal yn cynyddu ac er bydd data yn gallu edrych ar boblogaeth sydd yn heneiddio, bydd costau uned gofal hefyd yn mynd yn uwch. Ategwyd bod gwaith yn cael ei gomisiynau i edrych yn fanylach ar y sefyllfa a chymharu'r sefyllfa gyda Chynghorau eraill.

Cyflwynwyd rhaglen waith ac amserlen Archwilio Cymru 2026 ar gyfer Cyngor Gwynedd er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a Rhaglen Waith 2026

18. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Hydref 2027.

PENDERFYNWYD

Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2026 – Hydref 2027

Nodyn: Cynllun Asedau – cais i'r adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd 2026 yn hytrach na chyfarfod mis Chwefror 2027

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12:55

_____

CADEIRYDD

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**26 TACHWEDD 2026**
TEITL	**GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR**
AWDUR	**DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**
GWEITHREDIAD	**ER GWYBODAETH**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu le nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

TAFLEN WEITHREDU

2. Penderfyniadau ers sefydlu'r Cyngor Newydd (Mai 2022)

Cyfarfod 16 Ionawr 2025

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - 'CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL' AC 'ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL – CYNGOR GWYNEDD'	• Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion	Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026 Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch	Pennaeth Cyllid	Mae argymhellion yr adroddiad wedi eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd hwnnw yn cael ei adolygu dros y misoedd nesaf a bydd diweddariad i'r CATC yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Tachwedd 2026 o'r Pwyllgor, fydd yn mynd i'r afael â materion sy'n weddill.	**Na**

Cyfarfod 15 Ionawr 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol • Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi • Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno.	Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau, Rheolwr Trethi	Bydd y pwyntiau hyn yn derbyn ystyriaeth wrth adolygu'r Polisi. Mae hynny wedi cychwyn, gyda'r bwriad o adrodd i'r Cabinet yn gynnar yn 2027.	**Na – angen ei gadw tan fydd y Polisi wedi cael ei adolygu'n ffurfiol**

Cyfarfod 3 Chwefror 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
MATERION BRYS	Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor	• Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib. • Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel	Pennaeth Cyllid	Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn penodi prentis sydd wedi cychwyn gyda'r gwasanaeth ddiwedd Gorffennaf. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi derbyn data cymharol erbyn hyn a bydd yn trafod gwneud bid am adnoddau ychwanegol gyfer 2027/28 gyda'r Aelod Cabinet, gan fod y cyfnod cyflwyno bidiau wedi cychwyn ym mis Medi. Gan ein bod rhagweld setliad gwael ar gyfer 2027/28 mae'r tebygolrwydd o lwyddiant yn isel.	**Na**

CYLLIDEB 2026/27	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys • Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol • Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26 • Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb • Sefyllfa gorwariant yn bryderus • Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaeafu	Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad - Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig - Datganiad y Swyddog Cyllid 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?	Pennaeth Cyllid	Y gyllideb wedi ei chyflwyno i'r Cabinet ar 10 Chwefror, a wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth. Ysgol y Faenol – gweler y daflen weithredu penderfyniadau ar gyfer cyfarfod 9 Gorffennaf 2026 isod. Bydd fformat yr adrodd yn cael ei ystyried pan cyflwynir adroddiad Cyllideb 2027/28. Mae cynlluniau ar gyfer y posibilrwydd o ostyngiad yn yr incwm Premiwm yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun Gweithredu Tai.	**Na**

CYLLIDEB 2026/27	Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor		Pennaeth Cynorthwyol – Busnes a Chomisiynu	Bydd cyflwyniad a diweddariad ar adroddiad Housing LIN Cymru yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod hwn. Bwriedir diwygio teitl yr eitem i: "Lletya Pobl Hŷn yng Ngwynedd - cais i gyflwyno canfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru i'r Pwyllgor".	**Gellir**

ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR?	• Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru • Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion; - A1 Gwerth am arian - - A2 Cynllunio ar gyfer Atal A3 Gweithio mewn Partneriaeth • Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Ddigartrefedd • Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	• Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	Pennaeth Cyllid Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth, Pennaeth Cynorthwyol Busnes	Yn unol â'r drefn newydd bydd cynnydd ar yr ymateb sefydliadol yn cael ei gyflwyno I'r Pwyllgor ar ôl dyddiad cytunedig cwblhau'r gwaith ym Mawrth, 2027.	**Na**

Cyfarfod 21 Mai 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 - ALLDRO REFENIW	Derbyn yr adroddiad a nodi'r risgiau perthnasol	• Gwahodd Penaethiaid yr Adrannau hynny sydd yn gorwario i'r Pwyllgor i adrodd ar y gorwariant • Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar gostau cyfreithiol Erthygl 4	Pennaeth Cyllid	Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhaglennu yn ystod y flwyddyn fel sy'n briodol.	**Na**
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU	• Derbyn yr adroddiadau cenedlaethol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhelliad yn adroddiad Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru – 'Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau cynllunio	Cais i gyflwyno Cynllun Rheoli Asedau i'r Pwyllgor	Uwch Reolwr Gweithredol	Bydd diweddariad yn dilyn adolygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau, yn ystod 2026/27.	**Na**

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
	cyfalaf er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd i wella'.				
DIWEDDARIAD ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG - GOFAL CARTREF	• Derbyn a nodi'r cynnydd i drefniadau Gofal Cartref y Cyngor • Bod angen diweddariad pellach ymhen 6 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith • Bod angen edrych ar gysoni cyflogau ar draws pob sector - hyn yn allweddol os yw Cyngor Gwynedd am barhau i gynnig gofal safonol	Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad	Pennaeth Cynorthwyol – Busnes a Chomisiynu	Diweddariad pellach mewn chwe mis (Ionawr 2027)	**Na**

Cyfarfod 9 Gorffennaf 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD A'R GYFER 2025/26	• Derbyn addasiad i gynnydd sgôr tebygolrwydd (o 3 i 4) yn y risg Ymgysylltu • Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft) • Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo	• Cynnwys yn y rhaglen waith bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu pan yn berthnasol • I ystyried ail sgorio maes Cyfreithlondeb yn dilyn achos llys diweddar. Angen ychwanegu cymal at achos Erthygl 4 yn y datganiad • I ystyried rhannu risgiau maes Cyllid yn ddau gategori ar wahân 'Gorwariant yn sgil tan gyllido neu diffyg rheolaeth ariannol' i a) Gorwariant yn sgil tan	Pennaeth Cyllid	• Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr wedi arwyddo'r Datganiad ac mae wedi ei gynnwys gyda'r Datganiad o Gyfrifon terfynol fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor. • Mae gwahoddiad i'r Cadeirydd wedi ei drafod yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu ar 21 Medi • Mae'r sgôr risg Cyfreithlondeb wedi ei ystyried gan y swyddogion perthnasol yng nghyd-destun y	**Na**

		gyllido b) diffyg rheolaeth ariannol' • Cyfeiriad at adolygiad mewnol i wella trefniadau casglu Treth Cyngor – cais am ddiweddariad i'r Pwyllgor • Cynllun Prentisiaethau - cais am adroddiad fyddai yn cynnwys gwybodaeth am lwyddiant y cynllun. Angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol. • Cais i'r Swyddog Monitro fynychu'r cyfarfodydd		trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle i warchod rhag aelodau neu swyddogion yn mynd ati'n fwriadol i dorri'r gyfraith, sef y disgrifiad o'r risg yma. • Diweddariad i'r pwyllgor ar welliannau trefniadau casglu treth Cyngor i'w gyflwyno Chwefror 2027. • Cyflwyno adroddiad am lwyddiannau cynllun prentisiaethau.	

Cyfarfod 29 Medi 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	• Gwella Trefniadau Casglu Treth Cyngor – angen rhaglennu diweddariad ar y mater ym mlaen raglen y Pwyllgor • Bidiau Cyfalaf – cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am y costau ynghlwm â'r llithriad	Derbyn yn ddiwrthwynebiad	Pennaeth Cyllid	• Mae diweddariad wedi cael ei raglennu i'w gyflwyno yn Chwefror 2027. • Cyflwynwyd yr wybodaeth yma i'r Pwyllgor ar 22 Hydref.	**Gellir**

Cyfarfod 22 Hydref 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	• Derbyn cynnwys yr adroddiad		Pennaeth Cyllid		**Gellir**
DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER	• Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad		Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol		**Gellir**
ARGYMHELLION YN DEILLIO O ASESIAD PERFFORMIAD PANEL - YMATEB DRAFFT Y CYNGOR	• Derbyn yr ymateb drafft i'r Adroddiad gan nodi nad oes unrhyw newid yn cael ei argymell i'r ymateb. • Croesawu diweddariad ymhen 12 mis ar y cynnydd i weithredu'r argymhellion		Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Busnes y Cyngor	Diweddariad mewn 12 mis	**Na**

HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2025/26	• Derbyn cynnwys yr adroddiad • Argymell i'r Cyngor ystyried ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dreth Cyngor • Argymell ychwanegu 'salwch staff' i'r gofrestr risg mewn ymateb i'r cynnydd yn y cyfnod salwch		Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Busnes y Cyngor		**Gellir**
CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL	• Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd • Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2025/2026 (ôl-archwiliad) • Awdurdodi Is-gadeirydd y Pwyllgor ynghyd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr		Archwilio Cymru		**Gellir**

	Cynrychiolaeth yn electroneg • Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod • Diolch i Archwilio Cymru am y cydweithio da				
CYFRIFON TERFYNOL Y CYDBWYLLGOR GWE AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAI 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL	• Cymeradwyo Cyfrifon Terfynol y Cydbwyllgor am 2025/26 • Derbyn adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cydbwyllgor Gwe • Cymeradwyo cyfrifon 2025/26 • Awdurdodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer GwE. • Llongyfarch y swyddogion ar eu		Archwilio Cymru		**Gellir**

	gwaith o dderbyn datganiad diamod • Diolch i Archwilio Cymru am y cydweithio da				
RHAGLEN GYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026	• Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth		Pennaeth Cyllid		**Gellir**
DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS	• Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth		Pennaeth Cyllid		**Gellir**
CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL	• Derbyn yr adroddiad • Cefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r Gwasanaethau perthnasol		Rheolwr Archwilio		**Gellir**
ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU	• Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth		Pennaeth Cyllid		**Gellir**
CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27	• Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel		Rheolwr Archwilio		**Gellir**

	diweddariad o gynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2026/27				
STRATEGAETH GWRTH DWYLL, GWRTH LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDD CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB	• Derbyn cynnwys yr adroddiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn • Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.		Pennaeth Cyllid		**Gellir**

ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU: • **'DEFNYDDIO DATA WRTH GYNLLUNIO CYLLIDEB GWASANAETH PRESWYL OEDOLION'** • **RHAGLEN WAITH 2026**	• Derbyn yr adroddiad a Rhaglen Waith 2026		Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Busnes y Cyngor		**Gellir**
BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR	• Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2026 – Hydref 2027. • Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2026 i Hydref 2027. • Cynllun Rheoli Asedau: cais i gyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod Tachwedd yn hytrach na chyfarfod Chwefror 2027.	Cynllun Asedau – cais i'r adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd yn hytrach na chyfarfod mis Chwefror 2027	Pennaeth Cyllid	Mae'r Cadeirydd wedi rhoi caniatâd i'r Uwch Reolwr Gweithredol gyflwyno yn Chwefror 2027 oherwydd ymrwymiadau eraill yn Tachwedd 2026.	**Na**

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- **Ystyried cynnwys y daflen weithredu uchod a chynnig sylwadau**
- **Cytuno i dynnu o'r taflenni y materion hynny a nodir fod modd eu dileu.**

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**26 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**
PWRPAS:	**Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth ac ystyried y risgiau cyffredinol sy'n deillio o lithriadau yn yr arbedion**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD HUW WYN JONES**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.

2. Mae'r adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 10 Tachwedd 2026.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 10/11/2026: Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**Trosolwg Arbedion:** **Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau**
Dyddiad y cyfarfod:	**10 Tachwedd 2026**

1. Penderfyniad a geisir

1.1 I dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2026/27 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cymeradwyo dileu arbedion gwerth £925,600 gan ddefnyddio'r ddarpariaeth benodol a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn ei ariannu.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2026/27 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2026.

3.2 Yn adroddiad Cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026, adroddwyd fod arbedion gwerth £583k wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2026/27. Cymeradwywyd gwerth £240k o arbedion gan y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, tra bod £343k yn gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2026/27.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Ail-asesu arbedion

4.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Er hyn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd, oedd i'w weld amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff.

4.2 Yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, rhoddwyd darpariaeth arbedion corfforaethol gwerth £1.3m wrth sefydlu'r gyllideb, er mwyn galluogi dileu cynlluniau arbedion petai'r angen yn codi ac er mwyn ymateb i'r risg o fethiant i gyflawni rhai cynlluniau arbedion.

4.3 Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau arbedion oedd bellach yn anghyraeddadwy, argymhellir fod rhan o'r ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio i ddileu'r arbedion. Lluniwyd rhaglen i ddileu gwerth £925,600 o gynlluniau na fu modd eu cyflawni.

4.4 Mae **Atodiad 1** yn rhestru'r cynlluniau gwerth £925,600 sydd i'w dileu ac mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r arbedion fesul Adran.

Tabl 1 : Arbedion i'w Dileu Fesul Adran

Adran	Arbedion i'w dileu £	Nifer cynlluniau
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	190,000	*2*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	535,600	*4*
Amgylchedd	200,000	*3*
Cyfanswm	**925,600**	***9***

4.5 Bydd yr adroddiad yn adrodd ar sefyllfa'r arbedion yn dilyn dileu y cynlluniau arbedion yn rhan 4.

5. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2025/26

5.1 Yn seiliedig ar sefyllfa adolygiad Awst 2026 am y flwyddyn ariannol 2025/26, mae gwerth cyfanswm o £3.1m wedi eu proffilio am y flwyddyn. Mae **gwerth bron i £2.6m neu 83% wedi eu gwireddu.** Bu llithriad mewn gwireddu dau gynllun gwerth £40k tra fod rhai risgiau o gyflawni arbedion gwerth cyfanswm o £486k.

6. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2026/27

6.1 O'r cynlluniau gwerth cyfanswm o £533k a broffilwŷd ar gyfer 2026/27, **mae £242k neu 45% eisoes wedi gwireddu** a £91k pellach ar drac i wireddu'n amserol. Mae'r Adran Amgylchedd yn rhagweld rhai risgiau i wireddu un cynllun yn y maes Gwastraff, sydd werth £200k.

7. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2026/27

7.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn eu targedau arbedion o **£34.037 miliwn** ar gyfer y cyfnod 2015/16 – 2026/27 yn seiliedig ar adolygiad Awst 2026. **Gellir adrodd bod gwerth £34.018 miliwn, neu 99.9% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu un o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

7.2 Mae'r un cynllun sydd heb ei wireddu gan yr Adran Economi a Chymuned sydd yn wynebu risgiau i'w gyflawni (£20k), bu i darged incwm cynllun Neuadd Dwyfor gael ei leihau o £100k i £20k ar sail dros dro ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Bydd £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei bontio o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor.

8. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2023/24 – 2026/27

8.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion ar gyfer y cyfnod 2023/24 – 2026/27 **sydd yn gyfanswm o bron i £15.7 miliwn,** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2026. **Gellir adrodd fod £14.6 miliwn, neu 93% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £91k pellach, neu 0.6% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

8.2 Mae dau gynllun gwerth cyfanswm o £91k ar drac i wireddu'n llawn ac yn amserol, tra fod llithriad ar dri cynllun gwerth cyfanswm o £86k sydd wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn ystod 2024/25 a 2025/26, ond nid yw'r adrannau'n rhagweld problemau i'w gwireddu. Ar hyn o bryd, rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £856k o gynlluniau arbedion sydd yn cynnwys un cynllun gan yr Adran Addysg (£25k), pedwar cynllun gan yr Adran Amgylchedd (£760k) ac un cynllun gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (£71k).

9. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2027/28 ymlaen

9.1 Un cynllun yn unig, gwerth £98.5k gan yr Adran Addysg sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2027/28, mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynllun yma ar hyn o bryd.

9.2 Bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law, fydd yn ystyried y bwlch cyllidol ar gyfer 2027/28 a'r bwriad o ran ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2027/28.

10. Casgliad

10.1 Gellir adrodd bod cyfanswm o dros £49 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 98% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwyf yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

10.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 98% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 2: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	**Porth**	**£m**	**%**
Wedi gwireddu	1	48.6	97.9
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.1	0.2
Llithriad/Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.1	0.2
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	0.9	1.7
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.0	0.0
Cyfanswm arbedion		**49.7**	**100**

10.3 Ers cychwyn y cyfnod i'r Cyngor orfod ddod o hyd i arbedion nôl yn 2010/11, gellir adrodd bod cyfanswm o bron i £72.5 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu, sydd yn 98.4% o'r £73.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod.

10.4 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Ymhellach i hyn, dileu y cynlluniau arbedion gwerth cyfanswm o £925,600.

11. Camau nesaf ac amserlen

11.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2026.

12. Sylwadau Swyddogion Statudol

12.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

12.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Atodiadau:

Atodiad 1 - Cynlluniau arbedion i'w dileu fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2026/27 fesul adran
Atodiad 3 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2023/24 - 2026/27 fesul adran

ATODIAD 1

CYNLLUNIAU ARBEDION I'W DILEU FESUL ADRAN

Adran	Cynllun	2019/20 £	2020/21 £	2021/22 £	2022/23 £	2023/24 £	2024/25 £	2025/26 £	2026/27 £	Cyfanswm £	
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd						60,000			60,000	
	Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Priffyrdd							130,000		130,000	*
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg a YGC		**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**60,000**	**130,000**	**-**	**190,000**	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn	185,600								185,600	*
	Cartrefi Preswyl a Nyrsio: Helpu 20 o unigolion i barhau i fyw yn y gymuned (yn hytrach na chartref gofal preswyl) dros amser							50,000	50,000	100,000	
	Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)							200,000		200,000	
	Cartrefi Pobl Hŷn: Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal							50,000		50,000	
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant		**185,600**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**300,000**	**50,000**	**535,600**	
Amgylchedd	Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol						50,000			50,000	*
	Gwasanaeth Gwastraff - Caniatáu i rhai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu						50,000			50,000	
	Gwasanaethau Gwastraff - Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol, marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm a chynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau						100,000			100,000	*
Cyfanswm Amgylchedd		**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**200,000**	**-**	**-**	**200,000**	
Cyfanswm Arbedion i'w dileu										**925,600**	

** dileu'n rhannol*

ATODIAD 2

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2026/27 FESUL ADRAN

TABL 1
CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2026/27 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Canran cynlluniau wedi eu gwireddu
Addysg	1,659,740	1,659,740	100%
Ysgolion	4,331,620	4,331,620	100%
Amgylchedd	2,972,463	2,972,463	100%
Gwasanaethau Corfforaethol	2,569,218	2,569,218	100%
Cyllid	1,881,636	1,881,636	100%
Economi a Chymuned	2,916,422	2,896,422	99.3%
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,409,381	6,409,381	100%
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	100%
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	6,531,580	6,531,580	100%
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	403,240	100%
Tai ac Eiddo	843,230	843,230	100%
Is-gyfanswm	**32,837,438**	**32,817,438**	100%
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	100%
CYFANSWM	**34,037,798**	**34,017,798**	99.9%

TABL 2
CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU

Adran *(nifer cynlluniau)*	2025/26 £	2026/27 £	Cyfanswm £
Economi a Chymuned *(1 cynllun)*	20,000	0	20,000
Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:			
Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau'r targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu.			

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2026/27 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2026/27 £ - *nifer*		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - *nifer*		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - *nifer*		Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - *nifer*		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,555,010	*35*	1,530,270	*34*	-		24,740	*1*	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu y cynllun *Trosglwyddo Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes Ni* (£25k).
Ysgolion	1,966,100	*1*	1,966,100	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
Amgylchedd	2,147,380	*36*	1,387,380	*32* *	-		760,000	*4* *	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 4 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £760k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol* (£100k), *arbedion yn y gwasanaethau Gwastraff* (2 gynllun gwerth cyfanswm o £330k) a *gwasanaeth Gwastraff Masnachol* (£330k).
Gwasanaethau Corfforaethol	865,620	*30*	865,620	*30*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu.
Cyllid	873,430	*21*	833,430	*19* *	-		40,000	*2* *	Bu llithriad ar 2 gynllun sef A*ilstrwythuro yr Uned Incwm* gyda balans o £20k eto i'w wireddu ac 1 cynllun *Gosod targed incwm ar yr Uned Cyflogau i adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud i asiantaethau eraill* gwerth £20k.
Economi a Chymuned	648,780	*41*	648,780	*41*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,491,860	*19*	2,491,860	*19*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	308,140	*8*	308,140	*8*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	1,459,940	*23*	1,251,940	*19*	91,000	*2*	117,000	*2*	Mae 2 gynllun gwerth cyfanswm o £91k ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol eleni. Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 1 cynllun sef *Lleihau adnodd drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gyda'r gwasanaeth Edrychiad Stryd* (£71k). Bu llithriad o 2024/25 yn ymwneud ag 1 cynllun sef *Newid trefn torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu* (£46k).
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	161,190	*8*	161,190	*8*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Tai ac Eiddo	780,350	*14*	780,350	*14*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Arbedion Rheolaethol	2,400,000	*1*	2,400,000	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
CYFANSWM	**15,657,800**	***237***	**14,625,060**	***226***	**91,000**	***2***	**941,740**	***9***	**Yn nhermau ariannol (£), mae 93% o gynlluniau arbedion 2023/24 i 2026/27 eisoes wedi eu gwireddu a bron i 1% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.**

** cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio*

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**26 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**CYLLIDEB REFENIW 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026**
PWRPAS:	**Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD HUW WYN JONES**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026) i'r Cabinet ar 10 Tachwedd 2026.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 10/11/2026: Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

Crynodeb

- *Rhagwelir diffyg cyllidebol o £9.8 miliwn am y flwyddyn ariannol 2026/27.*
- *Mae pedair o adrannau'r Cyngor yn goddef o ddiffyg cyllideb uwchlaw'r trothwy o £100,000 gyda gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref, gofal Ôl-16 a gwasanaeth Derwen, yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.*
- *Nid yw targedau incwm yn parcio ac yn y maes priffyrdd yn cael eu cyflawni.*
- *Cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth cyngor £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni.*
- *Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi cynnal cyfarfod brys efo pob pennaeth adran perthnasol i gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn yr adrannau a rhaglen glir i ymateb gan gynnwys parhau i wthio i gyflawni arbedion. Fodd bynnag, diffyg yn y galw yw'r rheswm amlwg dros y rhan helaeth o'r diffyg cyllidebol ac mae rheoli hynny tu hwnt i allu'r Cyngor.*
- *Rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol sydd bron yn anorfod. Bydd angen i'r Cabinet wneud penderfyniad bryd hynny pa gronfeydd fydd yn briodol i'w defnyddio, ar sail argymhellion y Swyddog Cyllid Statudol. Eleni bydd rhaid talu sylw penodol i'r effaith sylweddol gaiff y trosglwyddiadau tai o eiddo sy'n talu treth a phremiwm i eiddo sy'n destun trethi annomestig.*

1. Penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet yn:

1.1 Derbyn yr adroddiad gan nodi bod rhagolygon o ddiffyg cyllideb sylweddol ar gyfer 2026/27 gan yr Adran Plant a Theuluoedd, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gyda diffyg i raddau llai yn yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd hefyd

1.2 Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.3 Cymeradwyo cyllido'r gwariant o £1.006 miliwn sydd uwchlaw'r gyllideb yn y maes Gwastraff drwy ddefnyddio £1.006 miliwn o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2027 ac nid symiau sy'n cynrychioli'r diffyg yn y gyllideb heddiw.

2.2 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad diwedd Awst 2026 o gyllideb refeniw'r Cyngor am y flwyddyn ariannol 2026/27, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd gan pedair o'r adrannau ddiffyg cyllidebol sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif ddiffyg yn:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref
- Adran Plant a Theuluoedd – Lleoliadau all-sirol, Ôl-16 a Derwen
- Adran Amgylchedd - Gwastraff a Pharcio
- Priffyrdd, Peirianneg a YGC – Priffyrdd a Bwrdeistrefol

3.2 Isod, ac yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau ble rhagwelir diffyg cyllideb , ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026, adroddwyd fod arbedion gwerth £583k wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2026/27. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

4.2 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd, ddwywaith y flwyddyn, i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno diweddariad am y gwaith o wireddu arbedion, a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion, argymhellir fod gwerth £925,600 yn cael eu dileu gan nad ydynt bellach yn gyraeddadwy.

4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod gwerth £242k – sef 45% o'r £533k perthnasol i flwyddyn ariannol 2026/27 – eisoes wedi gwireddu, gyda £91k pellach ar drac i wireddu'n amserol. Golyga hyn fod bron i £49 miliwn, sef 98% o'r holl gynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi cael eu gwireddu, sydd yn gyfanswm o £72.5 miliwn o arbedion ers 2010/11.

5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.3 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf os na fydd newid yn ystod y flwyddyn y bydd diffyg cyllidebol o £2.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd pwysau cynyddol ar ofal preswyl a nyrsio a hefyd ar ofal cartref. Mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yn y gwasanaethau darparu. Yn dilyn adolygiad o arbedion yr adran, bu i werth £536k o arbedion problemus nad oedd yn gwireddu gael eu dileu, tra bod nifer o gynlluniau arbedion eraill wedi cael eu gwireddu yn ddiweddar gan yr adran.

Mae'r cynnydd yn y galw yn parhau i ddilyn yr hyn a ragwelwyd ac a ragrybuddiwyd yn Llechen Lân ac yn debygol o barhau am flynyddoedd i ddod.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Gwelwyd cynnydd pellach yn nifer yr unigolion sydd angen gofal arbenigol tu mewn a thu allan i'r sir a'r gofal hwnnw yn gostus, sydd yn bwysau o £5.7 miliwn uwchlaw'r gyllideb. Ymhellach i hyn gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth am ofal i blant ag anableddau yn y sir drwy wasanaethau Derwen a Hafan y Sêr a hefyd gan y gwasanaeth Ôl-16. Rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol o oddeutu £6.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd newid yn yr hyn a ddarperir yn ystod y flwyddyn.

5.3 Adran Addysg

Pwysau yn y maes cludiant ysgolion ar yr elfen anghenion dysgu ychwanegol, ond ei effaith yn cael ei leihau gan danwariant gan gynnwys derbyniad grant mewn meysydd eraill. Mae'r Adran yn bwriadu mantoli sefyllfa ariannol yr adran erbyn diwedd y flwyddyn drwy wneud defnydd o arian o gronfa wrth gefn adrannol.

5.4 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu er mwyn galluogi cynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ychwanegol yma wedi lleihau dros y blynyddoedd gyda'r swm yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24, £281k yn 2024/25 a £269k yn 2025/26. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2026/27 ond fod y swm gofynnol wedi lleihau i £115k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r symudiad yma i'r cyfeiriad cywir i'w groesawu.

5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Rhagwelir diffyg cyllidebol o £329k gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn y Gwasanaeth Bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

5.6 Adran Amgylchedd

Rhagwelir diffyg cyllidebol o oddeutu £467K erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn cynnwys diffyg incwm parcio tra bod tueddiad blynyddol o wariant uwchlaw'r gyllideb yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £1 miliwn o'r pwysau ariannol adrannol. Mae sawl cynllun ar y gweill gan yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol, ond er mwyn gwneud y cam olaf dros y flwyddyn nesaf bydd angen cwblhau ail strwythuro'r Gwasanaeth gwastraff a'r newidiadau gweithredol pellach. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu gwerth £760k yn cyfrannu at sefyllfa ariannol yr adran a bydd angen penderfyniadau amserol os am allu cyflawni rhai o'r rhain a lleihau'r baich ariannol ar yr adran.

Bwriad yr adran yw gwneud defnydd o incwm newydd i gyfarch unrhyw ddiffyg yng nghyllideb gwastraff eleni, gyda'r arian yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu gan y cwmnïau sy'n creu'r gwastraff hwn.

5.7 Adran Tai ac Eiddo

Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn tanwario (£49k) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn blynyddoedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng, bu i'r holl ymyraethau bwriadol gan y gwasanaeth olygu fod lleihad mewn gwariant ar y maes, lawr i £5.4 miliwn eleni o'i gymharu â £6.1 miliwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod dyraniad ychwanegol un tro gwerth £800k wedi ei glustnodi ar gyfer llety argyfwng yn

2026/27, ni ragwelir y bydd galw ar y ddarpariaeth bellach ac felly mae modd dychwelyd yr arian yn gorfforaethol.

Premiwm treth cyngor sydd yn cyllido £4.2m o gyllideb llety argyfwng yn 2026/27.

5.8 Corfforaethol

Awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth cyngor £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni. Bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu nifer arwyddocaol o eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig yn ystod y flwyddyn, gyda 361 eiddo wedi trosglwyddo hyd at ddiwedd Awst (283 yn 2025/26). Gwelwyd hefyd leihad o 246 yn nifer yr ail gartrefi'r premiwm hyd at ddiwedd Awst (74 yn 2025/26). Bu lleihad hefyd o 185 yn nifer o eiddo i drosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor (618 yn 2025/26). Mae'r golled yn cael ei ddwysau ymhellach yn 2025/26 gan fod ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio rhai blynyddoedd, felly effaith nifer o flynyddoedd yn mynd yn erbyn sefyllfa ariannol eleni. Yn wyneb y lleihad yn y cynnyrch treth diweddar, bydd effaith hyn yn derbyn ystyriaeth buan yng nghyd-destun ariannu yr ymrwymiadau allan o'r premiwm treth cyngor.

Yn groes i'r darlun yma, mae rhagolygon gwell ar benawdau eraill Corfforaethol gan gynnwys derbyniad incwm a grantiau uwch, effaith ffafriol ad-dalu benthyciad hanesyddol, dychwelyd arian bidiau nad oes defnydd llawn iddynt eleni, lleihad mewn costau cyfalaf cyffredinol ynghyd â llai o bwysau ar nifer o gyllidebau amrywiol. O ystyried Corfforaethol yn ei gyfanrwydd, rhagwelir pwysau o £408k uwchlaw'r gyllideb.

Rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol.

6. Casgliad

6.1 Yn dilyn adolygiad ar ddiwedd Awst, rhagwelir sefyllfa o ddiffyg cyllideb o £9.8 miliwn, er mwyn gallu parhau i gyfarfod y galw ar wasanaethau am weddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ddiffyg cyllidebol o £9.4 miliwn gan yr adrannau a £0.4 miliwn pellach ar gyllidebau corfforaethol.

Mae 69% sef £6.5 miliwn ohono yn deillio o'r galw cynyddol ar wasanaethau plant, yn bennaf ar leoliadau all-sirol.

Rhagwelir y bydd pedair o adrannau'r Cyngor yn gwario'n sylweddol uwchlaw'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, gyda chynnydd yn y galw i'w weld mewn nifer o feysydd eraill gan gynnwys yn y maes gofal oedolion a chludiant yn y maes anghenion dysgu ychwanegol ysgolion.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi cynnal cyfarfod brys efo pob pennaeth adran perthnasol i gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn yr adrannau a rhaglen glir i ymateb gan gynnwys parhau i wthio i gyflawni arbedion.

O ystyried y rhagolygon gorwariant diweddaraf, argymhellir ei bod yn briodol fod camau i rewi gwariant anorfod yn cael ei weithredu am weddill y flwyddyn ariannol. Serch hynny, rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol sydd bron yn anorfod. Bydd angen i'r Cabinet wneud penderfyniad bryd hynny pa gronfeydd fydd yn briodol i'w defnyddio, ar sail argymhellion y Swyddog Cyllid Statudol. Eleni bydd rhaid talu sylw penodol i'r effaith sylweddol gaiff y trosglwyddiadau tai o eiddo sy'n talu treth a phremiwm i eiddo sy'n destun trethi annomestig.

7. Camau nesaf ac amserlen

7.1 Cyflwynir adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd i'r Cabinet yn Ionawr 2027.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

8.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Cyllideb Refeniw 2026/27 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2026/27 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27 £'000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2026/27 £'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	**91,344**	**2,273**	**0**	**2,273**
Plant a Theuluoedd	**28,239**	**6,499**	**0**	**6,499**
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	**3,067**	**(101)**	**0**	**(101)**
Addysg	**130,326**	**0**	**0**	**0**
Economi a Chymuned	**6,635**	**170**	**(115)**	**55**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**19,554**	**329**	**0**	**329**
Amgylchedd	**19,297**	**1,473**	**(1,006)**	**467**
Tai ac Eiddo	**15,440**	**(49)**	**0**	**(49)**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	**2,742**	**11**	**0**	**11**
Gwasanaethau Corfforaethol	**13,593**	**(70)**	**0**	**(70)**
Cyllid	**5,489**	**(17)**	**0**	**(17)**
Cyllidebau Corfforaethol *(Gwahaniaethau yn unig)*	*****	**408**	**0**	**408**
Cyfansymiau (net)	**341,215**	**10,926**	**(1,121)**	**9,805**

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion						
Rheolaeth	649	542	(107)		(107)	(117)
Anabledd Dysgu	33,778	33,740	(38)		(38)	(414)
Iechyd Meddwl	7,495	7,380	(115)		(115)	558
Pobl Hŷn gan gynnwys Anabledd Corff						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	27,065	28,862	1,797		1,797	455
Gofal Cartref	13,434	13,692	258		258	(21)
Taliadau Uniongyrchol	3,371	3,018	(353)		(353)	(334)
Eraill	3,846	3,939	93		93	224
	47,716	49,511	1,795	0	1,795	324
Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	**89,638**	**91,173**	**1,535**	**0**	**1,535**	**351**
Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)						
Gofal Preswyl	515	1,068	553		553	821
Gofal Cartref	1,191	1,395	204		204	211
Eraill	0	(19)	(19)		(19)	(2)
Cyfanswm Gwasanaethau Darparu	**1,706**	**2,444**	**738**	**0**	**738**	**1,030**
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26					0	(1,281)
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant	**91,344**	**93,617**	**2,273**	**0**	**2,273**	**100**

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.3 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf os na fydd newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn y bydd diffyg cyllidebol o £2.27 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - tanwariant ar gostau staff ynghyd â derbyniad grant.

Anabledd Dysgu - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £1.4 miliwn yn 2026/27. Adroddir ar danwariant o (£38k), sydd yn cynnwys sefyllfa gymysg o fewn y gwasanaethau gyda chynnydd yn y pwysau ar yr elfen cartrefi nyrsio, gwasanaethau dydd a chynlluniau cefnogol ond lleihad yn y pwysau ar daliadau uniongyrchol. Mae'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - dyrannwyd £1.2 miliwn o arian ychwanegol i'r maes yn 2026/27. Gwelwyd llai o bwysau ar daliadau uniongyrchol wrth i achos cymhleth ddod i ben yn gynharach yn y flwyddyn ac ni welwyd cynnydd mewn niferoedd preswyl a nyrsio hyd yn hyn eleni, sydd yn golygu fod tanwariant o (£115k) yn cael ei ragweld.

Pobl Hŷn - galw cynyddol ar y ddarpariaeth Preswyl a Nyrsio ac felly rhagolygon o ddiffyg cyllidebol o £1.8 miliwn, gyda chynnydd yn nifer yr achosion yn ystod y flwyddyn.

Rhagwelir £258k o ddiffyg cyllidebol ar ofal cartref, gyda chynnydd mewn gwariant am ofal cartref preifat i'w weld yn ardaloedd Porthmadog a Thywyn. O ran taliadau uniongyrchol, niferoedd yr achosion yn amrywio rhwng ardaloedd ond y gwaith o sicrhau effeithlonrwydd y taliadau yn cynorthwyo'r darlun.Yn 'Eraill', achos cymhleth yn llety cefnogol wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn.

Gwasanaethau Darparu - costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yng ngofal preswyl ac yng ngofal cartref, gyda defnydd o staff asiantaeth i'w weld yng ngofal preswyl.

Arbedion - yn dilyn adolygiad o'r arbedion, bu i werth £536k o arbedion problemus nad oedd yn gwireddu gael eu dileu, tra bod nifer o gynlluniau arbedion eraill wedi cael eu gwireddu yn ddiweddar gan yr adran.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	812	794	(18)		(18)	0
Gweithredol	3,356	3,500	144		144	478
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	6,916	12,605	5,689		5,689	2,011
Cartrefi Grwpiau Bychan	312	480	168		168	80
Maethu Drwy Asiant	2,014	1,996	(18)		(18)	(138)
Maethu Mewnol	3,215	3,271	56		56	95
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,390	2,409	19		19	241
	14,847	20,761	5,914	0	5,914	2,289
Ôl-16	1,895	2,267	372		372	437
Gwasanaeth Derwen	3,969	4,239	270		270	443
Cyfiawnder Ieuenctid	283	281	(2)		(2)	(11)
Blynyddoedd Cynnar	150	20	(130)		(130)	(186)
Uned Datblygu'r Gweithlu	245	245	0		0	0
Eraill	2,682	2,631	(51)		(51)	(54)
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26	0	0	0		0	(3,296)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	**28,239**	**34,738**	**6,499**	**0**	**6,499**	**100**

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £791k o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd diffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro ond sydd yn cael ei wrthbwyso gan ddefnydd o grantiau tuag at sefydlu system gwybodaeth.

Gweithredol - dyrannwyd £212k o arian ychwanegol ar gyfer cynlluniau cefnogol yn 2026/27 ond y pwysau yn parhau, staffio uwchlaw'r gyllideb i'w weld ar weithwyr maes.

Lleoliadau - gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 41 (37 yn 2025/26, 34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gyda chost gyfartalog y lleoliadau bellach wedi cynyddu i £317k. Mae 8 achos eithriadol, sydd yn costio £720k y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae un achos parhaol newydd wedi cychwyn ers dechrau'r flwyddyn ariannol.

Yn Maethu Mewnol nid yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth yn ddigonol o ystyried y costau.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gyda dau gartref bellach yn weithredol a'r trydydd tŷ yn dod yn weithredol yn ystod 2026/27. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni, ond rhagwelir y bydd y costau cyflogi uwchlaw'r ariannu sydd ar gael.

ÔI-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn i ddau achos eithriadol gael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth all-sirol. Pwysau hefyd ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gwariant uwchlaw'r gyllideb.

Derwen - pwysau uwchlaw'r gyllideb ar yr elfen gweithwyr yn yr Uned Egwyl Fer, bu modd defnyddio grantiau tuag at y costau mewn blynyddoedd blaenorol ond nid yw'r ffynhonnell ariannu ar gael eleni.

Blynyddoedd Cynnar - grantiau ar gael i gyllido gwariant craidd yn arwain at ragolygon tanwariant.

Eraill - trosiant staff a swyddi gwag yn y tim trothwy gofal ac ar yr ochr weinyddol, ond costau cyfreithiol uwchlaw'r gyllideb yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,271	1,145	(126)		(126)	(22)
Incwm a Chyllid	1,497	1,471	(26)		(26)	(57)
Gwasanaethau Ataliol	299	350	51		51	(20)
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	**3,067**	**2,966**	**(101)**	**0**	**(101)**	**(99)**

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - derbyniad grant tuag at amser nifer o staff sydd ynghlwm â'r gwaith sylweddol i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd llai o bwysau ar gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau sydd hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

Incwm a Chyllid - cyfuniad o danwariant ar gostau staff mewn paratoad ar gyfer ail-strwythuro, ynghyd â derbyniad grant tuag at amser staff sydd ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg. Mae'r tanwariant yn cael ei leihau gan gynlluniau arbedion nad ydynt yn gwireddu.

Gwasanaeth Ataliol - buddsoddiad ychwanegol mewn offer ataliol ond yr effaith ariannol yn cael ei leihau gan dderbyniad ffioedd incwm uwch am y gwasanaeth.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,453	2,109	(344)		(344)	53
Ysgolion Datganoledig	108,440	108,440	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,128)	(2,318)	(190)		(190)	(55)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,436	8,992	556		556	0
Gwasanaeth Atodol	1,512	1,575	63		63	(253)
Eraill	4,322	4,313	(9)		(9)	109
	14,270	14,880	610	0	610	(144)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	6,102	6,093	(9)		(9)	122
Gwasanaeth Ieuenctid	1,114	1,122	8		8	0
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	75	0	(75)		(75)	0
Cyfanswm Addysg	**130,326**	**130,326**	**0**	**0**	**0**	**(24)**

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion i'w gyllido o gyllideb wrth gefn ynghyd â llai o gyfraniad i gronfa na'r hyn sydd wedi ei gyllidebu ar ei gyfer.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o ddenu grantiau yn y maes Blynyddoedd Cynnar a'r Gymraeg, llwyddiant i ddenu incwm gan y Ganolfan Fusnes a gwariant o fewn y gyllideb.

Cludiant - yn dilyn pwysau ariannol sylweddol ar gludiant dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion, derbyniwyd £939k hefyd ar sail un tro yn 2025/26, felly gan nad yw'r arian ar gael yn 2026/27 rhagwelir pwysau ar y maes ac yn benodol yn y maes anghenion dysgu ychwanegol, gydag amcan gwariant uwchlaw'r gyllideb yn £556k erbyn diwedd y flwyddyn.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - salwch yn y maes glanhau a gofalu ac arlwyaeth yn parhau, tra bod lleihad yn y pwysau ariannol ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn dilyn derbyniad bid ar gyfer 2026/27.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - sefyllfa gymysg ar yr amrywiol benawdau gan gynnwys costau un tro sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - bu i'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynwysiad ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn ddod i ben ar ddiwedd Awst 2026, felly'r gwasanaeth mewn cyfnod trosiannol yn ystod 2026/27. Mae costau un tro yn cael eu hariannu o fewn y sefyllfa ariannol y flwyddyn.

Er mwyn diddymu'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £75k o gronfa adrannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Economi a Chymuned	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	410	415	5		5	(11)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	666	658	(8)		(8)	(3)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(170)	(143)	27		27	101
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	2,530	2,657	127	(115)	12	34
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(79)	(79)	0		0	(4)
Marchnata a Digwyddiadau	270	270	0		0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,888	1,814	(74)		(74)	(29)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,120	1,213	93		93	9
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	0	0	0		0	(49)
Defnydd o Gronfa Arall yr Adran	0	0	0		0	(48)
Cyfanswm Economi a Chymuned	**6,635**	**6,805**	**170**	**(115)**	**55**	**0**

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - Yn Morwrol, rhagolygon o wariant uwchlaw'r gyllideb o £71k yn Noc Fictoria, Caernarfon, tra bod diffyg incwm net o £37k gan y Traethau, ond rhagolygon incwm mwy addawol ar gyfer Hafan, Pwllheli (£54k) a Harbyrau o (£26k). Sefyllfa gytbwys yn y parciau gwledig gan fod bwriad i ddefnyddio unrhyw danwariant ar y maes i gyllido cynlluniau cyfalaf a ariennir yn bennaf gan grant.

Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol ychwanegol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24, £281k yn 2024/25 a £269k yn 2025/26, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £115k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £12k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - tanwariant ar staff ynghyd ag effaith ariannol cau dwy lyfrgell am ran o'r flwyddyn tra bydd gwaith adnewyddu sylweddol yn digwydd yn Llyfrgell Caernarfon a Thywyn.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau trydan a diffyg incwm yn gyfrifol am orwariant o £52k yn Neuadd Dwyfor tra bod costau staff uwchlaw'r gyllideb ynghyd â diffyg incwm yn faterion yn Storiel £36k ac yn Amgueddfa Lloyd George £13k.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn os yw'r gorwariant yn parhau, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu cymorth gwerth £115k.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	12,595	12,750	155		155	318
Peirianneg	423	441	18		18	(76)
Bwrdeistrefol	6,480	6,631	151		151	180
Ymgynghoriaeth Gwynedd	56	61	5		5	(15)
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26	0	0	0		0	(307)
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**19,554**	**19,883**	**329**	**0**	**329**	**100**

Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - rhagolygon o leihad yn yr incwm ar gytundeb gan asiantaeth allanol tra bod tanwariant yn cael ei ragweld yn y maes goleuo a rheolaeth ffyrdd sirol.

Gwasanaethau Peirianneg - arbedion i'w darganfod yn y maes carthffosiaeth a phibelli dŵr a mân orwariant ar nifer o benawdau ar Bont yr Aber, Caernarfon.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ar gostau nwyddau glanhau ac ar staff glanhau toiledau cyhoeddus, a methiant i wireddu arbedion gwerth £117k yn nhiroedd agored. Mae colledion incwm hefyd yn parhau i fod yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Tanwariant ar gyflogau yng ngorfodaeth stryd, glanhau strydoedd a thimau taclus sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - rhagolygon o ragori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg tra bod diffyg yn yr incwm yn cael ei ragweld yn y Gwasanaeth Adeiladu.

Arbedion - rhagwelir na fydd arbedion adrannol gwerth £117k yn cael eu gwireddu ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	854	953	99		99	172
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	762	772	10		10	(225)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	308	(73)	(381)		(381)	(445)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,745)	(2,243)	502		502	474
Cludiant Integredig	2,250	2,517	267		267	250
	(187)	201	388	0	388	279
Marchnadoedd	8	14	6		6	5
Cefn Gwlad a Mynediad	887	891	4		4	18
Gwarchod y Cyhoedd	2,020	1,980	(40)		(40)	(127)
Gwastraff	14,953	15,959	1,006		1,006	1,256
Cyfanswm Amgylchedd	**19,297**	**20,770**	**1,473**	**0**	**1,473**	**1,378**
Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer						**(786)**
Defnydd o Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu				**(1,006)**	**(1,006)**	**(470)**
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26						**(22)**
Cyfanswm	**19,297**	**20,770**	**1,473**	**(1,006)**	**467**	**100**

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £100k o gynlluniau arbedion ynghyd â gwariant uwchlaw'r gyllideb ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - darlun cymysg gan gynnwys diffyg incwm yn parhau i fod yn faterion yn Rheolaeth Datblygu, Rheolaeth Adeiladu a Phridiannau Tir ond fod trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant pellach ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, roedd disgwyliad fod incwm parcio am wella ond rhagwelir diffyg incwm o £529k o'i gymharu â £464k yn 2025/26. Mae swyddi gwag a thanwariant ar gyllideb gweithiau yn cynorthwyo i wella'r sefyllfa a adroddir.

Cludiant Integredig - gwelwyd cynnydd mewn costau contractau dros y blynyddoedd ac nid yw'r grantiau a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau cysylltiedig â chontractau cludiant. Tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Rhagolygon fod incwm safonau masnach a diogelwch bwyd yn rhagori'r targed ond y bydd diffyg ar incwm trwyddedau tacsis.

Gwastraff - mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gwariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelir o £1.006 miliwn, gan gynnwys diffyg incwm o £374k ar gasglu gwastraff masnachol tra bod gwariant uwchlaw'r gyllideb o £445k ar nifer o benawdau'r gyllideb gan y gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu. Rhagwelir y bydd gwariant uwchlaw'r gyllideb o £217k ar safle trin Caergylchu, Caernarfon.

Bu llithriad ar y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses. Mae'r camau cyntaf eisoes wedi eu gweithredu gyda'r camau nesaf i ddilyn ac o ganlyniad mae llithriad ar y cynlluniau arbedion cysylltiedig, ac felly ni ragwelir y bydd gwerth £660k o gynlluniau arbedion gwastraff yn gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Mae £1.006 miliwn i'w ddefnyddio yn 2026/27 i gyfarch y diffyg gan y gwasanaeth gwastraff gyda'r gweddill yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y maes gwastraff.

Arbedion - mae gwerth £760k o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu ac felly maent yn cyfrannu at y sefyllfa o wariant uwchlaw'r gyllideb.

Argymhellir fod y gwariant uwchlaw'r gyllideb o £1.006 miliwn a ragwelir gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	735	716	(19)		(19)	(216)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,008	5,958	(50)		(50)	280
Tai Sector Breifat	486	507	21		21	17
Eraill	657	675	18		18	(124)
	7,151	7,140	(11)	0	(11)	173
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	7,565	7,540	(25)		(25)	22
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(11)	(5)	6		6	1
	7,554	7,535	(19)	0	(19)	23
Cyfanswm Tai ac Eiddo	**15,440**	**15,391**	**(49)**	**0**	**(49)**	**(20)**

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar gostau staff ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

Digartrefedd - yn dilyn blynyddoedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng, yn dilyn yr holl ymyraethau bwriadol gan y gwasanaeth, rhagwelir lleihad mewn gwariant ar y maes lawr i £5.4 miliwn eleni o'i gymharu â £6.1 miliwn yn 2025/26 a 2024/25, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu tanwariant o (£149k).

Mae cyllideb barhaol gwerth £4.1 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng. Er y bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad ychwanegol un tro o £800k ar gyfer y pwysau ychwanegol oedd yn cael ei ragweld ar lety argyfwng yn 2026/27, ni ragwelir erbyn hyn y bydd galw ar y ddarpariaeth yma yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyllid felly yn cael ei ddychwelyd yn gorfforaethol.

Tai Sector Breifat - rhagwelir y bydd diffyg ar ffioedd incwm tai gyda nifer o breswylwyr, ond fod yr effaith ariannol yn cael ei leihau gan fod yna drosiant staff yn y maes Gorfodaeth.

Gwasanaethau Tai, Eraill - costau un tro gan y siop un stop yn arwain at ragolygon o wariant uwchlaw'r gyllideb.

Gwasanaethau Eiddo - trosiant staff ond ei effaith yn cael ei leihau gan bwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau.

Gofalu, Arlwyo a Glanhau - costau ychwanegol ar gostau glanhawyr ac ar nwyddau glanhau ond rhagori ar incwm yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adrannau Canolog	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,742	2,753	11		11	(39)
Cyllid	5,489	5,472	(17)		(17)	(38)
Gwasanaethau Corfforaethol	13,593	13,523	(70)		(70)	(20)
Cyfanswm Adrannau Canolog	**21,824**	**21,748**	**(76)**	**0**	**(76)**	**(97)**

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - rhagolygon o gostau gwasanaeth y Crwner £19k uwchlaw'r gyllideb, ond tanwariant cyffredinol a swydd wedi bod yn wag am ran o'r flwyddyn yn y Tim Rheoli Corfforaethol yn golygu fod y pwysau ariannol a adroddir yn cael ei leihau.

Cyllid - cyfuniad o drosiant staff a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol yn cynorthwyo'r adran i ymdopi gyda chynnydd prisiau meddalwedd uwchlaw lefelau chwyddiant ynghyd â chostau ychwanegol systemau ariannol yr adran.

Gwasanaethau Corfforaethol - swyddi gwag a throsiant staff mewn nifer o feysydd gan gynnwys yn Nhechnoleg Gwybodaeth, a rhagwelir y bydd Cyfieithu a'r Gwasanaeth Democrataidd yn rhagori ar incwm tra bod lleihad mewn incwm gan y gwasanaeth Cofrestru a'r Argraffdy.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor a Phremiwm Treth Cyngor	*	*	5,277		5,277	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(198)		(198)	0
Costau Cyfalaf	*	*	(289)		(289)	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	(398)		(398)	0
Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau	*	*	(858)		(858)	0
Eraill	*	*	(3,126)		(3,126)	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	**408**	**0**	**408**	**0**

Corfforaethol

Treth Cyngor a Phremiwm Treth Cyngor - awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth, £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni a hynny o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys:
- bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu nifer arwyddocaol o eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig hyd at ddiwedd Awst 2026, sef 361 eiddo, sydd 35% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y llynedd (283 yn 2025/26, 189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24).
- bu lleihad o 246 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm hyd at ddiwedd Awst 2026,(lleihad o 74 yn 2025/26, cynnydd o 387 2024/25).
- bu lleihad yn y nifer o eiddo sydd yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, sef 185 o eiddo hyd at ddiwedd Awst 2026 (618 yn 2025/26, 692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24).

Mae'r golled wedi ei ddwysau gan fod y ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio rhai blynyddoedd, felly effaith nifer o flynyddoedd yn mynd yn erbyn sefyllfa ariannol eleni.

Yn 2026/27 mae £14.5 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo, £8.1 miliwn ohono ar gyfer y Strategaeth Dai, £4.7 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd ynghyd â £1.7 miliwn o ymrwymiadau eraill.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ond rhagwelir y bydd o fewn sefyllfa'r gyllideb.

Costau Cyfalaf - lleihad mewn costau cyfalaf gan na fu raid benthyca yn allanol ac felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

Darpariaeth Arbedion - mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei sefydlu yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd. Yn dilyn adolygiad diweddar bu i werth £926k o arbedion problemus gael eu dileu, sef £536k yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, £190k ym Mhriffyrdd, Peirianneg YGC a £200k yn yr Adran Amgylchedd.

Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau - bu i fidiau nad oes defnydd blwyddyn lawn iddynt eleni, gael eu dychwelyd gan yr adrannau gan gynnwys £800k o'r maes llety argyfwng.

Eraill - cyfuniad o resymau gan gynnwys effaith ffafriol ad-dalu benthyciad hanesyddol, rhagori ar incwm a derbyniad grant, gan gynnwys yr elfen ychwanegol o chwyddiant athrawon o Fedi 2026 ymlaen gan y disgwylir y bydd yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth. Ymhellach i hyn, ni ragwelir y bydd y galw ar y ddarpariaeth mor uchel â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**26 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**RHEOLAETH TRYSORLYS 2026/27 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**
PWRPAS:	**Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.**
ARGYMHELLIAD:	**DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**
AWDUR:	**DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad rheolaeth trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn sef canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021, i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiadau chwarterol arferol y Cyngor.

Cymeradwywyd strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor am 2026/27 gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

2. CYD-DESTUN ALLANOL

Y cefndir economaidd: Y stori allweddol oedd y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a'i effaith ar brisiau ynni byd-eang a chwyddiant, tra ar ochr gwleidyddiaeth y DU, daeth Andy Burham yn Brif Weinidog newydd. Er bod prisiau ynni wedi dangos arwyddion o gymedroli tua diwedd (calendr) Ch2, gwthiodd y gwrthdaro parhaus brisiau olew a nwy i fyny yn sydyn unwaith eto yn Ch3. Tua chanol mis Medi, roedd prisiau olew Brent a nwy y DU dros 30% a 70% yn uwch yn y drefn honno o'i gymharu â'r cyfnod cyn Adroddiad Polisi Ariannol Gorffennaf (MPR) Banc Lloegr (BoE).

O ystyried effaith chwyddiant y sioc ynni flaenorol o'r rhyfel Rwsia/Wcráin, roedd llunwyr polisi banc canolog yn parhau i fod yn effro i brisiau ynni uwch sy'n bwydo i ymddygiad ehangach o brisiau a gosod cyflogau ('effeithiau ail rownd'). Yn y DU, roedd prisiau tanwydd ac ynni uwch yn amlwg mewn chwyddiant pennawd, ond roedd tystiolaeth gyfyngedig o effeithiau ail rownd materol. Ar yr un pryd, parhaodd pwysau cyflog sylfaenol i gymedroli, ac roedd y farchnad lafur yn parhau i fod yn gymharol rhydd.

Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol y BoE (MPC) y Gyfradd Banc ar 3.75% trwy gydol y cyfnod. Ym mis Ebrill pleidleisiodd yr MPC o 8-1 i adael cyfraddau heb newid, gydag un aelod eisiau cynnydd o 0.25%. Symudodd y bleidlais i 7-2 ym mis Mehefin a 6-3 ym mis Gorffennaf a Medi, gyda'r holl anghytuno yn ffafrio cynyddu Cyfradd Banc i 4.00%. Mae'r newid mewn patrymau pleidleisio yn adlewyrchu pryder cynyddol y llunwyr polisi am barhad y sioc ynni a'r risg y gallai chwyddiant pennawd uwch gael ei ymgorffori mewn prisiau a chyflogau domestig.

Yng nghyfarfod MPC mis Medi, barnodd y Pwyllgor fod y risgiau chwyddiant ymhellach i fyny o'i gymharu â'i MPR ym mis Gorffennaf. Roedd prisiau ynni wedi codi eto ac roedd costau benthyca yn sylweddol uwch nag cyn y gwrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran. Er gwaethaf disgwyl y byddai chwyddiant yn codi ymhellach yn y tymor byr, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn credu y byddai marchnad lafur meddal, capasiti sbâr ac amodau ariannol cyfyngol yn lleihau chwyddiant dros amser. Ar ben hynny, dangosodd y data nad oedd llawer o dystiolaeth o effeithiau ail rownd sylweddol o hyd, er bod yr MPC yn pwysleisio y byddai'r risg o'r effeithiau hyn yn cynyddu y byddai prisiau ynni uchel ac anwadal yn parhau.

Gostyngodd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) y DU i ddechrau, gan awgrymu nad oedd y sioc ynni cychwynnol yn lledaenu i ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y cyfnod cododd chwyddiant eto, gyda CPI yn codi o 2.6% ym mis Mehefin i 3.1% ym mis Awst yn bennaf oherwydd costau trafnidiaeth uwch. CPI craidd oedd 2.6% ym mis Gorffennaf ac Awst, sy'n awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng hynny a chwyddiant pennawd oherwydd ynni yn hytrach na chynnydd eang mewn chwyddiant sylfaenol.

Roedd gweithgarwch economaidd y DU ychydig yn gryfach na'r disgwyl i ddechrau dros y cyfnod. Ehangodd CMC 0.6% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a 0.5% yn yr ail chwarter, ychydig yn gryfach na'r amcangyfrif cychwynnol o 0.4%. Roedd gweithgaredd misol yn fwy cyfnewidiol, gyda chrebachu o -0.1% ym mis Ebrill, ac yna enillion o 0%, 0.3% a 0.4% ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf yn y drefn honno.

Parhaodd data'r farchnad lafur i ddangos bod amodau cyflogaeth yn meddalu. Gostyngodd y gyfradd ddiweithdra i 4.9% ym mis Ebrill ac arhosodd ar y lefel honno hyd at fis Gorffennaf, yn erbyn disgwyliadau y byddai'n ticio i fyny. Parhaodd swyddi gwag hefyd i ostwng, i 702,000 yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf. Twf enillion cymedroli, gydag enillion rheolaidd ar 3.5% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf a chyfanswm enillion ar 3.9%, sy'n awgrymu bod y galw am lafur gwannach yn parhau i atal pwysau cyflog domestig.

Mae Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, yn disgwyl y bydd Cyfradd y Banc yn aros ar 3.75%. Fodd bynnag, mae prisiau ynni uwch oherwydd y gwrthdaro parhaus a'r ansicrwydd ynghylch Cyllideb sydd ar ddod y llywodraeth wedi cynyddu'r risgiau i fyny yn y tymor byr. Ar ben hynny, mae rhagamcanion chwyddiant cryfach, a oedd yn cyd-fynd â phenderfyniad MPC mis Medi, wedi symud disgwyliadau'r farchnad ar gyfer Cyfradd Banc yn uwch. Yn ogystal, er gwaethaf ychydig o dystiolaeth o effeithiau ail rownd hyd yma, mae tôn newidiol cofnodion MPC

yn awgrymu efallai na fydd angen rhywbeth seismig i roi'r Pwyllgor i gynyddu Cyfradd y Banc.

Cynhaliodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau ystod targed Fed Funds ar 3.50% - 3.75% hyd at fis Gorffennaf. Fodd bynnag, cododd pwysau chwyddiant yn ystod yr haf, gan wthio CPI pennawd i 3.4% ym mis Awst, gyda phrisiau petrol uwch yn cyfrif am lawer o'r cynnydd. Arweiniodd hyn i'r Fed godi ei ystod darged i 3.75% -4.00% ym mis Medi. Roedd y symudiad yn adlewyrchu pryder cynyddol am chwyddiant ar adeg pan oedd gweithgaredd economaidd yr Unol Daleithiau ac amodau'r farchnad lafur yn gymharol wydn.

Ar ôl cynnydd o 0.25% ym mis Mehefin, cododd Banc Canolog Ewrop ei dair cyfradd bolisi allweddol o 0.25% arall ym mis Medi, gan fynd â'r gyfradd cyfleuster blaendal i 2.50%. Cynyddodd chwyddiant o 2.9% ym mis Gorffennaf i 3.2% ym mis Awst, ac awgrymodd amcangyfrif cychwynnol gynnydd pellach i 3.8% ym mis Medi, gyda phrisiau ynni yn brif yrrwr. Pwysleisiodd yr ECB yr ansicrwydd ynghylch hyd y sioc ynni a'r risg y gallai chwyddiant uwch fwydo i mewn i osod prisiau ehangach.

Marchnadoedd ariannol: Ar ôl y dirywiad sydyn yn gynnar yn y cyfnod, gwelodd teimlad y farchnad ariannol rhywfaint gan fod gobeithion parhaus y byddai rhyfel yr Unol Daleithiau / Iran yn cael ei ddatrys. Fodd bynnag, tua diwedd y cyfnod, roedd arwyddion o unrhyw ddatrysiad posibl yn ymddangos yn gynamserol a chododd prisiau olew ochr yn ochr â chwyddiant a chynnyrch bondiau tra bod anwadalrwydd y farchnad ecwiti wedi cynyddu wrth i fuddsoddwyr bwyso pryderon sy'n gysylltiedig â gwrthdaro yn ogystal ag AI.

Cynyddodd cynnyrch bondiau yn yr Unol Daleithiau a'r DU yn sylweddol dros y cyfnod, gyda'r bwlch rhwng gilts a Thrysorlys yr Unol Daleithiau yn tynhau tua diwedd y cyfnod. Er bod premiymau tymor yn dal i fod wedi'u hymgorffori mewn cynnyrch gilt o ystyried y rhagolygon cyllidol cymharol ansicr, mae Fed mwy hawkish ochr yn ochr â chwyddiant parhaus yr UD a phryderon cyllidol wedi gwthio'r cynnyrch ar Drysorlys yr Unol Daleithiau i'w lefelau uchaf ers blynyddoedd.

Gwnaed rhai cyhoeddiadau cymharol gyfeillgar i'r farchnad gan Andy Burham yn ei araith yng nghynhadledd y Blaid Lafur, ond gobeithio y bydd y Gyllideb ddiwedd mis Hydref yn rhoi rhywfaint o eglurder ar sut y gallai sefyllfa ariannol y DU edrych yn y dyfodol.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.86% a gorffennodd ar uchafswm o 5.43%. Mae'r cynnyrch gilt 20 mlynedd yn dechrau ar 5.45% ac yn gorffen ar 5.93%, uchel arall ar gyfer y cyfnod. Roedd y Gyfradd Sterling Overnight (SONIA) ar gyfartaledd 3.73% dros y cyfnod hyd at 30 Medi.

Adolygiad credyd: Arlingclose kept its recommended maximum unsecured duration limit recommended on the majority of the banks on its counterparty list at 6 months. The other banks remain on 100 days.

Yn ystod y cyfnod, uwchraddiodd Fitch nifer o fanciau oherwydd newid methodoleg ardrethu, yn ogystal â'r rhwymedigaethau cyfeirio a ddefnyddir ar gyfer Graddfeydd

Diffyg Cyhoeddwr a chyflwynodd notching mwy gwahaniaethol rhwng adneuon, sgôr dyled uwch a ffefrir, uwch heb eu gwarantu ac uwch sgôr dyled heb eu ffafrio.
Yn ddiweddarach yn y cyfnod, newidiodd Moody's y rhagolygon ar HSBC i Gadarnhaol o Sefydlog, tra hefyd yn cadarnhau ei sgôr blaendal tymor hir. Mae hyn yn dilyn camau tebyg gan S&P ar ragolygon HSBC ychydig fisoedd cyn hyn.

Ar ôl cynnydd ym mis Ebrill yn dilyn cynnydd yn rhyfel Iran, gostyngodd prisiau cyfnewid diffyg credyd ar fanciau'r DU yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod ond dechreuodd godi eto ym mis Medi. Fe wnaethant orffen y cyfnod ymhell yn is na'r lefelau a allai fod yn achos pryder ond sy'n parhau i fod o dan fonitro cyson.

Mae prisiau CDS banciau Ewropeaidd yn dilyn patrwm tebyg i'r DU, tra bod prisiau CDS banciau Canada wedi codi yn gynnar yn y cyfnod ac yna aros ar lefelau tebyg, tra bod banciau Awstralia a Singapore yn tueddu i lawr.

Ar y cyfan, ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau i fod yn nodwedd, o leiaf yn y tymor byr a bydd lefelau cyfnewid diffyg credyd yn parhau i gael eu monitro am arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbarti y Cyngor a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £15m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

Crynodeb o'r Fantolen –

	31.3.26 Gwir £m
CFR	189
Llai : Ymrwymiadau dyled eraill	(6)
CFR Benthyciadau	**183**
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(142)
Llai: Cyfalaf Gweithredol	(56)
Benthyciadau / (buddsoddiadau) net	**(15)**

Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2026 a'r newid yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad 6 Mis £m**	**30.9.26 Balans £m**
Benthyciadau tymor hir	69.4	(1.1)	68.3
Benthyciadau tymor byr	4.9	0.7	5.6
PFI	6.3	0.0	6.3
Cyfanswm Benthyciadau	**80.6**	**(0.4)**	**80.2**
Buddsoddiadau tymor byr	(47.3)	34.9	(12.4)
Arian a Chywerthydd arian	(48.7)	22.5	(26.2)
Cyfanswm buddsoddiadau	**(96.0)**	**57.4**	**(38.6)**
Buddsoddiadau net	**(15.4)**	**57.0**	**41.6**

4. STRATEGAETH A GWEITHGAREDD BENTHYCA

Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn nodi'n glir na ddylai awdurdodau lleol fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol ac nad yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad cyllido cyfalaf, ac a allai, felly, arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn bennaf â swyddogaethau'r Cyngor.

Nid yw benthyciadau PWLB ar gael bellach i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer elw ac mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Sefyllfa Benthyca

Ar 30 Medi 2026 roedd gan y Cyngor £73.1m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol, ac £0.8m ar gyfer prosiectau penodol. Mae benthyciadau sy'n weddill ar 30 Medi 2026 wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad 6 mis £m**	**30.9.26 Balans £m**
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	73.1	0.0	73.1
Prosiectau Penodol	1.2	(0.4)	0.8
Cyfanswm Benthyciadau	**74.3**	**(0.4)**	**73.9**

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca yn y tymor hir yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a sicrhau sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer, gyda hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor y Cyngor yn newid yn amcan eilaidd.

Yn y tymor byr, mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn fwy cost effeithiol i ddefnyddio adnoddau mewnol a defnyddio benthyciadau tymor byr pan fo angen. Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i leihau costau benthyca net (er gwaethaf colli incwm buddsoddi) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

5. GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

Mae Cod Rheolaeth Trysorlys diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £21.0 a £115.8 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad 6 mis £m**	**30.9.26 Balans £m**	**30.9.26 Incwm %**
Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	1.2	0.6	1.8	3.15
Awdurdodau Lleol	8.0	(8.0)	0.0	0.00
Cronfeydd Marchnad Arian	47.5	(23.1)	24.4	3.93
Swyddfa Rheoli Dyledion	27.1	(27.1)	0.0	0.00
Cronfeydd Cyfun	12.2	0.2	12.4	5.75
Cyfanswm Buddsoddiadau	**96.0**	**(57.4)**	**38.6**	

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Fel y dangosir gan feincnod ymrwymiadau yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Bydd y

portffolio presennol o gronfeydd cyfun strategol yn cael ei gynnal i amrywio risg i wahanol ddosbarthiadau o asedau a hybu incwm buddsoddi.

Dangosir dilyniant metrigau risg ac enillion yn y dyfyniadau o feincnodi buddsoddiad chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

	Sgôr Risg	Statws Credyd	Datguddiad 'Bail-in'	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)	Cyfradd Adennill %
31.03.2026	4.50	A+	58%	46	4.49
30.09.2026	4.99	A+	100%	2	4.51
ALl tebyg	**4.57**	A+	**58%**	**53**	**4.13**
Bob ALl	**4.58**	A+	**678%**	**10**	**4.11**

Arhosodd Cyfradd y Banc ar 3.75% yn ystod y cyfnod. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.70% a 3.75% a Chyfraddau'r Cronfeydd Marchnad Arian rhwng 3.71% a 3.97%.

Dalier £13m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan y cronfeydd hyn, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2026 isod:

FUND NAME	ASSET CLASS	No of Units Held in Period	Current Value £	Capital Growth £	Dividends Earned £	Holding Period (yrs)	Capital Return	Income Return	Total Return	Volatility
AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND	MULTI ASSET	1,158,480	1,327,536	77,536	490,620	7.5	6.20%	39.25%	45.45%	9.5%
CCLA - LAMIT PROPERTY FUND	PROPERTY	1,524,344	4,174,416	-825,585	1,478,090	7.5	-16.51%	29.56%	13.05%	5.9%
NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND	MULTI ASSET	1,228,153	1,135,053	-114,947	383,750	7.3	-9.20%	30.70%	21.50%	3.3%
PAYDEN ABSOLUTE RETURN BOND FUND	ABSOLUTE RETURN	233,541	1,958,803	-41,197	344,497	3.0	-2.06%	17.22%	15.16%	1.1%
SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND	EQUITY - UK	7,675,245	3,920,400	405,092	1,499,952	5.6	11.52%	42.67%	54.19%	8.6%
GRAND TOTAL			12,516,208	-499,100	4,196,908	6.3	-3.83%	32.25%	28.41%	4.4%
			Unrealised capital loss since purchase:	-483,792			Annualised income return:	4.52%		
							Average Bank Rate:	2.52%		

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun y cronfeydd yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £13m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

6. CYDYMFFURFIO

Dangosir cydymffurfiad â therfynau buddsoddi penodol yn y tabl isod.

Cyfyngiadau Buddsoddi

Methodd y Cyngor gydymffurfio gyda dau gyfyngiad buddsoddi a hynny oherwydd bod lefel uchel o arian gennym ac felly wedi cynyddu'r buddsoddiad gyda rhai gwrthbartion dros dro. Rydym wedi agor cyfrifon ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfiad llawn yn y dyfodol.

	Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod	**Gwir Gwrthbarti 30.9.26**	**2026/27 Terfyn Gwrthbarti**	**Cydym-ffurfio**
Llywodraeth y DU	£52.9m	£0m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd – cefnogaeth llywodraeth	£0m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd – collateral arall	£0m	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£1.8m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£10m	£10m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

Dangosir cydymffurfiad â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn y tabl isod:

Ffin Dyled

	Uchafswm yn y cyfnod	**30.9.26 Gwir**	**2026/27 Ffin Gweithredol**	**2026/27 Ffin Awdurdodedig**	**Cydymffurfio**
Benthyciadau	£74m	£74m	£184m	£194m	✓
PFI a Prydlesau Cyllid	£6m	£6m	£6m	£6m	✓
Cyfanswm Dyled	**£80m**	**£80m**	**£190m**	**£200m**	✓

7. DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI'R TRYSORLYS

Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli'r trysorlys.

i. Meincnod Ymrwymiadau

Mae'r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiadau sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

	31.3.26 Gwir	**31.3.27 Amcan**	**31.3.28 Amcan**	**31.3.29 Amcan**
CFR Benthyciadau	182.3	184.7	182.1	179.6
Llai: Adnoddau'r Fantolen	(204.4)	(181.5)	(181.5)	(181.5)
Gofynion benthyciadau net	(22.1)	3.2	0.6	(1.9)
Ychwanegu: Lwfans hylifedd	21.5	21.5	21.5	21.5
Meincnod ymrwymiadau	**(0.6)**	**24.7**	**22.1**	**19.7**
Benthyca presennol	**74.3**	**69.4**	**68.1**	**66.5**

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i gael ei fenthyca uwchlaw ei feincnod ymrwymiadau. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif yr arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd y benthyciadau.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

ii. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	Uchaf	Isaf	Gwir	Cydymffurfio
O dan 12 mis	7.5%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	0.4%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	2.2%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	31.9%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	58.0%	100%	0%	✓

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

iii. Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheoli trysorlys hirdymor yw:

	2026/27	**2027/28**	**2028/29**	**Dim Dyddiad Penodol**
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£13m	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓	✓

Dangosyddion Ychwanegol:
Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	Gwir 30.09.26	**Targed 2026/27**	**Cydymffurfio**
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	4.99	Sgôr o 6 neu lai	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

	Gwir 30.09.26	**Targed 2026/27**	**Cydymffurfio**
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£26.2m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

	Gwir 30.09.26	**Terfyn 2026/27**	**Cydymffurfio**
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£215,026	£1,105,508	✓
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog	£215,026	£1,105,508	✓

Perfformiad Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £922,000, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2026/27 ychydig yn uwch wedi ei amcangyfrif yn £1.1m.

8. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

9. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

CYFARFOD	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD	**26 Tachwedd 2026**
TEITL	**Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth**
PWRPAS	**Diweddaru'r Pwyllgor ar gynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon a threfniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth**
AWDUR	**Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Adran Gwasanaethau Corfforaethol**

1. Penderfyniad a Geisir

Mae hon yn adroddiad safonol a gyflwynir fel arfer i roi trosolwg o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol am wasanaethau'r Cyngor. I gyd-fynd â'r adroddiad a gosod y cyd-destun, cyflwynir hefyd, fel atodiad, Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Cymru ar gyfer y flwyddyn 2025/26, a dderbyniwyd ganol Medi 2026. Mae'r Ombwdsmon wedi gofyn i'r llythyr blynyddol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chyflwyno unrhyw sylwadau neu argymhellion ar y drefn gwynion wrth wneud hynny.

2. Cyflwyniad a Rhesymeg

Mae'r adroddiad hon yn rhoi trosolwg o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol, gan hefyd gyflwyno sylwadau Ombwdsmon Cymru ar ein trefniadau a'n perfformiad fel Cyngor wrth ymdrin â chwynion. Mae sylwadau'r Ombwdsmon yn amlygu llwyddiannau, heriau a datblygiadau yn benodol ar gyfer y cyfnod 2025/26. Derbynnir sylwadau gan yr Ombwdsmon yn ffurfiol drwy Lythyr Blynyddol. Derbyniwyd y Llythyr Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y flwyddyn 2025/26, ar 17/09/2026. Mae'n cyflwyno dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol sy'n dangos perfformiad y Cyngor. Mae'r Llythyr wedi'i atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Yn unol â'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 – mae gofyn i'r Pwyllgor sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion o fewn y Cyngor.

Dylid nodi nad rôl y Pwyllgor yw ystyried a ymdriniwyd â chwynion unigol yn briodol, ond yn hytrach ystyried effeithiolrwydd y broses gwyno yn ei chyfanrwydd. O ganlyniad, nid oes cyfeiriad yn yr adroddiad at unrhyw gŵyn unigol na pherfformiad adrannol o fewn y Cyngor.

Cyflwynir yr adroddiad hon, felly, fel sail i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynghylch pa mor effeithiol yw'r trefniadau hynny.

Trosglwyddodd y cyfrifoldeb am y drefn gwynion i'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer ym mis Awst 2026. Dylid nodi ein bod yng nghanol adolygiad cynhwysfawr o'r drefn er mwyn: a) cael sicrwydd ein bod yn parhau i weithredu canllawiau ac arferion da'r Ombwdsmon wrth ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth; a b) sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl, gan ystyried datblygiadau technolegol a chyd-fynd ag egwyddorion gofal cwsmer ehangach. Mae cynnwys llythyr yr Ombwdsmon yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021. Mabwysiadwyd cynllun Gofal Cwsmer newydd ym mis Gorffennaf 2025, yn dilyn proses ymgynghori drylwyr. Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd y drefn gwynion yn ffurfio rhan o gwrs Gofal Cwsmer newydd. Ar hyn o bryd, mae'n gynamserol adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad.

Dyma'r drefn fel y mae ar hyn o bryd:

Sut mae trigolion Gwynedd yn cael gwybod am y drefn gwynion

Mae'r adroddiad isod yn rhoi trosolwg o'r drefn sydd ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol a'u prosesu. Cyn manylu ar y drefn honno, fodd bynnag, dylid amlygu mai trefn gwynion gorfforaethol yw hon, a bod rhai meysydd wedi'u heithrio ohoni. Mae pedwar maes penodol wedi'u heithrio, fel y rhestrir isod, ac mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am bob un o'r eithriadau hynny:

- Gofal
- Addysg
- Cyflogaeth
- Byw'n Iach

Y drefn gwynion gorfforaethol

Mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut i gysylltu â'r Cyngor os ydynt yn dymuno cyflwyno cwyn neu fynegi pryder. Sefydlwyd y drefn gwynion bresennol yn 2015. Bryd hynny, cyhoeddwyd erthygl yn cyflwyno'r drefn yn Newyddion Gwynedd, a oedd ar y pryd yn cael ei ddosbarthu i gartrefi trigolion Gwynedd.

Ysgrifennwyd y Polisi Pryderon a Chwynion o dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac felly'n gyson â threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill.

Diweddarwyd y Polisi yn 2021 a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am weithredu'r drefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol.

Gellir gweld holl fanylion y drefn ar wefan y Cyngor. Mae copïau o'r Polisi, sy'n ddwyieithog ac yn cynnwys Ffurflen Canmol neu Gwyno, hefyd ar gael yn Siopau Gwynedd y Cyngor ac yn ein llyfrgelloedd.

Gellir anfon copi papur o'r Polisi at unrhyw un sydd ei angen.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Cysylltu-%C3%A2-ni/Polisi-Pryderon-Cymraeg-2023-Layout-1.pdf

Mae copi Hawdd i'w Ddarllen o'r Polisi hefyd ar gael.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Cysylltu-%C3%A2-ni/Hawdd-i-Darllen-Cymraeg.pdf

Pe bai angen copi mewn iaith wahanol ar gwsmer, neu gyfieithydd i gynorthwyo gyda'i gŵyn, gellid trefnu hynny ar gais.

Sut gall trigolion Gwynedd gyflwyno cwyn neu fynegi pryder?

Gellir cyflwyno cwyn neu fynegi pryder drwy wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru

Mae ffurflen amlbwrpas ar gael y gellir ei defnyddio i ganmol neu gwyno. https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/HunanwasanaethGweFfurflenni/cy/CwynCyffredinol/Index

Os oes angen copi papur ar gwsmer, gall ofyn am gopi o'r ffurflen gan yr unigolyn y mae mewn cysylltiad ag ef neu hi.

Gellir cysylltu â'n pwynt cyswllt cwynion canolog ar 01766 771000 i gyflwyno cwyn dros y ffôn.

Gellir anfon e-bost i cwynion@gwynedd.llyw.cymru

Gellir ysgrifennu at Swyddog Gwella Gwasanaeth, Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Mae swyddogaeth y Swyddog Gwella Gwasanaeth yn cynnwys eirioli ar ran y cwsmer.

Trefniadau'r Cyngor o ran ymdrin â chwynion

Pan fydd cwyn yn cyrraedd, boed drwy'r ffurflen ar-lein, drwy e-bost, drwy lythyr neu dros y ffôn, anelir at ei chydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith. Rhoddir gwybod i'r cwsmer pwy fydd yn trefnu ymchwiliad ac yn ymateb i'r gŵyn. Anfonir dolen i'r Polisi Pryderon a Chwynion yn y neges gydnabod. Os cyflwynwyd y gŵyn drwy lythyr, anfonir llythyr cydnabod at y cwsmer ynghyd â chopi papur o'r Polisi. Os derbyniwyd y gŵyn dros y ffôn, gofynnir i'r cwsmer sut yr hoffai i ni gysylltu, er enghraifft drwy e-bost neu lythyr.

Unwaith y bydd cwyn wedi'i derbyn, fe'i cofnodir ar y system cwynion a'i throsglwyddo i'r gwasanaeth neu'r swyddog perthnasol am sylw.

Mae dau gam i'r drefn, sef Cam 1 (Cwyn Anffurfiol) a Cham 2 (Cwyn Ffurfiol). Fel arfer, bydd cwyn anffurfiol yn cael ei datrys fwy neu lai ar unwaith gan y gwasanaethau. Wrth reswm, mae ymchwilio i gŵyn ffurfiol ac ymateb iddi yn cymryd mwy o amser.

Yn unol â'r Polisi, mae gan y gwasanaeth hyd at 20 diwrnod gwaith i ymchwilio i unrhyw gŵyn ac ymateb iddi. Os oes angen mwy o amser, rhaid hysbysu'r cwsmer a'r Swyddog Gwella Gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Ar yr un pryd, disgwylir i'r gwasanaeth roi dyddiad pendant ar gyfer darparu ymateb llawn i'r cwsmer.

Os bydd oedi pellach am unrhyw reswm, dylid sicrhau bod y cwsmer a'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn cael gwybod am hynny bob amser.

Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn monitro'r amserlen ymateb ac yn atgoffa gwasanaethau ohoni yn ôl yr angen. Weithiau, bydd angen i'r Swyddog anfon sawl nodyn atgoffa at wasanaeth gan fod cwyn yn parhau ar agor am fwy nag 20 diwrnod, heb i'r gwasanaeth egluro bod angen mwy o amser.

Os yw gwasanaeth wedi methu ag ymateb o fewn yr 20 diwrnod gwaith, heb egluro i'r cwsmer a'r Swyddog Gwella Gwasanaeth fod angen mwy o amser, mae gan y cwsmer yr hawl i fynd â'r mater ymlaen at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Trefniadau os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r ymateb

Disgwylir i wasanaeth gynnwys paragraff safonol yn ei ymatebion i gwynion ffurfiol bob amser, gan nodi sut i gysylltu â swyddfa'r Ombwdsmon. Os yw cwsmer yn anfodlon â'r ymateb a gafwyd gan wasanaeth, mae ganddynt yr hawl i fynd â'r mater ymhellach at yr Ombwdsmon os yw'n dymuno.

Dysgu gwersi o'r cwynion a gwella gwasanaethau

Un maes lle rydym yn gweld cyfleoedd posibl i gryfhau'r trefniadau presennol yw dysgu a rhannu gwersi. Cynigir ein bod yn dychwelyd i'r Pwyllgor hwn unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

O ran trefniadau'r Ombwdsmon, gall y swyddfa gysylltu â ni gydag Ymholiad, Cais am ragor o wybodaeth neu Ymateb. Yn dibynnu ar yr achos, gall yr ymateb fod yn un o'r canlynol: Dim Ymchwiliad, Dim Ymchwiliad Cynamserol, Ymchwiliad neu Adroddiad.

Adroddir ar berfformiad y Cyngor o ran cwynion i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn, gan adrodd yn benodol ar gwynion ffurfiol dilys a chwynion yr Ombwdsmon. Cyflwynir Llythyr yr Ombwdsmon i'r Cabinet yn flynyddol. Bydd Llythyr eleni yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf i'r Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

3. Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, daeth y Llythyr Blynyddol i law eleni ar 17/09/2026. Bydd cynnwys y llythyr hwn hefyd yn cael ystyriaeth lawn wrth lunio ein trefniadau ar gyfer y dyfodol, fel rhan o'n hymdrechion i wella'n barhaus.

Byddwn yn adrodd yn ôl i'r Ombwdsmon gyda dyddiadau cyflwyno'r Llythyr Blynyddol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ynghyd ag unrhyw sylwadau sy'n codi.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu a chyfarfod â swyddogion yr Ombwdsmon mewn perthynas â'u gwaith Safonau Cwynion, gan weithredu eu polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol iddynt. Byddwn yn cynnig ac yn hyrwyddo unrhyw hyfforddiant sydd ar gael ganddynt.

Rhestr Atodiadau

Atodiad 1: Manylion am feysydd sydd wedi eu heithrio o'r drefn gwynion gorfforaethol
Atodiad 2: Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon am 2025/26

Atodiad 1

Manylion am feysydd sydd wedi eu heithrio o'r drefn gwynion gorfforaethol

Mae pedwar maes wedi'u heithrio o'r drefn gwynion gorfforaethol am fod trefniadau a phrosesau amgen ar waith. Manylir ar y trefniadau ar gyfer y pedwar maes isod.

1.1. Gofal – Oherwydd natur y maes gwaith, mae trefn statudol ar waith ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion a'r Gwasanaeth Plant. Mae dolen i'r drefn honno ar dudalen Cwynion Corfforaethol y Cyngor, ac mae wedi'i chynnwys isod er hwylustod.

Cwynion a chanmoliaeth (Gwasanaethau Cymdeithasol)

(Gweler isod ddetholiad o'r canllaw Cwynion yn y maes Gofal.)

Os nad ydych yn hapus gyda'ch Gwasanaethau Cymdeithasol, rhowch wybod i ni.

Rydym yn anelu tuag at safonau uchel ond weithiau nid yw pethau'n mynd fel y dylent. Os ydych yn cysylltu â ni, byddwn yn gallu gweithio gyda chi i unioni pethau cyn gynted â phosibl.

Gallwch gyflwyno sylw neu gŵyn drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Cwynion am y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

- Ffurflen ar-lein: Cwyn am wasanaethau oedolion Gwynedd
- 01286 679549
- gcgc@gwynedd.llyw.cymru
- Swyddog Gofal Cwsmer, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd, Pencadlys, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Cwynion am Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

- Ffurflen ar-lein: Cwyn am adran plant Cyngor Gwynedd
- 01286 679151
- gcgc@gwynedd.llyw.cymru
- Swyddog Gofal Cwsmer, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Pencadlys, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Fel arall, gallwch siarad ag unrhyw aelod o staff Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd yn trosglwyddo'ch pryder neu'ch sylw i'r Swyddog Gofal Cwsmer priodol.

1.2. Addysg – Mae gan ysgolion eu trefn gwyno eu hunain. Gweler y ddolen isod i wefan Llywodraeth Cymru.

https://www.llyw.cymru/gweithdrefnau-cwyno-ysgolion-canllawiau-html#110594

1.3. Cyflogaeth – Nid yw materion cyflogaeth yn dod o dan y drefn gwynion gorfforaethol. Yn hytrach, cânt eu trosglwyddo i sylw'r Rheolwr Adnoddau Dynol.

Weithiau, derbynnir cwynion gan aelodau'r cyhoedd am ymddygiad staff wrth eu gwaith. Trosglwyddir cwynion o'r math hwn i'r rheolwr perthnasol er mwyn ymchwilio iddynt ac ymateb. Pe bai'r gŵyn yn un ffurfiol, byddai'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet.

1.4. Byw'n Iach – Mae cwynion Byw'n Iach yn cael sylw gan y rheolwyr perthnasol neu'r Cyfarwyddwr, yn dibynnu ar natur y gŵyn. Gellir cysylltu â Byw'n Iach yn uniongyrchol: cyswllt@bywniach.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Safonau Cwynion
01656 641150
Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 17 Medi 2026

Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

Drwy ebost yn unig
cynghorydd.niajeffreys@gwynedd.llyw.cymru

Annwyl Gynghorydd Jeffreys

Llythyr Blynyddol 2025-26

Ein Rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rydym yn ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus yn annibynnol, ac yn ymchwilio i honiadau o dorri Cod Ymddygiad cynghorwyr. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer trin cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus, yn ysgogi dysgu parhaus o gwynion ac yn cynnal ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar ein liwt ein hunain.

Pwrpas y Llythyr Blynyddol hwn

Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar ein gwaith yn ystod y cyfnod yma, ac yn tynnu sylw at arferion allweddol yng nghwynion am lywodraeth leol Cymru. Mae'n nodi perfformiadau yn benodol i'ch sefydliad ac yn amlinellu'r camau gweithredu cadarnhaol yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd.

Trosolwg – blwyddyn o dorri recordiau

Mae'r llythyr hwn, fel bob un, yn cydfynd â'n cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol sydd ag arwyddocâd arbennig y flwyddyn hon wrth i ni nodi ein 20fed penblwydd. Gwnaethom gau ein blwyddyn brysuraf erioed lle derbyniodd y swyddfa 4,507 o gwynion dilys ar draws ei chylchoedd gwaith gwasanaethau cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad — 27% yn fwy na'r llynedd, 47% yn fwy nag oedd 3 mlynedd yn ôl, ac yn 3 gwaith cymaint ag 20 mlynedd yn ôl.

I gwrdd â'r galw hyn, gwnaethom gau nifer record o gwynion, 29% yn fwy na'r llynedd a 43% yn fwy o'i gymharu â 3 mlynedd yn ôl. Gwnaethom ymyrryd mewn 568 o'r cwynion a gaewyd.

ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Mae dod o hyd i ddatrysiad cyflym i gwynion, lle bo modd, yn parhau i fod yn bwysig i ni ac yn fuddiol i bob parti dan sylw. Eleni, roedd 85% o'n hymyriadau'n cynnwys elfen o Ddatrysiad Cynnar, proses rydyn ni'n gobeithio sydd wedi adlewyrchu'n werthfawr i'ch sefydliad ac i achwynwyr.

Er gwaethaf cynnydd yn y nifer o achosion, parhaodd ein hamseroedd trin achosion i fod yn effeithlon. Cwblhawyd asesiadau cychwynnol a Datrysiadau Cynnar o fewn 4 wythnos – ymhell o flaen ein targed o 6 wythnos. Yn ogystal, gwnaethom gynnal tuedd i lawr ar ein hamser ymchwilio cyfartalog o 54 wythnos eleni i lawr o 64 wythnos yn ystod 2023-24.

Trosolwg o gwynion Awdurdodau Lleol

Yn ystod 2025-26, cawsom 1,704 o gwynion am awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae hyn yn gynydd blynyddol o 27% a 67% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl.

Roedd mwyafrif y cwynion yma'n cyfeirio'n bennaf at dai, gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd ac iechyd amgylcheddol, trin cwynion a chynllunio.

Ar draws y sector, gwnaethom ymyrryd mewn 9% o gwynion awdurdodau lleol a gaewyd gennym – cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Perfformiad yn benodol i'ch Awdurdod

Yn ystod 2025-26 cawsom 47 o gwynion am eich Awdurdod a gwnaethom gau 49 o gwynion (gyda rhai cwynion wedi eu cario o'r flwyddyn flaenorol).

Gwnaethom ymyrryd yn 14% o gwynion a gaewyd am eich Awdurdod.

Gwnaethom 17 o arghymhellion newydd i'ch Awdurdod yn yr achosion a gaewyd gennym eleni.

Roedd yna 17 o argymhellion a oedd yn ddyledus yn ystod y cyfnod hwn. Cyflawnwyd 94 % o argymhellion oedd angen eu cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am gwynion am eich sefydliad a gafodd eu hymchwilio yn ystod y cyfnod hwn yr yr Atodiadau isod.

Gwella cydymffurfiaeth â'n hargymhellion

Rydyn ni bob tro'n cymryd ein hamser i sicrhau bod ein hargymhellion a'n hamserlenni'n cael ei gytuno gan gyrff cyhoeddus cyn eu cwblhau. Felly, rydym yn disgwyl i'r terfynau amser y cytunwyd arnynt gael eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid yw cydymffurfiaeth amserol mor uchel ag y dylai fod; a dim ond 69% o'n hargymhellion ledled Cymru y cydymffurfiwyd â nhw ar amser ar 31 Mawrth 2026. Mae cyflawni cytundebau'n brydlon i ddatrys anghyfiawnder neu galedi i unigolion a gweithredu dysgu systematig ar amser yn hanfodol i feithrin a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein swyddfa ac yn eich sefydliadau.

Rydym yn cydnabod bod heriau annisgwyl yn gallu codi sy'n gwneud hi'n anodd cwrdd â therfynau amser. Mewn ymateb i adborth gan gyrff cyhoeddus, rydym wedi addasu ein dull wrth symud ymlaen; os ydych yn gofyn am estyniad rhesymol ar neu gyn y dyddiad cau, ac rydych yn cwrdd â'r dyddiad newydd hwnnw, bydd yn cael ei gofnodi fel un sydd wedi'i gydymffurfio mewn pryd. Gobeithiwn fod hwn yn addasiad sydd wedi ei groesawu a fydd yn helpu i arddangos mwy o gyfraddau cydymffurfio cadarnhaol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Ein gwaith Cod Ymddygiad

Mae'n bwysig i ddemocratiaeth leol bod aelodau etholedig, a lle bo'n briodol aelodau cyfetholedig, yn cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb, atebolrwydd a pharch. Rydym yn cymryd ein dyletswydd i ymchwilio i honiadau o dorri Cod Ymddygiad cynghorwyr o ddifrif. Pan fyddwn yn ystyried, yn dilyn ymchwiliad, y gallai sancsiynau fel gwahardd neu anghymhwyso fod yn briodol ac er budd y cyhoedd, rydym yn cyfeirio'r achosion hyn at Bwyllgorau Safonau lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru.

Arhosodd cwynion Cod Ymddygiad yn gymharol sefydlog o'i gymharu â'r llynedd, gan wneud cynydd o 3%.

Roedd y mwyafrif (58%) yn ymwneud âg aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned.

Gwnaethom gau 85 o achosion a ymchwilwyd llynedd – cynydd sylweddol o'r llynedd gyda 15 achos yn cael eu cyfeirio at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn fe wnaethom leihau nifer yr ymchwiliadau hŷn yn ein llwyth achosion yn llwyddiannus ac yn sylweddol gyda dim ond 5 ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 25 ar 31 Mawrth 2025.

Mynd i'r afael ag ymddygiad amharchus, bwlio ac aflonyddu

Rwy'n parhau i fod yn bryderus am y nifer o honiadau o fwlio ac aflonyddu sy'n ymwneud â staff y cyngor. Eleni, gwnaethom gyfeirio sawl achos niweidiol iawn at Banel Dyfarnu Cymru, gan arwain at waharddiadau hir i rai cynghorwyr.

Nid oedd y rhain yn ddigwyddiadau ynysig. Byddwn yn parhau i gymryd cwynion o'r natur yma o ddifrif ac yn cymryd y camau priodol i flaenoriaethu'r achosion mwyaf difrifol rydym yn derbyn.

Hoffwn ddiolch i'ch Swyddog Monitro am ei ymgysylltiad proffesiynol gyda fy swyddfa yn ystod y cyfnod hwn.

Cefnogi gwelliant gwasanaethau cyhoeddus – themâu allweddol a'n gwaith ar ei liwt ei hun

Rydym yn parhau i ehangu defnydd ein pwerau ar ei liwt ei hun. Mae'r rhain yn ein galluogi i ymchwilio i faterion sy'n codi yn rhagweithiol, gan fynd i'r afael â methiannau gweinyddol cyn iddynt gynyddu.

Mae'r Senedd wedi ymddiried y pŵer i ni ymchwilio ar ein liwt ein hunain, ac mae hyn yn allweddol i ni fod y pŵer hwn yn darparu effaith gadarnhaol ar bobl Cymru.

Asesiadau anghenion gofalwyr yng Nghymru

Eleni, gwnaethom ddilyn i fyny ar gydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus gyda'n adroddiad a gyhoeddom yn flaenorol ar asesiadau anghenion gofalwyr. Mae ein hadroddiad dilynol yn nodi, er bod bob un o'r 4 awdurdod wedi cymryd camau cadarnhaol, bu rhaid i ni gyhoeddi argymhellion pellach i ddau awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol i gynnal eu ffocws ar sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn medru cael mynediad at wybodaeth, cyngor a'r cefnogaeth sydd eu angen i gynnal eu rolau hanfodol. Rwyf yn eich annog i ddarllen ein hadroddiad dilynol, os nad ydych eisoes wedi ar ein gwefan - yma.

Lletai Sipsiwn a Theithwyr

Fe wnaethon ni rannu canfyddiadau o'n hymchwiliad ar ei liwt ei hun ar letai Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd gyda'r holl awdurdodau lleol. Mae'r dysgu ledled y sector yn pwysleisio fod angen i'r holl gynghorau gymryd camau amserol pan mae'r galw am letai yn cynyddu i fwy na'r capasiti. Mae hyn yn lleihau amodau byw gwael sy'n gadael trigolion dan anfantais.

Cyflwr tai a'n hadroddiadau budd y cyhoedd

Pan mae adroddiad yn datgelu risigiau systematig difrifol sy'n gallu effeithio ar nifer o unigolion, neu gynnig gwersi i'r sector ehangach, rydym yn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

Gwnaethom gyhoeddi 9 adroddiad er budd y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y rhan fwyaf yn ymwneud â Byrddau Iechyd, mae 4 yn berthnasol i waith awdurdodau lleol (cyhoeddwyd 2 ar gyfer awdurdodau lleol a 2 ar gyfer Cymdeithasau Tai), yn ffocysu'n benodol ar breswylwyr sy'n byw mewn tai â chyflwr annerbyniol. Os nad ydych yn barod wedi gwneud, rwy'n eich annog i ddarllen yr adroddiadau hyn i gael eu mewnwelediadau gwerthfawr - yma.

Rwyf wedi datgan yn flaenorol bod lleithder, llwydni a diffyg atgyweirio heb eu datrys yn gallu achosi niwed a gofid difrifol, ac yn effeithio'n anghymesur ar denantiaid sy'n agored i niwed. Rwyf yn parhau i dynnu sylw yn flaenorol at y camweinyddu systematig, yr ymatebion hwyr, a'r cyfleoedd a gollwyd gan landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Mae'n destun pryder bod y materion hyn yn parhau i ddigwydd, ac yn parhau i fod yn faes allweddol yn ein gwaith pellach a pharhaus ar ei liwt ei hun.

Ymchwiliadau parhaus ar ei liwt ei hun

Ym mis Mawrth 2026, roedden ni'n cynnal 4 ymchwiliad ar ein liwt ein hunain pellach a oedd yn canolbwyntio, ymhlith pethau eraill, ar:

- Sut mae landlordiaid cymdeithasol yn delio a rheoli gydag adroddiadau a chwynion am ddiffyg atgyweirio a lleithder a llwydni.

- Methiannau mewn camweinyddu a gofal iechyd posib.

Rydym yn disgwyl cwblhau'r gwaith yma yn hwyrach yn ystod 2026, ac mi fyddwn yn penderfynu bryd hynny a yw'r canfyddiadau'n cyfiawnhau cyhoeddi er budd y cyhoedd.

Ein gwaith Safonau Cwynion

Erbyn diwedd Mawrth 2026, mae'r holl awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r 21 o gymdeithasau tai yng Nghymru yn gweithredu o dan ein polisi cwynion enghreifftiol. Yn ystod 2025-26, cychwynnom y broses pontio ar gyfer y cymdeithasau tai sy'n weddill, ac rydym yn disgwyl iddynt gydymffurfio yn llawn erbyn diwedd mis Medi 2026.

Mae'r sefydliadau sydd eisoes yn cydymffurfio, yn cyfrif am 85% o gwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus rydym yn eu derbyn.

Mae ein hyfforddiant trin cwynion sydd am ddim yn parhau i fod yn boblogaidd iawn; ac rydym wedi darparu 58 sesiwn arall i gyrff cyhoeddus ledled Cymru eleni gan ddod â'n cyfanswm ers 2020 i 600 sesiwn a 10,000 o gyfranogwyr.

Yn ehanghach, rydym yn disgwyl i gyhoeddi'r data ar gwynion a gafodd eu trin gan gymdeithasau tai yng Nghymru yn ystod 2024-25 a 2025-26 yn yr Hydref.

Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd

Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau o'r cyfnod hwn rwy'n gofyn bod eich sefydliad yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Cyflwyno'r Llythyr Blynyddol hwn i'r Bwrdd Llywodraethu neu'r Pwyllgor Archwilio ar y cyfle cynharaf ac i roi gwybod i mi am unrhyw ddyddiadau cyfarfodydd a gynlluniwyd.

- Adolygu'r data yn y llythyr hwn ynghyd â'ch data eich hun, er mwyn deall perfformiad eich cwynion yn well, i adnabod tueddiadau ac i adolygu'ch cydymffurfiad â'r argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Darllen yr adroddiadau a amlygwyd yn y llythyr hwn i dynnu gwersi perthnasol i'ch Awdurdod eich hun.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad eich ystyriaethau a'ch cynllun gweithredu arfaethedig ar y cyfle cyntaf.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am eich agoredrwydd parhaus a'ch ymgysylltiad â'm swyddfa. Mae ein data'n dangos bod awdurdodau lleol yn ymchwilio i mewn i fwy o gwynion nag erioed o'r blaen a bod canlyniadau gwell i Gymru'n cael ei gyflawni pan gaiff gwybodaeth o gwynion ei defnyddio'n llawn.

Yn gywir

Michelle Morris
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc. dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru
cwynion@gwynedd.llyw.cymru
iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru

Taflen Wybodaeth

Gerifa o dermau - canllaw i rai o'r termau a ddefnyddir yn ein Llythyrau Blynyddol a'n Atodiadau.

Mae **Atodiad A** yn dangos y nifer o gwynion a dderbyniwyd am yr holl awdurdodau lleol yn 2025-26. Mae'r cwynion hyn wedi'u rhoi mewn cyd-destun yn ôl poblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos nifer a chyfran o'r cwynion a dderbyniwyd yn ôl categori.

Mae **Atodiad C** yn dangos cyfraddau ymyrraeth am bob awdurdod lleol yn 2025-26. Caiff ymyrraeth ei chategoreiddio naill ai yn ôl cwyn a gadarnhawyd (naill ai er budd y cyhoedd neu beidio), datrysiad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad D** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaewyd gennym ar gyfer yr awdurdodau lleol yn 2025-2026. Mae'r tabl yn dangos cyfaint a chyfran y mae bob canlyniad yn ei gynrychioli ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad cydymffurfiaeth bob awdurdod lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion am y Cod Ymddygiad a gaewyd gennym ar gyfer awdurdodau lleol yn 2025-26. Mae'r tabl yn dangos cyfaint a chyfran y mae bob canlyniad yn ei gynrychioli ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gennym yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal yr awdurdod lleol yn 2025-26. Mae'r tabl hwn yn dangos y nifer a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

Llythyrau Blynyddol - Geirfa o dermau

Term	Diffiniad
Cwynion a gafwyd	Nifer y cwynion a wnaed yn briodol a dderbyniwn am Gorff Cyhoeddus.
Cwyn a wnaed yn briodol	Gwneir cwyn am wasanaethau cyhoeddus yn briodol pan: • mae'r sefydliad o fewn ein hawdurdodaeth a • mae'r sefydliad wedi ymateb neu wedi cael cyfle i ymateb a • mae'r digwyddiadau y cwynwyd amdanynt wedi cymryd lle llai na blwyddyn yn ôl, neu daeth yr achwynydd yn ymwybodol ohonynt lai na blwyddyn yn ôl (oni bai bod rheswm da pam na allai'r achwynydd gwyno'n gynt) a • mae gan yr achwynydd hawl i gyflwyno cwyn a • mae gennym y manylion sydd eu hangen arnom e.e. enw, manylion cyswllt, y sefydliad y cwynir amdano, gallwn ddeall y gŵyn. Gwneir cwyn am gynghorydd lleol yn briodol pan: • mae gennym y manylion sydd eu hangen arnom e.e. enw a manylion cyswllt yr achwynydd, enw'r cynghorydd a'r Awdurdod Lleol y maent yn aelod ohono • mae gennym ddatganiad wedi'i lofnodi gan yr achwynydd ac unrhyw drydydd partïon y mae eu tystiolaeth wedi'i chyflwyno.
Datrysiad Cynnar	Mater sy'n cael ei gau heb ymchwiliad oherwydd bod ateb amlwg a bod y corff yn cytuno i gymryd camau i ddatrys y mater. Rhaid i'r corff roi tystiolaeth i ni ei fod wedi cymryd camau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
Ymyriad	Achosion a gaewyd gennym ac rydym naill ai wedi: • Cadarnhau'r gŵyn ar ôl ymchwiliad. • Datrys y gŵyn drwy Setliad Gwirfoddol. • Datryswyd y gŵyn drwy Ddatrysiad Cynnar.
Setliad Gwirfoddol	Mater sydd wedi symud ymlaen i'r cam ymchwilio ond a gaewyd heb i'r ymchwiliad gael ei gwblhau oherwydd ein bod ni'n cytuno bod y camau y mae'r corff wedi awgrymu'n wirfoddol y bydd yn eu cymryd yn briodol i ddatrys y mater. Rhaid i'r corff roi tystiolaeth i ni ei fod wedi cymryd camau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Cadarnhau	Mater a gaewyd gennym ar ôl ymchwiliad a lle rydym wedi canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le.
% o ymyriadau	Nifer y cwynion gwasanaeth cyhoeddus a gaewyd gennym a oedd yn cynnwys Datrysiad Cynnar/Setliad Gwirfoddol a'r rhai a gadarnhawyd gennym yn dilyn ymchwiliad, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y cwynion gwasanaeth cyhoeddus a wnaed yn briodol a gaewyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd.
% a gadarnhawyd	Y gyfran o'r cwynion y gwnaethom ymyrryd ynddynt a gadarnhawyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd, a ddangosir fel canran.
Achosion wedi'u cau	Nifer y cwynion a gaewyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd. Gall hyn fod yn wahanol i'r nifer a dderbyniwyd gennym oherwydd efallai bod rhai cwynion a dderbyniwyd gennym yn y cyfnod adrodd blaenorol ond a gaewyd gennym yn y cyfnod adrodd hwn.
Argymhelliad	Dyma gamau gweithredu rydym yn gofyn i gyrff eu cymryd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt pan fyddwn yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le. Gall y rhain fod yn gamau gweithredu i helpu'r achwynydd unigol neu'n gamau gweithredu systemig i helpu i wella gwasanaethau i bob defnyddiwr gwasanaeth. Gallwn wneud argymhellion fel rhan o Ddatrysiad Cynnar, Setliad Gwirfoddol neu wrth gadarnhau cwyn yn dilyn ymchwiliad. Pan fyddwn yn gwneud argymhellion, rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i ni eu bod wedi cydymffurfio.
Argymhellion a wnaed	Nifer yr argymhellion a wnaethom i gyrff yn ystod y cyfnod adrodd. (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026)
Argymhellion sy'n dod i ben	Nifer yr argymhellion yr oedd angen cydymffurfio â nhw o fewn y cyfnod adrodd (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026). Bydd rhai argymhellion wedi'u gwneud yn y cyfnod adrodd blaenorol ond roeddent yn ddyledus o fewn y cyfnod adrodd hwn.
Cydymffurfiwyd â'r argymhellion yn unol â'r dyddiad targed y cytunwyd arno %	Nifer yr argymhellion y cydymffurfiwyd â nhw erbyn yr amserlen y cytunwyd arni fel y nodir yn yr adroddiad Datrysiad Cynnar, Setliad Gwirfoddol neu Ymchwiliad (yn berthnasol i'r rhai sy'n ddyledus yn 2025-26).

Poblogaeth	Mae poblogaeth wedi'i gynnwys i roi cyd-destun, yn seiliedig ar faint sefydliad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall pobl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigur poblogaeth wneud cwynion, er enghraifft, trigolion o'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol, neu bobl nad ydynt yn ddeiliaid contract. • Ar gyfer **awdurdodau lleol** , mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm amcangyfrifedig y bobl sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol. Mae'r ffigurau wedi'u cymryd o StatsCymru.[1] • Ar gyfer **cymdeithasau tai**, mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm y stoc ar rent cymdeithasol, a ddangosir mewn unedau. Mae hyn yn cynnwys stoc anghenion cyffredinol, stoc gwarchodedig, stoc â chymorth arall a stoc gofal ychwanegol gyda lletyau un ystafell nad ydynt yn hunangynhwysol, hosteli a thai a rennir. Mae'r ffigur hwn wedi'i gymryd o StatsCymru.[2] • Ar gyfer **byrddau iechyd** , mae poblogaeth yn cyfeirio at gyfanswm amcangyfrifedig y bobl sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd. Mae'r ffigurau wedi'u cymryd o StatsCymru.[3]

[1] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, blwyddyn, rhyw ac oedran | StatsCymru
[2] Stoc tai landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys tai cymdeithasol a thai nad sy'n rhai cymdeithasol …
[3] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl bwrdd iechyd lleol, blwyddyn, rhyw ac oedran | StatsCymru

Atodiad A – Cwynion a gafwyd (trosolwg)

	MAL			COD			Cyfanswm		
Awdurdod Lleol	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**	**Cywnion a Gafwyd**	**Poblogaeth**	**Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion**
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	24	67,873	0.35	2	67,873	0.03	26	67,873	0.38
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	68	147,530	0.46	18	147,530	0.12	86	147,530	0.58
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	79	176,865	0.45	5	176,865	0.03	84	176,865	0.47
Cyngor Caerdydd*	290	383,919	0.76	16	383,919	0.04	306	383,919	0.80
Cyngor Sir Gâr	109	190,800	0.57	7	190,800	0.04	116	190,800	0.61
Cyngor Sir Ceredigion	35	72,599	0.48	1	72,599	0.01	36	72,599	0.50
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	50	114,891	0.44	9	114,891	0.08	59	114,891	0.51
Cyngor Sir Ddinbych*	107	98,202	1.09	4	98,202	0.04	111	98,202	1.13
Cyngor Sir y Fflint	113	155,867	0.72	4	155,867	0.03	117	155,867	0.75
Cyngor Gwynedd	47	120,813	0.39	3	120,813	0.02	50	120,813	0.41
Cyngor Sir Ynys Môn	35	69,097	0.51	0	69,097	0.00	35	69,097	0.51
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*	23	58,972	0.39	2	58,972	0.03	25	58,972	0.42
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	37	94,930	0.39	6	94,930	0.06	43	94,930	0.45
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	54	143,249	0.38	11	143,249	0.08	65	143,249	0.45
Cyngor Dinas Casnewydd	74	167,899	0.44	2	167,899	0.01	76	167,899	0.45
Cyngor Sir Penfro	55	125,761	0.44	8	125,761	0.06	63	125,761	0.50
Cyngor Sir Powys	90	135,059	0.67	7	135,059	0.05	97	135,059	0.72
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf*	98	242,844	0.40	2	242,844	0.01	100	242,844	0.41
Cyngor Abertawe	152	251,304	0.60	11	251,304	0.04	163	251,304	0.65
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	15	94,119	0.16	1	94,119	0.01	16	94,119	0.17

Cyngor Bro Morgannwg	79	135,743	0.58	8	135,743	0.06	87	135,743	0.64
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	70	138,245	0.51	9	138,245	0.07	79	138,245	0.57
Cyfanswm	**1,704**	**3,186,581**	**0.53**	**136**	**3,186,581**	**0.04**	**1,840**	**3,186,581**	**0.58**

*yn cynnwys 11 Rhentu Doeth Cymru

*yn cynnwys 3 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

*yn cynnwys 3 Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

*yn cynnwys 3 Grŵp Parcio De Cymru

Atodiad B – Cwynion a gafwyd (yn ôl sefydliad)

Cyngor Gwynedd	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	2	4%
Amaethyddiaeth a physgodfeydd	0	
Gweinyddu Budd-daliadau	0	
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	4	9%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	1	2%
Ymdrin â Chwynion	5	11%
Covid19	0	
Addysg	3	6%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	3	6%
Cyllid a Threthiant	6	13%
Iechyd	0	
Tai	6	13%
Trwyddedu	2	4%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	9	19%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	2	4%
Darparwr Gofal sy'n Hunan-gyllido	1	2%
Amrywiol Eraill	3	6%
Cyfanswm	**47**	

Atodiad C – Achosion lle ymyrrodd OGCC (trosolwg)

Awdurdod Lleol	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	0	24	0%
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	3	67	4%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	13	83	16%
Cyngor Caerdydd*	52	304	17%
Cyngor Sir Gâr	9	106	8%
Cyngor Sir Ceredigion	3	33	9%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1	48	2%
Cyngor Sir Ddinbych*	5	105	5%
Cyngor Sir y Fflint	11	108	10%
Cyngor Gwynedd	7	49	14%
Cyngor Sir Ynys Môn	4	36	11%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*	0	23	0%
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	4	36	11%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	7	60	12%
Cyngor Dinas Casnewydd	3	71	4%
Cyngor Sir Penfro	2	55	4%
Cyngor Sir Powys	8	84	10%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf*	4	97	4%
Cyngor Abertawe	10	151	7%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1	17	6%
Cyngor Bro Morgannwg	6	78	8%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	4	72	6%
Cyfanswm	**157**	**1707**	**9%**

*yn cynnwys 11 Rhentu Doeth Cymru
*yn cynnwys 3 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru
*yn cynnwys 2 Panel Heddlu a Throseddu De Cymru
*yn cynnwys 3 Grŵp Parcio De Cymru

Atodiad D – Canlyniadau cwynion (fesul sefydliad)

Cyngor Gwynedd		% rhannu
Rhoddwyd gorau i'r ymchwiliad i'r gŵyn (gyda datrysiad cynnar yn ystod y camau asesu)	0	
Rhoddwyd y gorau i ymchwilio'r gŵyn (heb setliad)	0	
Penderfynu peidio ymchwilio cwyn	26	53%
Datrys yn gynnar	6	12%
Mater tu hwnt i awdurdodaeth	6	12%
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau	0	
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu	0	
Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau	0	
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau a'i datrys yn gynnar yn y cam asesu	0	
Cynamserol	10	20%
Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi ei chadarnhau	0	
Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu	0	
Adroddiad Budd Arbennig	0	
Setliadau gwirfoddol	1	2%
Cyfanswm	**49**	

Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

Awdurdod Lleol	Nifer yr amgymhellion a wnaed ar gwynion y caewyd yn 2025-26	Nifer yr amgymhellion sy'n ddyledus yn 2025-26	% yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â dyddiad targed cytûn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	0	0	n/a
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	10	10	70%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	34	29	41%
Cyngor Caerdydd	164	136	85%
Cyngor Sir Caerfyrddin	23	15	47%
Cyngor Sir Ceredigion	10	10	80%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1	1	100%
Cyngor Sir Ddinbych	11	10	50%
Cyngor Sir y Fflint	38	39	49%
Cyngor Gwynedd	17	17	94%
Cyngor Sir Ynys Môn	7	7	100%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	0	0	n/a
Cyngor Sir Fynwy	8	6	83%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	13	13	69%
Cyngor Dinas Casnewydd	6	10	60%
Cyngor Sir Penfro	4	7	43%
Cyngor Sir Powys	18	15	53%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	13	12	50%

Cyngor Abertawe	45	40	90%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	3	2	100%
Cyngor Bro Morgannwg	18	17	76%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	10	13	92%

Atodiad F – Cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd

Cyngor Gwynedd	
Cod Ymddygiad heb ei weithredu	0
Taflen Cod Ymddygiad wedi'i hanfon/dolen i'r wefan wedi'i darparu	0
Gafwyd y gŵyn dros y ffôn - yn aros am lofnod	0
Tynnwyd y gŵyn ôl	0
Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn	0
Cŵynddyblyg heb dystiolaeth newydd	0
Gwybodaeth a ddarparwyd	0
Dim angen gweithredu	1
Dim datganiad y derbyniwyd - tynnwyd yn ôl	0
Dim tystiolaeth o esgeulustod	0
Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod	1
Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio	1
Tu hwnt i awdurdodaeth - cyfeirio	0
Cynamserol - Cyfeiriwyd ar gyfer datrysiad lleol	0
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru	1
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau	0
Tynnwyd yn ôl	0
Cyfanswm	4

Atodiad G - Cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol

	Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r Cod		Ymchwiliadau					
Cyngor Gwynedd	**Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio**	**Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod**	**Rhoddwyd gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn**	**Dim angen gweithredu**	**Dim tystiolaeth o dorri'r Cod**	**Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru**	**Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau**	**Cyfanswm**
Cyngor Cymuned Aberdaron	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Aberdyfi	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Abergwyngregyn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Arthog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Dinas Bangor	0	1	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Tref Bermo	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Bermo	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Beddgelert	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Betws Garmon	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Bontnewydd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Botwnnog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Bryncrug	1	0	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Buan	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Caernarfon	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Beddgelert	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Corris	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Cricieth	0	0	0	0	0	0	0	0

Cyngor Cymuned Dolbenmaen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Tref Dolgellau	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont	0	2	0	0	0	0	0	2
Cyngor Cynuned Tref Ffestiniog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Ganllwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Tref Harlech	0	1	0	1	0	0	0	2
Cyngor Cynuned Llanaelhaearn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanbedr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanbedrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanberis	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanddeiniolen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandderfel	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandwrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llandygai	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanegryn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cynuned Llanelltyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanengan	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfair	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pennant	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanfrothen	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llangelynnin	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llangywer	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanllechid	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanllyfni	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llannor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanrug	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn	0	0	0	0	0	0	0	0

Cyngor Cymuned Llanwnda	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanycil	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llanystumdwy	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Maentwrog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Mawddwy	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Nefyn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Pennal	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Penrhyndeudraeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Pentir	0	0	0	0	1	0	0	1
Cyngor Cymuned Pistyll	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Porthmadog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Tref Pwllheli	0	1	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Talsarnau	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Trawsfynydd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tudweiliog	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Tref Tywyn	0	3	0	3	0	0	0	6
Cyngor Cymuned Waunfawr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Tref Y Bala	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Y Felinheli	0	0	0	0	0	0	0	0

Cyfarfod:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	26 Tachwedd 2026
Teitl:	Diwygio Adran 11 Rheolau Sefydlog Swyddogion.
Awdur:	Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro Ian Jones – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Pwrpas:	Er ychwanegu gweithdrefnau manwl ar gyfer prosesau Prif Swyddogion, Sefydlu Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion a gwneud addasiadau canlynol.

Cefndir

1. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol mae proses o adolygu a diweddaru y Cyfansoddiad wedi bod ar y gweill ac adrodd i'r Cyngor. Fel rhan o'r broses yna amlygwyd angen i ychwanegu Rheolau Sefydlog manwl o fewn Adran 11 i gefnogi trefniadau dirprwyedig y Cyngor ar gyfer ymdrin a materion cyflogaeth penodol.

Rhesymeg

Gweithdrefnau Adran 11

2. Yn unol a gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 " Rheoliadau"_) mae'n ofynnol fod y Cyngor a Rheolau Sefydlog yn ymdrin a materion cyflogaeth Swyddogion. Cyferchir y gofyn yma yn Adran 11 o'r Cyfansoddiad. Yn seiliedig ar hyn mae amodau gwaith Prif Swyddogion ar yr un llaw a Prif Weithredwyr ar y llaw arall hefyd yn seiliedig ar y darpariaethau yma .

3. Wrth adolygu y Cyfansoddiad , Polisïau Cyflogaeth yr Awdurdod a'r amodau gwaith daethpwyd i'r casgliad fod angen ychwanegu darpariaethau penodol at Adran 11 ar gyfer y darpariaethau yma a gwneud newidiadau yn seiliedig ar y Cynllun Dirprwyo i sicrhau fod y trefniadau yn gyfredol ac yn cyd redeg.

4. Mae pedwar swyddog sydd a gwarchodaeth cyflogaeth statudol :

   (a) Prif Weithredwr
   (b) Sywddog Monitro
   (c) Pennaeth Cyllid (Swyddog 151)
   (d) [Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r trefniadau ar gyfer prosesau disgyblaeth y pedwar swyddog yma yn cael eu gosod allan gan statud .Mae yn drefn benodol sydd wedi ei gosod allan yn Rhan A o'r Atodiad i Adran 11. Ac eithrio penderfyniad i diswyddo y Prif Weithredwr sydd yn fater Cyngor Llawn mae'r camau yma yn nwylo y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion. Ni fydd hyn yn cael ei newid o ganlyniad i'r penderfyniadau yma.

5. Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Penaethiaid Adran yn cael eu penodi ac mae penderfyniadau disgyblu hefyd yn nwylo y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion . Fodd bynnag nid y drefn statudol yn berthnasol i'r swyddi yma. Mae'r prosesau yma wedi eu rhoi yn Rhan B o'r Atodiad i Adran 11 Ni fydd hyn yn cael ei newid o ganlyniad i'r penderfyniadau yma.

6. O ganlyniad i ychwanegu yr Atodiad i Adran 11 amlygir y newidiadau canlynol i Adran 11 yn Atodiad 1 er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gweithdrefnau a'r Cynllun Dirprwyo.

7. Ar hyn o bryd er fod Adran 11 yn cyflawni y gofynion statudol ystyrir fod angen bod yn eglur am yr union weithdrefnau fyddai yn cael eu dilyn petai mater yn dod gerbron y Pwyllgor gan bod yn benodol i'r swyddi restrir uchod.

Trefniadau Apêl.

8. Yn ôl y Rheoliadau mae'n ofynnol i Bwyllgor sydd yn gweithredu dyletswyddau y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnwys o 'leiaf 1 aelod Cabinet .

> 4 (2) Lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor yr awdurdod perthnasol yn cyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, swyddogaeth penodi neu ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraffau (a), (b), (c) [F40, (ch), (f), neu (ff) o baragraff 3(1) neu'r swyddogaeth o ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(2)] –
>
> > (a)rhaid i o leiaf un aelod o'r corff gweithredu fod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; a
> >
> > (b)rhaid nad yw mwy na hanner aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod perthnasol."

9. Mae'r gofyn i gael trefn apêl ar gyfer unrhyw broses disgyblaeth yn cael ei adlewyrchu yn y trefniadau penodol yma. Fodd bynnag o ystyried y gofyn uchod byddai un anghydnaws os nad yn groes i'r ddarpariaeth yma pe na fyddai Pwyllgor Apêl yn cynnwys y trawstoriad yma o aelodaeth. Er fod gan y Cyngor Bwyllgor Apêl Cyflogaeth nid yw ei gyfansoddiad yn cyfarch y gofyn yma. Felly, ar gyfer dibenion apeliadau y swyddi uchod argymhellir sefydlu Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion . O ran nifer aelodau byddai yn cynnwys 7 aelod yn yr un modd a Pwyllgor Apêl cyfredol. Ond, byddai angen sicrhau fod o 'leiaf 1 aelod Cabinet yn aelod o'r Pwyllgor. Byddai yn cael ei benodi ar sail

balans gwleidyddol ac yn unol a threfniadau penodi pwyllgorau arferol. Disgwylir y byddai aelodau sydd yn eistedd ar y Pwyllgor yn derbyn hyfforddiant cyn cael gweithredu.

Casgliad

Ystyrir fod yr argymhellion yma yn sicrhau fod gweithdrefnau y Cyngor o amgylch materion Prif Swyddogion yn eglur ac yn sefydlu y trefniadau cyfredol o fewn y Cyfansoddiad o ran proses a rôl Pwyllgorau ac Aelodau.

Argymhelliad

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau ar yr argymhelliad i'r Cyngor.

" 1. Bod y Cyngor yn mabwysiadu Atodiad 1 i Adran 11 a'r addasiadau sy'n deillio o fewn Adran 11.

2. Bod y Cyngor yn cytuno i sefydlu Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion gan fabwysiadu'r model yn Atodiad 3 a'r newidiadau I'r Cyfansoddiad.“

Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

Pennaeth Cyllid

Dogfennau Cefndir
Amodau JNC Prif Swyddogion
Amodau Cenedlaethol Prif Weithredwyr

1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau") yn nodi gofynion gorfodol mewn perthynas â chamau disgyblu sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; maent hefyd yn berthnasol i swyddog a oedd, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nid yw bellach, yn swyddog o'r fath, pan fo'r camymddwyn honedig, neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog dan sylw yn swyddog o'r fath.

Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu sefydlu gweithdrefn ar gyfer cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Adran a gyflogir ar delerau ac amodau JNC.

2 Bwriad

Bwriad y Rheol Sefydlog hon yw rhoi effaith i'r Rheoliadau, ond mae hefyd yn pennu gweithdrefn ddisgyblu ragnodol, sy'n ymgorffori gweithdrefnau enghreifftiol y JNC ar gyfer Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Awdurdodau Lleol, gydag addasiadau, i'w defnyddio mewn achosion o honiadau yn erbyn y swyddog/swyddogion. Bydd yn cynnwys canllawiau cychwynnol ynghyd â gweithdrefn i'w dilyn ym mhob achos.

Os pennir mater yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd na chyfeirir ato yn y weithdrefn hon neu os oes gwrthdaro, y Rheoliadau sy'n cael y flaenoriaeth.

3 Dehongliadau

Y dehongliadau isod yw'r rhai sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau 2006 fel y'u diwygiwyd ac mae'r rhannau perthnasol yn cael eu hailadrodd isod. (Rheoliad 2):

a) ystyr "Deddf 1989" yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

b) ystyr "Deddf 2000 yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

c) ystyr "Deddf 2021" yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

d) ystyr "Prif Swyddog" yw:

- i) Y Prif Weithredwr;
- ii) Swyddog Monitro;
- iii) Prif Swyddog Cyllid
- iv) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- v) Cyfarwyddwr Corfforaethol
- vi) Pennaeth Adran

ac mae unrhyw gyfeiriad at benodi neu benodiad arfaethedig Prif Swyddog yn cynnwys cyfeiriad at gyflogi neu gyflogaeth arfaethedig y cyfryw swyddog dan gontract cyflogaeth;

e) Ystyr "Prif Swyddog Cyllid" yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gweinyddiaeth gyllidol) am weinyddu materion cyllidol yr awdurdod lleol;

f) “camau disgyblu” mewn perthynas ag aelod o staff awdurdod perthnasol yw unrhyw weithred a achosir gan gamymddwyn honedig a fuasai, o'i phrofi, yn ôl trefn arferol yr awdurdod, yn cael ei chofnodi ar ffeil bersonol yr aelod o'r staff ac sy'n cynnwys unrhyw gynnig i ddiswyddo aelod o'r staff am unrhyw reswm ac eithrio colli swydd, afiechyd parhaol neu lesgedd meddwl neu gorff, ond nid yw'n cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am dymor penodol oni ymrwymodd yr awdurdod perthnasol i adnewyddu'r cyfryw gontract;

g) "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

h) "Prif Weithredwr" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 54 o Ddeddf 2022 (dynodiad ac adroddiadau'r Prif Weithredwr);

i) "Swyddog Monitro" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf 1989 (dynodiad ac adroddiadau'r Swyddog Monitro);

j) Ystyr "Swyddogion Statudol" yw:

i) Prif Weithredwr,
ii) Swyddog Monitro,
iii) Pennaeth Cyllid a
iv) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

4 Egwyddorion Cyffredinol

a) Lle bo hynny’n briodol, ffefrir datrys mater yn anffurfiol yn hytrach na chymryd camau disgyblu ffurfiol.

b) Rhaid i bob achos lle mae ymchwiliad disgyblu neu gamau sy'n ymwneud â Phrif Swyddogion yn cael eu hystyried gael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd/wyr enwebedig a fydd yn Swyddog Arweiniol at ddibenion y Rheolau Sefydlog hyn. Ym mhob achos arall, y Rheolwr Llinell neu gynrychiolydd/wyr enwebedig fydd y Swyddog Arweiniol.

c) Mae er budd pob parti i gynnal achosion yn gyflym. Cydnabyddir y byddai'n amhriodol gosod amserlenni a allai fod yn anodd eu cyflawni yn ymarferol.

d) Ni ddylid atal swyddog yn awtomatig a dylai fod yn ddewis olaf, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos. Bydd Asesiad Risg Atal yn llywio'r penderfyniad ym mhob achos ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd.

e) Ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae gofyniad brys i atal, bydd gan swyddogion y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt hawl i gael cydymaith unigol a enwebwyd fel a ddiffinnir ym Mharagraff 10 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 neu gynrychiolydd undeb llafur gyda hwy ym mhob cam.

5 Camau disgyblu

Ni ellir cymryd camau disgyblu (ac eithrio'r camau a nodir ym mharagraff 6) mewn perthynas â Phrif Weithredwr; Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd y mae'r weithdrefn hon yn gymwys iddynt, gan yr awdurdod perthnasol, neu gan bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor lle cynrychiolir yr awdurdod perthnasol neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan Berson Annibynnol Dynodedig (DIP) dan reoliad 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'i diwygiwyd.
(ymchwiliad i gamymddwyn honedig).

6 Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ("PPPS")

Y **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** fydd y pwyllgor ymchwilio a disgyblu perthnasol ar gyfer y Rheolau Sefydlog hyn a bydd yn cyflawni'r swyddogaeth o gynnal yr ymchwiliad i ystyried y camymddwyn honedig a chymryd y camau a ganlyn.

(a) Rhyddhau'r Prif Swyddog o Fai

(b) Datgan a yw'r dystiolaeth y maent wedi'i chael (ac i ba raddau) yn cefnogi unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y Prif Swyddog

(c) Penderfynu ar unrhyw gamau disgyblu i'w cymryd, neu ystod o gamau sy'n ymddangos yn briodol i'w cymryd yn erbyn y Prif Swyddog gan gynnwys:

- Rhybudd ar lafar wedi'i recordio
- Rhybudd ysgrifenedig
- Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol
- Diraddio
- Israddio (h.y. gostyngiad mewn cyflog).
- Diswyddo

(d) Rhaid i'r pŵer i gadarnhau diswyddo'r Prif Weithredwr gael ei arfer gan y Cyngor Llawn ei hun a dim ond i'r Cyngor Llawn y bydd y PPPS yn gwneud argymhelliad ar ddiswyddo. Mewn perthynas â'r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r holl Brif Swyddogion eraill gwneir y penderfyniad gan y PPPS a'r Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion.

7 Aelodaeth y PPPS

At y dibenion hyn rhaid i'r PPPS:

a) Gynnwys **15** aelod o'r awdurdod; (mae'r pwyllgor eisoes wedi'i bennu).

b) Bod yn wleidyddol gytbwys yn unol ag adran 15 o Ddeddf 1989; a

c) Rhaid i o leiaf un aelod o'r Weithrediaeth fod yn aelod o'r PPPS Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion. Fodd bynnag, ni chaiff mwy na hanner aelodau'r PPPS a'r Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion fod yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod.

A. Gweithdrefn Swyddogion Statudol

8 Proses y PPPS

At y dibenion hyn, rhaid i'r PPPS ystyried yr honiad o gamymddwyn a phenderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach iddo o fewn un mis o'r dyddiad y cyfeiriwyd yr honiad o'r camymddwyn ato.

9 Ystyried yr Honiadau neu Faterion Eraill sy'n Destun Ymchwiliad

Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r Swyddog Statudol yn ysgrifenedig am yr honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ac yn darparu unrhyw dystiolaeth y mae'r PPPS i'w hystyried gan gynnwys yr hawl i glywed tystiolaeth lafar.

10 Y Cyfarfod Ymchwilio

a) Caniateir i'r Swyddog Statudol ymateb yn ysgrifenedig ac ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, er mai natur chwilysol sydd i gylch gwaith y Pwyllgor a ni chaniateir croesholi yn y Cyfarfod.

b) Bydd gan y Swyddog Statudol hawl i gael ei gynrychioli gan ei gynrychiolydd undeb llafur neu un cydymaith enwebedig fel y disgrifir ym Mharagraff 10 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999.

c) Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod i ystyried yr honiad er mwyn penderfynu a oes honiad o gamymddwyn gan y Swyddog Statudol sy'n gofyn am ymchwiliad pellach gan Berson Annibynnol Dynodedig (DIP).

d) Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan swyddog cyfreithiol bob amser.

e) Bydd y weithdrefn ar gyfer y Cyfarfod fel a ganlyn: -

i) Bydd y Rheolwr Ymgynghorol Adnoddau Dynol neu ddirprwy enwebedig yn amlinellu'r honiad ac yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth gefnogol y mae'r Awdurdod yn dymuno dibynnu arni;
ii) Bydd unrhyw dystion i'r awdurdod yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;
iii) Bydd y Swyddog Statudol neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno eu hamddiffyniad;
iv) Bydd unrhyw dystion ar gyfer y Swyddog Statudol yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;
v) Yna bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i drafod a phenderfynu a oes achos sy'n haeddu ymchwiliad pellach;
vi) Bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull i gyflwyno eu penderfyniad i'r Swyddog Statudol.

f) Bydd y Pwyllgor yn asesu unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r honiadau ac unrhyw beth a ddywedwyd mewn amddiffyniad. Bydd y Pwyllgor wedyn yn penderfynu a yw mewn sefyllfa i wrthod yr honiad. Os na all, a bod angen ymchwiliad pellach, rhaid i'r Pwyllgor gyfeirio'r mater at y PAD (DIP).

g) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu nad oes angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater, dyna fydd diwedd yr honiad, ac ni fydd unrhyw gofnod yn cael ei roi ar ffeil bersonol y swyddogion perthnasol.

h) Os yw'r mater i'w gyfeirio at y PAD, bydd y Pwyllgor yn llunio'r honiadau a fydd yn sail i gylch gwaith y PAD, a bydd y rhain yn cael eu cyfathrebu i'r PAD a'r swyddog perthnasol yn ysgrifenedig.

j) Bydd y PPPS yn hysbysu'r Swyddog Statudol o'i benderfyniad yn ysgrifenedig.

11 Ataliad

a) Wrth gynnal ei drafodaethau, bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a yw ataliad yn briodol. Mewn achosion disgyblu, gall ataliad fod yn briodol pan allai presenoldeb parhaus y Swyddogion Statudol yn y gwaith gyfaddawdu'r ymchwiliad neu amharu ar allu'r awdurdod i arfer ei swyddogaethau yn effeithlon, neu pan allai ailadrodd y drosedd honedig gael canlyniadau difrifol i'r Awdurdod.

b) O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r ataliad cyffredinol fod am uchafswm cyfnod o ddau fis o ddyddiad yr ataliad cychwynnol, a bydd y swyddog yn parhau i dderbyn cyflog llawn am holl gyfnod yr ataliad.

c) At ddibenion cyfrifo, bernir bod y cyfnod atal yn dechrau ar ddyddiad y diwrnod cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar yr ataliad, gan gyfrif ymlaen ddau fis calendr o'r dyddiad hwn neu, o ddyddiad cynharach a osodwyd o dan baragraff 6.

d) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod ataliad yn briodol, bydd y rhesymau dros y penderfyniad i atal a thelerau unrhyw ataliad yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig i'r Swyddog Statudol. Yn unol â Rheoliad 9 o'r Rheoliadau, mae unrhyw ataliad yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd gan y PAD.

e) Gall yr awdurdod ofyn i'r PAD ystyried a ddylid awdurdodi parhau â'r ataliad dros yr uchafswm cyfnod o ddau fis, ond ni chaniateir parhau â'r ataliad heb iddo fod wedi'i awdurdodi'n benodol gan y PAD.

f) Dylai'r Swyddog Arweiniol adolygu'r angen am ataliad yn rheolaidd a lle bo'n bosibl dylid osgoi cyfnodau hir o ataliad. Gellir ystyried gweithio gartref hefyd fel dewis arall yn lle ataliad, ond mae hyn yn dibynnu ar yr honiad ac ymarferoldeb trefniant o'r fath.

g) Er bod ataliad dros dro yn weithred niwtral ac nid yw mewn unrhyw ffordd yn arwydd o euogrwydd na rhagderfyniad, mewn achosion o gamymddwyn difrifol posibl dylid atal y Swyddog Statudol fel arfer hyd nes yr ymchwiliad gan y PAD.

12 Person Annibynnol Dynodedig (“PAD”)

Os yw'n ymddangos i'r PPPS y dylai honiad o gamymddwyn gan y swyddog perthnasol gael ei ymchwilio ymhellach, rhaid iddo benodi person (“y PAD”) at ddibenion y rheol sefydlog (neu ddarpariaethau sy'n cael yr un effaith).

13 Penodi Person Annibynnol Dynodedig

Wrth benderfynu a ddylid penodi PAD, bydd y PPPS, wrth ystyried a oes honiad o gamymddwyn yn erbyn Swyddog Statudol y mae angen ymchwiliad pellach iddo, yn ystyried y ffactorau canlynol:

(a) A yw'r honiad o'r fath, pe bai'n cael ei brofi, a fyddai’n arwain at ddiswyddo neu gamau eraill a fyddai'n cael eu cofnodi ar ffeil bersonol y swyddog; a

(b) A oes tystiolaeth i gefnogi'r honiad sy'n ddigonol i fod angen ymchwiliad pellach.

Os bydd y prawf hwn wedi'i fodloni, bydd y PPPS yn parhau i benodi PAD.

Rhaid i awdurdod perthnasol dalu tâl rhesymol i berson annibynnol dynodedig a benodwyd gan y PPPS ac unrhyw gostau a dynnir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y rheoliad hwn, neu mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau hynny.

14 Y Person Annibynnol Dynodedig a benodir

Y PAD a benodir:

a) yw'r person hwnnw y cytunir arno rhwng yr awdurdod perthnasol a'r Swyddog Statudol o fewn un mis o'r dyddiad y cododd y gofyniad i benodi'r PAD; neu

b) Os nad oes cytundeb o'r fath, yw'r person hwnnw a enwebir at y diben gan Weinidogion Cymru.

15 Beth all y Person Annibynnol Dynodedig ei wneud

1. Caiff y PAD gyfarwyddo:

a) Bod yr awdurdod yn diweddu unrhyw ataliad ar y Swyddog Statudol;

b) Bod unrhyw ataliad o'r fath i barhau ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis y cyfeirir ato yn 6;

c) Bod telerau unrhyw ataliad o'r fath i'w hamrywio yn unol â'r cyfarwyddyd; neu

d) Nad oes camau i'w cymryd (p'un ai gan yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol) o ran camau disgyblu neu gamau disgyblu pellach yn erbyn y Swyddog Statudol, heblaw camau a gymerir ym mhresenoldeb, neu gyda chytundeb, y PAD, cyn bod adroddiad wedi'i lunio o dan is-baragraff 4.

2 Caiff y PAD arolygu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag ymddygiad y Swyddog Statudol sydd ym meddiant yr awdurdod perthnasol, neu y mae gan yr awdurdod y pŵer i awdurdodi'r PAD i'w harchwilio;

3 Caiff y Person Dynodedig Annibynnol ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw aelod neu aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn ateb cwestiynau ynghylch ymddygiad y Swyddog Statudol;

4 Rhaid i'r Person Dynodedig Annibynnol lunio adroddiad i'r awdurdod–

a) Yn datgan barn a yw'r dystiolaeth a gafwyd (ac, os felly, i ba raddau) y mae'r dystiolaeth a gafwyd yn ategu unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y Swyddog Statudol; ac

b) Yn argymell unrhyw gamau disgyblu sy'n ymddangos yn briodol i'r awdurdod perthnasol eu cymryd yn erbyn y swyddog perthnasol, a

c) Rhaid iddo heb fod yn hwyrach na'r amser y llunnir yr adroddiad o dan is-baragraff 4, anfon copi o'r adroddiad at y Swyddog Statudol.

5 Rhaid i'r Swyddog Statudol a'r awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r PAD, geisio cytuno ar amserlen y mae'r PAD i ymgymryd â'i ymchwiliad yn unol â hi.

6 Pan na cheir cytundeb o dan baragraff 5, rhaid i'r PAD osod amserlen y mae'r person hwnnw'n ystyried ei bod yn briodol y dylid ymgymryd â'r ymchwiliad yn unol â hi.

7 Rhaid i'r PPPS ystyried yr adroddiad a gafodd ei baratoi gan y Person Dynodedig Annibynnol o fewn un mis ar ôl cael yr adroddiad hwnnw.

8 Mae'r weithdrefn ar gyfer derbyn honiadau o gamymddwyn neu allu neu chwalfa o ran ymddiriedaeth a hyder wedi'i nodi isod.

16 Cyfarfod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

1 Bydd y PPPS yn cyfarfod i ystyried yr adroddiad a bydd yn derbyn argymhellion y Person Dynodedig Annibynnol. Os yw'r PAD yn argymell peidio â chymryd unrhyw gamau disgyblu, mae'r Pwyllgor wedi'i rwymo i'r argymhelliad hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r Person Dynodedig Annibynnol yn argymell diswyddo neu gosb ddisgyblu arall, mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid gosod cosb llai na diswyddo yn parhau i fod yn benderfyniad i'r PPPS.

2 Caniateir i'r swyddog perthnasol neu ei gynrychiolydd annerch y PPPS cyn iddo gynnal ei drafodaethau. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau arferol, ni chaniateir galw unrhyw dystiolaeth.

3 Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers yr ymchwiliad y dylid ei derbyn er budd tegwch. Rhagwelir y bydd amgylchiadau fel hyn yn brin a bydd y PPPS yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw geisiadau y dylid derbyn tystiolaeth newydd.

4 Yna bydd y PPPS yn trafod ac yn penderfynu ar unrhyw gamau disgyblu i'w cymryd a fydd wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw hynny'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn hysbysu'r swyddog perthnasol o'u hawl i apelio.

B. Proses ar gyfer Prif Swyddogion ac eithrio'r Swyddogion Statudol

17 Cyffredinol

1. Isod nodir y gweithdrefnau i'w defnyddio mewn achosion sy'n ymwneud â disgyblaeth, ac unrhyw gynnig i ddiswyddo ar sail chwalfa mewn ymddiriedaeth a hyder.

2. Rhaid i unrhyw benderfyniadau yn y materion hyn fod yn unol â gofynion y gyfraith mewn perthynas â rheolau cyfiawnder naturiol a'r Rheoliadau Rheolau Sefydlog perthnasol sydd mewn grym ar y pryd.

3. Dylid ymdrin ag unrhyw weithdrefnau disgyblu cyn gynted â phosibl, ond rhaid mesur hyn yn erbyn yr angen i ymchwilio'r achos yn llawn a rhoi cyfle i'r Prif Swyddog ymateb yn llawn i'r cwynion.

18 Ataliad oherwydd camymddwyn honedig

Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i'r weithred o atal swyddog at ddibenion ymchwilio i'r camymddwyn honedig sy'n achosi'r weithred; ar yr amod bod ataliad o'r fath ar dâl llawn a bod y cyfnod yn dod i ben heb fod yn hwyrach na diwedd dau fis o'r diwrnod cyntaf y daw'r ataliad i rym. Y Rheolwr Llinell fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad i atal.

19 Ymchwiliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

1. Os yw'r Prif Weithredwr (neu eu cynrychiolwyr enwebedig) o'r farn bod digon o dystiolaeth i gyfeirio'r mater at y PPPS, dylid gwneud hyn drwy'r Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol.

2. Bydd y penderfyniad i gychwyn ymchwiliad disgyblu yn nwylo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol petai gan y Prif Weithredwr fuddiant sy'n gwrthdaro, neu fel arall yn methu ymgymryd â'r swyddogaeth.

3. Bydd y Prif Weithredwr neu y Cyfarwyddwr Corfforaethol (yn unol a para 3) yn pennu'r weithdrefn ymchwilio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Gellir comisiynu ymchwilwyr annibynnol â chymwysterau priodol i gynnal ymchwiliad.

4. Rhaid darparu adroddiad cyfrinachol ymlaen llaw yn amlinellu'r honiadau ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu ategol arall i gefnogi'r cyfeiriad. Rhaid darparu'r adroddiad hwn hefyd i'r Prif Swyddog sy'n destun y cyfeiriad, ynghyd â chopi o'r polisi a'r weithdrefn hon.

20 Y Cyfarfod Ymchwilio

1 Caniateir i'r swyddog perthnasol ymateb yn ysgrifenedig ac ar lafar yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymchwilio er bod cylch gwaith y Pwyllgor yn chwilysol ei natur ac ni chaniateir croesholi yn y Cyfarfod.

2 Bydd gan y swyddog perthnasol yr hawl i gael ei gynrychioli gan ei gynrychiolydd undeb llafur neu un cydymaith unigol a enwebwyd fel y'i disgrifir gan Baragraff 10 o Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999.

3 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan swyddog cyfreithiol bob amser.

4 Bydd y weithdrefn ar gyfer Cyfarfod y Pwyllgor fel a ganlyn: -

(a) Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol neu ddirprwy enwebedig yn amlinellu'r honiad ac yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth gefnogol y mae'r Awdurdod yn dymuno dibynnu arni;

(b) Bydd unrhyw dystion i'r awdurdod, gan gynnwys unrhyw ymchwilydd a benodir gan y Prif Weithredwr, yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;

(c) bydd y Prif Swyddog neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno eu hamddiffyniad;

(d) Bydd unrhyw dystion i'r Prif Swyddog yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;

(e) Yna bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i drafod a phenderfynu a oes achos sy'n haeddu ymchwiliad pellach;

(f) Bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull i gyflwyno eu penderfyniad i'r swyddog perthnasol. Bydd y Pwyllgor yn asesu unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r honiadau ac unrhyw beth a ddywedwyd yn yr amddiffyniad. Bydd y Pwyllgor wedyn yn penderfynu a yw mewn sefyllfa i wrthod yr honiad.

5 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod y mater yn cael ei wrthod, yna bydd hynny'n ddiwedd ar yr honiad, ac ni fydd unrhyw gofnod yn cael ei wneud ar ffeil bersonol y swyddog perthnasol.

6 Yna bydd y PPPS yn trafod ac yn penderfynu ar ba gamau disgyblu i'w cymryd, os o gwbl, a bydd hyn wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn hysbysu'r swyddog perthnasol o'u hawl i apelio.

21 Hawl i Apelio – Prif Swyddogion

1 Bydd gan y swyddog perthnasol hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y PPPS. Rhaid i apêl o'r fath fod yn ysgrifenedig a nodi'n fanwl beth yw sail/seiliau'r apêl. Rhaid ei gyflwyno i'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y caiff y penderfyniad ysgrifenedig ei gyfathrebu iddynt.

2 Bydd yr apêl ar ffurf adolygiad o'r penderfyniad blaenorol a bydd yn cael ei hystyried gan y cyrff canlynol yn unol â Rheoliadau 2006 fel y'u diwygiwyd:

a) Mewn perthynas â'r Prif Weithredwr, cyfeirir yr apêl i'r Cyngor. Yn yr achos hwn, rhaid i unrhyw aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r broses naill ai fel tystion neu aelodau o Bwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion ymatal rhag mynychu;

b) Mewn perthynas â'r holl Swyddogion eraill, bydd yr apêl i'r Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion ;

c) Caniateir i'r swyddog perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig annerch y Cyngor/y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion, ond ni chaniateir iddynt gyflwyno tystiolaeth newydd ac eithrio yn unol â'r ystyriaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 18.3;

d) Yna bydd y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion / Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar ba gamau i'w cymryd, os o gwbl, a bydd hyn wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad;

e) Mae penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion/Cyngor yn derfynol ac nid oes hawl pellach i apelio;

f) Ni fydd unrhyw gŵyn yn cael ei hystyried mewn perthynas â'r weithdrefn hon nac unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgorau.

Atodiad 2

ADRAN 11

11. Swyddogion

11.1 Strwythur Rheoli

11.1.1 Cyffredinol

Caiff y Cyngor Llawn gyflogi'r cyfryw staff (y cyfeirir atynt fel Swyddogion) ag y mae'n ystyried sy'n briodol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.2 Y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y dangosir:

Swydd	Dynodiad
Prif Weithredwr	Prif Weithredwr
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol	Swyddog Monitro
Pennaeth Cyllid	Prif Swyddog Cyllid
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y swyddogaethau a ddisgrifir yn Adrannau 11.2 i 11.5 yn berthnasol i'r swyddi hyn.

11.1.3 Yn yr adran yma golygai unrhyw gyfeiriad at "Brif Swyddog", ~~Brif Swyddog" o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).~~Y swyddogion a restir yn 11.1.2. uchod, Cyfarwyddwyr Corfforaethaol a Phennaethiaid Adran.

11.2 Swyddogaethau'r Prif Weithredwr

11.2.1 Cyflawni Swyddogaethau gan y Cyngor

(a) Mae adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i ddynodi un o'u swyddogion yn Brif Weithredwr. Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd

i'r Cyngor Llawn ar y ffordd y cydlynir y broses o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor, nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau, trefniadaeth staff yr awdurdod, a phenodi staff yr awdurdod a rheolaeth briodol arnynt.

(b) Rhaid i'r Prif Weithredwr gadw'r materion canlynol dan sylw:

(i) y modd y mae yr ymarferiad gan y Cyngor o'i swyddogaethau gwahanol yn cael ei gydlynu;

(ii) trefniadau'r Cyngor mewn perthynas ag—

(A) cynllunio ariannol,

(B) rheoli asedau, a

(C) rheoli risg;

(iii) nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y Cyngor ar gyfer arfer ei swyddogaethau;

(iv) trefniadaeth staff y Cyngor;

(v) penodi staff y Cyngor; ac

(vi) y trefniadau ar gyfer rheoli staff y Cyngor (gan gynnwys trefniadau hyfforddi a datblygu).

11.2.2 Os yw'r Prif Weithredwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud, mae'n rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn nodi eu dull o ymdrin â'r materion hyn. Cyn gynted â phosibl ar ôl paratoi yr adroddiad, rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i adroddiad gael ei anfon at bob Aelod o'r Cyngor.

11.2.3 Gweithredu fel un o Gynrychiolwyr y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Prif Weithredwr yn un o ddau gynrychiolydd y Cyngor yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

11.2.2 Cyfyngiadau ar Swyddogaethau

Ni chaiff y Prif Weithredwr fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ond caiff ddal swydd Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

11.3 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

Amlinellir y rhain yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd.

11.3.1 Cynnal y Cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn eang er mwyn i Aelodau, staff a'r cyhoedd allu cyfeirio ato.

11.3.2 Sicrhau bod y Penderfyniadau a Wneir yn Gyfreithlon ac yn Deg

Ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Cabinet mewn perthynas ag unrhyw Swyddogaeth os yw ef/hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd adroddiad o'r fath yn atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei roi ar waith nes bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

11.3.3 Cefnogi'r Pwyllgor Safonau

Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad trwy gefnogi'r Pwyllgor Safonau.

11.3.4 Derbyn Adroddiadau

Bydd y Swyddog Monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a wneir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phenderfyniadau'r tribiwnlysoedd achos.

11.3.5 Cynnal Ymchwiliadau

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a atgyfeirir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac yn llunio adroddiadau neu'n gwneud argymhellion mewn perthynas â hwy i'r Pwyllgor Safonau.

11.3.6 Cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r [Cabinet] [y Weithrediaeth] o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.7 Rhoi Cyngor

Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi cyngor i'r Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.8 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid na'r Prif Weithredwr.

11.4 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid

Amlinellir y rhain yn adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11.4.1 Sicrhau Cyfreithlondeb a Doethineb Ariannol y Penderfyniadau a Wneir

Ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Cabinet mewn perthynas â Swyddogaeth Weithredol, ac archwilydd allanol y Cyngor os yw ef/hi o'r farn y bydd unrhyw gynnig,

penderfyniad neu ffordd o weithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu'n anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

11.4.2 Gweinyddu Materion Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

11.4.3 Cyfrannu at Reolaeth Gorfforaethol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn enwedig trwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

11.4.4 Rhoi Cyngor

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor i'r holl Gynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, a bydd yn cefnogi a chynghori Cynghorwyr a Swyddogion yn eu rolau priodol.

11.4.5 Rhoi Gwybodaeth Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

11.4.6 Cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.4.7 Cyfyngiadau ar Swyddi

(a) Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro na'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid fod yn aelod o un neu fwy o'r cyrff proffesiynol canlynol: -

(i) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;

(ii) Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig;

(iii) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth;

(iv) Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheolaeth; neu

(v) Unrhyw gorff arall o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig a sydd am y tro wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru at y diben hwn.

11.5 Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Amlinellir y rhain yn adran 9 y Mesur. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yw:

11.5.1 rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.2 rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau'r awdurdod (heblaw am y pwyllgorau a grybwyllir ym mharagraff 11.5.5) ac aelodau'r pwyllgorau hynny, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.3 rhoi cymorth a chyngor i unrhyw gydbwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac aelodau'r pwyllgor hwnnw, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.4 hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu yr awdurdod;

11.5.5 rhoi cymorth a chyngor i:

(a) Bwyllgorau Craffu yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny; a

(b) Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgor hwnnw;

(c) rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgor Craffu yr awdurdod i bob un o'r canlynol:

(i) aelodau'r awdurdod;

(ii) aelodau gweithrediaeth yr awdurdod;

(iii) swyddogion yr awdurdod.

11.5.6 rhoi cymorth a chyngor i bob aelod o'r awdurdod mewn perthynas â chyflawni rôl aelod o'r awdurdod, yn amodol ar baragraff 11.5.11.

11.5.7 llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol:

(a) nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(b) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(c) trefniadaeth staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a rheolaeth briodol arnynt;

11.5.8 y cyfryw swyddogaethau eraill ag y gellid eu pennu gan y gyfraith.

11.5.9 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yn Brif Weithredwr na'r Prif Swyddog Cyllid.

11.5.10 Mae rhoi cyngor ynghylch pa un a ddylai swyddogaethau'r cyngor gael eu harfer neu pa un a ddylent fod wedi cael eu harfer, neu sut y dylai swyddogaethau'r cyngor gael eu harfer neu sut y dylent fod wedi cael eu harfer, yn berthnasol dim ond i gyngor yn ymwneud â swyddogaethau'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

11.5.11 Nid yw cyngor i Aelod yn cynnwys cyngor mewn perthynas â'i rôl fel Aelod gweithredol ac nid yw'n cynnwys cyngor ynghylch mater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod neu y bwriedir ei ystyried mewn cyfarfod (heblaw am gyfarfod Pwyllgor Craffu neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

11.6 Dyletswydd i Ddarparu Adnoddau Digonol i'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd y Cyngor yn darparu'r cyfryw Swyddogion, llety ac adnoddau eraill i'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ag y mae'n ystyried sy'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau.

11.7 Ymddygiad

Bydd Swyddogion yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Swyddogion/Aelodau a amlinellir yn Adrannau 20 a 21 y Cyfansoddiad hwn.

11.8 Cyflogaeth

Bydd y drefn ar gyfer recriwtio, dethol a diswyddo Swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogaeth Swyddogion a amlinellir isod.

11.9 Cydnabyddiaeth Prif Swyddogion

Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu ar lefel ac unrhyw newid yn y gydnabyddiaeth sydd i'w dalu i Brif Swyddog. Diffinnir cydnabyddiaeth yn unol â Deddf Lleoliaith 2011 Adran 43(3).

11.10 Rheolau Gweithdrefnol Cyflogaeth Swyddogion

11.10.1 Recriwtio a Phenodi

(a) Datganiadau

(i) Mae'r Cyngor wedi llunio gweithdrefnau sy'n cynnwys gofyniad bod yn rhaid i unrhyw ymgeisydd ar gyfer ei benodi/phenodi'n Swyddog ddatgan yn ysgrifenedig pa un a oes ganddo/ganddi unrhyw berthynas ag unrhyw un o gynghorwyr neu Swyddogion y Cyngor.

(ii) Ni fydd unrhyw ymgeisydd sy'n perthyn i Gynghorydd neu uwch Swyddog yn cael ei benodi/phenodi heb awdurdod y Prif Swyddog perthnasol neu Swyddog a enwebwyd ganddo/ganddi.

(b) Ceisio Cefnogaeth ar gyfer Penodiad

(i) Bydd y Cyngor yn anghymhwyso unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio cef anogaeth unrhyw Gynghorydd ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r Cyngor, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd cynnwys y paragraff hwn yn cael ei nodi mewn unrhyw wybodaeth recriwtio.

(ii) Ni chaiff unrhyw un o Gynghorwyr na chyflogeion y Cyngor geisio cefnogaeth i unrhyw unigolyn ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r Cyngor.

11.10.2 Recriwtio Prif Swyddogion

Pan fydd y Cyngor yn bwriadu penodi Prif Swyddog ~~(o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006)~~ bydd y Cyngor yn ac, yn ddarostyngedig i'r gofyn yn (b)(ii) isod na fwriedir gwneud y penodiad yn unig o blith ei swyddogion presennol, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) llunio datganiad sy'n cynnwys y canlynol:

(i) dyletswyddau'r Swyddog dan sylw; ac

(ii) unrhyw gymwysterau neu rinweddau a geisir yn yr unigolyn sydd i'w benodi/phenodi;

(b) (i) gwneud trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu yn y fath fodd sy'n debygol o'i dwyn i sylw unigolion sy'n gymwys i wneud cais amdani; ac

(ii) mewn achos ble mae cydnabyddiaeth flynyddol y swydd yn £100,000 neu fwy rhaid i'r hysbyseb fod yn gyhoeddus oni bai fod y penodiad am gyfnod penodedig sydd ddim mwy na 12 mis o hyd.

(c) gwneud trefniadau i gopi o'r gweithdrefnau a grybwyllwyd ym mharagraff (a) gael eu hanfon at unrhyw unigolyn ar gais.

(ch) Bydd y camau a grybwyllir yn (a) i (c) uchod yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr i'w cymryd.

(d) Ar achlysur ble hysbysebwyd swydd yn unol â pharagraff (b) mae rhaid i'r Cyngor unai:

(i) gyfweld pob ymgeisydd cymwys ar gyfer y swydd neu,

(ii) ddewis rhestr fer o blith yr ymgeiswyr cymwys a chyfweld y rhai a gynhwysir ar y rhestr fer.

(dd) Ble na dderbyniwyd cais gan berson cymwys neu, fod y Cyngor yn penderfynu ail hysbysebu'r swydd gall y Cyngor wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu un unol a pharagraff (b).

(e) Bydd y camau a grybwyllir ym mharagraffau (d) a (dd) uchod yn cael eu dirprwyo i'r pwyllgor priodol yn unol â chynllun dirprwyo'r Cyngor i bwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(f) Lle bo dyletswyddau prif swyddog yn cynnwys cyflawni swyddogaethau dau neu fwy o awdurdodau perthnasol yn rhinwedd adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:

(i) gall y camau a gymerwyd dan baragraff (a) (b) neu (c) uchod gael eu cymryd gan gydbwyllgor yr awdurdodau perthnasol hynny, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu brif swyddog unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol dan sylw; a

(ii) gellir penodi unrhyw brif swyddog gan y cyfryw gydbwyllgor, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu bwyllgor neu is-bwyllgor o unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol hynny.

11.10.3 Penodi Prif Weithredwr

(a) Bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo penodiad Prif Weithredwr, yn dilyn argymhelliad ynghylch y cyfryw benodiad gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un Aelod o'r Cabinet.

11.10.4 Penodi a Diswyddo Prif Swyddogion

(a) Yn y paragraff hwn:

mae "y Pwyllgor"	yn golygu'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion; ac
mae "y Swyddog Priodol"	yn golygu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am benodi a diswyddo'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Phrif Swyddogion.

(c) Mae'n rhaid i o leiaf un Aelod o'r Cabinet fod yn Aelod o'r Pwyllgor ac ni ddylai mwy na hanner Aelodau'r Pwyllgor hwnnw fod yn Aelodau o'r Cabinet (Atodlen 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).

(ch) Pan fydd y Pwyllgor yn bwriadu penodi neu ddiswyddo'r Prif Weithredwr, mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r penodiad hwnnw cyn i'r cynnig o benodiad gael ei wneud neu mae'n rhaid iddo gymeradwyo'r diswyddiad hwnnw cyn i'r rhybudd diswyddo gael ei roi.

11.10.5 Swyddogion Eraill

(a) Y Prif Weithredwr neu ei (h)enwebai ef/hi sy'n gyfrifol am benodi a diswyddo Swyddogion islaw Prif Swyddog, ac ni chaiff cynghorwyr ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

(b) Ni fydd cynghorwyr yn ymwneud â chamau disgyblu yn erbyn unrhyw Swyddog islaw Prif Swyddog ac eithrio pan fydd angen iddynt gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn honedig neu pan fydd gweithdrefnau disgyblu, gweithdrefnau gallu a gweithdrefnau cysylltiedig y Cyngor, fel y cânt eu mabwysiadu o bryd i'w gilydd, yn caniatáu hawl i apelio at Aelodau.

(c) Ni fydd paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i:

(i) y swyddog a ddynodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod;

(ii) prif swyddog statudol o fewn ystyr adran 2(6) o Ddeddf 1989(3) (swyddi â chyfyngiad gwleidyddol);

(iii) prif swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf 1989;

~~(iv) dirprwy brif swyddog o fewn ystyr adran 2(8) o Ddeddf 1989;~~

(v) Swyddog Monitro,

(vi) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;

(vii) person a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1989(4) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu

(viii) person y mae rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(5) yn gymwys iddo.

11.10.6 Penodiadau cynorthwywyr i'r grwpiau gwleidyddol.

(a) Penodir cynorthwyydd grŵp gwleidyddol yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.

(b) Gwahoddir y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel sylwedydd i unrhyw gyfweliad ar gyfer penodi cynorthwyydd grŵp gwleidyddol.

11.10.7 Camau Disgyblu

(a) Yn y paragraff hwn, mae "camau disgyblu" yn cynnwys diswyddo a fwriedir am unrhyw reswm heblaw am ddileu swydd, iechyd gwael parhaol neu fethiant i adnewyddu contract cyfnod penodol, ymddeoliad a gynlluniwyd ac ymddeoliad cynnar a chyfnodau prawf anfoddhaol.

(b) Gweithdrefnau Ysgrifenedig

(i) Yn ddarostyngedig i (i) isod bydd camau disgyblu yn erbyn y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu cymryd yn unol â Gweithdrefnau Prif Swyddogion y Cyngor yn Atodiad 1 (mae hyn yn cynnwys swyddog sydd yn destun camau disgyblaeth arfaethedig oedd ar yr adeg yr honnwyd y digwyddodd y camymddwyn wedi ei gyflogi yn un o'r swyddi uchod ond nad yw yn parhau yn swydd ar adeg y camau disgyblaeth arfaethedig).

~~(i) Petai yn dod i'r amlwg fod honiad o gamymddwyn gall arwain at gamau disgyblu wedi ei wneud yn erbyn un o'r swyddogion a restrir uchod yna penodir pwyllgor ymchwilio gan y Cyngor i ymchwilio i'r honiadau yn unol â gofynion Rheol 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).~~

(ii) Bydd camau disgyblu yn erbyn pob Prif Swyddog arall yn cael eu cymryd yn unol â'r Gweithdrefnau Prif Swyddogion y Cyngor yn Atodiad 1.~~Amodau Gwaith Lleol.~~

(iii) Bydd camau disgyblu yn erbyn pob Prif Swyddog arall yn cael eu cymryd yn unol a'g Amodau Gwaith Lleol

~~(c) Unigolyn Annibynnol~~

~~Ni cheir cymryd unrhyw gamau disgyblu o dan baragraff (b) uchod ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan unigolyn annibynnol dynodedig dan Reol 9 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006.~~

~~(ch) Atal Rhag Gweithio~~

~~Caiff Swyddog a enwir yn (b) gael eu hatal rhag gweithio tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i gamymddwyn honedig. Bydd y Swyddog dan sylw yn cael ei (h)atal rhag gweithio ar gyflog llawn a daw'r cyfnod atal i ben wedi dau fis o ddyddiad y daw'r ataliad i rym.~~

11.10.8 Apeliadau

Ni fydd unrhyw un o'r uchod yn atal Cynghorydd rhag gwasanaethu fel Aelod o bwyllgor apêl neu gorff a sefydlwyd i ystyried apêl gan:

(a) unrhyw unigolyn yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â phenodi'r unigolyn hwnnw yn Aelod o staff yr awdurdod; neu

(b) Aelod o staff yr awdurdod yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â diswyddo neu gymryd camau disgyblu yn erbyn yr Aelod hwnnw o staff oni bai bod y diswyddo'n gysylltiedig â mater yn ymwneud â gallu, camymddwyn, rhyw reswm perthnasol arall, rhyw ddeddfiad statudol arall neu ymddeoliad a gynlluniwyd lle y rhoddwyd llai na chwe mis o rybudd i'r Aelod o staff. Yn yr achosion hyn, cynhelir yr apêl gan uwch Swyddog.

Atodiad 3

Adran 9

9.9 Y Pwyllgor Apelau Prif Swyddogion

9.9.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Apelau Cyflogaeth Prif Swyddogion i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.9.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 7 Aelod sy'n Gynghorwyr ac o leiaf 1 yn aelod Cabinet ond bydd y mwyafrif ohonynt yn aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet nac yn aelodau Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Adran 13 Rhan 1

Pwyllgor Apelau Prif Swyddogion

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad).

Swyddogaeth	**Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)*
Penderfynu ar apeliadau gan Brif Swyddogion fel y diffinnir yn Adran 11 o'r Cyfansoddiad yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006	

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	26 Tachwedd 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan'
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiadau.
AWDUR	Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar 'Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion perthnasol o fewn yr adroddiad. Bydd **Gareth Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Amgylchedd** yn mynychu'r cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau ynghylch y cynllun peilot Arosfan tra bydd **Meinir Owen, Uwch Ymarferydd Prosiectau** yn mynychu i ymateb i unrhyw gwestiwn ar yr ymateb sefydliadol os oes angen**.**

Archwilio Cymru
Audit Wales

Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan

Cyngor Gwynedd

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau; ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	10
Atodiadau	11
1 Ynglŷn â'n gwaith	12

Ciplun archwiliad

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Edrychom ar drefniadau Cyngor Gwynedd (y Cyngor) i gynllunio, cyflawni ac adolygu cynllun peilot i ddarparu safleoedd parcio i gartrefi modur. Gelwir y safleoedd hyn yn Arosfan. Roeddem yn awyddus i archwilio i ba raddau oedd y trefniadau hyn yn sicrhau gwerth am arian. Mae gwerth am arian yn golygu mwy na chyflawni gwaith am y pris rhataf; mae hefyd yn golygu darparu gwasanaeth o ansawdd mewn dull effeithiol. Hynny yw, cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Dyma wnaethom ei asesu mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor wrth gyflawni cynllun meysydd parcio cartrefi modur Arosfan.

Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae awdurdodau lleol yn gwario llawer o arian ar gynlluniau cyfalaf a refeniw wrth gyflawni eu hamcanion llesiant, dyletswyddau statudol ac ymrwymiadau strategol eraill.

3 Mae costau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, law yn llaw ag ansicrwydd ynghylch ffynonellau incwm, yn golygu bod angen i awdurdodau lleol sicrhau bod pob prosiect gwariant yn cyfrif. Mae'n hanfodol i awdurdodau lleol gael trefniadau priodol mewn lle i sicrhau gwerth am arian wrth wario ar brosiectau.

4 Ers nifer o flynyddoedd, roedd y Cyngor yn treulio amser a gwario adnoddau yn ymateb i nifer gynyddol o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ddefnyddwyr cartrefi modur yn yr ardal gan gynnwys parcio anghyfreithlon. Daeth nifer digynsail o bobl ar eu gwyliau i Wynedd yn ystod y flwyddyn 2020. Arweiniodd hyn at broblemau oedd yn cynnwys defnydd pobl o gartrefi modur. Gwnaeth Cabinet y Cyngor gais i swyddogion ymchwilio i opsiynau fyddai'n cyfrannu at ddefnydd mwy cynaliadwy o'r cyfrwng gwyliau hwn.

5 Gall arferion nodedig sydd yn gallu tystiolaethu llwyddiant y trefniadau fod o gymorth i gyrff eraill ynghyd â rhoi sicrwydd i'r Cyngor a'r cyhoedd.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn rhagweithiol i geisio datrys problem gynhennus leol. Fe brofodd y Cyngor wahanol rwystrau a olygodd bod y peilot yn hwyrach a drytach na'r disgwyl yn dod yn weithredol. Yn dilyn yr oedi, nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad hyd yn hyn. O ganlyniad, nid oes sicrwydd am y canlyniadau na gwerth am arian y trefniadau i gynnal peilot arloesol Arosfan.

Yr hyn a argymhellir gennym

7 Rydym wedi gwneud un argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â threfniadau rheoli prosiect. Dylai'r Cyngor gymhwyso'r argymhelliad mewn ffordd sydd yn gymesur efo maint prosiectau yn y dyfodol.

Ein canfyddiadau

Cwblhaodd y Cyngor peilot Arosfan yn hwyrach a drutach na'r disgwyl ac ar raddfa lai

8 Ni chyflawnwyd y prosiect o fewn y gyllideb ac agorwyd y safleoedd yn hwyrach nag a gynlluniwyd. Mewn papur Cabinet yn 2021, y swm dangosol ar gyfer costau codi chwe safle oedd £100,000 ac y byddai uchafswm o chwech. Mewn cais am arian grant Llywodraeth Cymru yn 2022, £340,000 oedd amcan costau'r Cyngor ar gyfer chwe safle i'w wario erbyn diwedd Mawrth 2023. Erbyn 2026, roedd y Cyngor wedi gwario £364,562 ar bedwar safle maes parcio cartrefi modur.

9 Ni chwblhawyd y prosiect ar amser ychwaith. Ebrill 2023 oedd y dyddiad targed ar gyfer agor y safle cyntaf. Nodwyd yn adroddiad Cabinet Tachwedd 2021 y byddai'r fforwm hwnnw yn derbyn adroddiad pellach ymhen tair blynedd, sef 2024. Ni dderbyniodd y Cabinet adroddiad adeg hynny er y daeth y safle cyntaf yn ym mis Hydref 2023.

10 O ganlyniad, ceir sicrwydd cyfyngedig iawn o ddwy elfen bwysig o werth am, sef economi ac effeithlonrwydd.[1]

11 Er bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau i adolygu gwerth am arian safleoedd Arosfan ar gychwyn y prosiect, nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad na chynnal ymarferiad gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

[1] Oddi tan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn fodlon bod cynghorau lleol yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac eu bod yn ddarbodus (gwerth am arian) wrth ddefnyddio'u hadnoddau.

12 Wrth esgor ar y gwaith fe luniodd y Cyngor Gynllun Gwerthuso pedwar cam cynhwysfawr i ddangos sut y bydd yn mesur llwyddiant o ran canlyniadau a dangosyddion eraill. I'w gynnal ar ddiwedd y cyfnod peilot, roedd y gwerthusiad i fod i gynnwys

- holiadur boddhad defnyddwyr;
- holiadur cymuned a busnesau;
- data perfformiad incwm; a
- nifer cwynion a dirwyon.

13 Dywedwyd wrthym mai yn dilyn tymor yr hydref 2026 bydd y Cyngor yn cynnal y gwerthusiad hwn gan nad oedd pob safle Arosfan wedi agor yn llawn nes mis Mai'r flwyddyn honno. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ffigurau defnydd ac yn fodlon gyda'r adborth mae'n ei dderbyn drwy'r ffurflen gyswllt ar ei wefan. Er hyn, ni all fod â sicrwydd a yw'r prosiect wedi cyflawni'r canlyniadau a'r buddion a fwriadwyd yn llawn hyd yma. Ni chynhaliwyd gwerthusiad ar raddfa lai i ddysgu gwersi ychwaith, er bod un safle Arosfan wedi agor ers 2023.

14 Heb gynnal gwerthusiad, ni all y Cyngor dderbyn sicrwydd ei fod yn:

- elwa yn llawn o wersi a ddysgwyd;
- gochel rhag ailadrodd camgymeriadau; nac ychwaith
- ennill sicrwydd bod ei drefniadau yn darparu gwerth am arian.

15 O ystyried mai peilot i gynorthwyo'r Cyngor i benderfynu a yw'n dymuno parhau, ehangu neu ddiddymu'r safleoedd oedd y cynllun, mae cynnal gwerthusiad yn bwysig.

Ymchwiliodd y Cyngor yn drylwyr i'r opsiynau ar gyfer safleoedd cartrefi modur

16 Ymchwiliodd y Cyngor yn dreiddgar i'r pwnc meysydd parcio cartrefi modur. Cyflwynwyd hyn fel sail gref i argymell i'r Cabinet gymeradwyo peilot arloesol i helpu'r Cyngor fynd i'r afael â phroblem gynhennus.

17 Er enghraifft, cyfeiria'r ymchwil at ofynion deddfwriaethol ac arferion rhyngwladol yn y maes. Ystyriodd y Cyngor anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'r rhanddeiliaid pwysig eraill, aelodau'r cymunedau a effeithir a pherchnogion busnesau lleol. Derbyniodd y Cyngor nifer uchel tu hwnt o ymatebion i'r holiaduron a roddodd sail dystiolaeth gadarn o'r galw a'r pryderon.

18 Defnyddiodd y Cyngor ei ddadansoddiad o'r ymatebion i lunio'r blaenoriaethau mewn matrics sgorio manwl. Defnyddiwyd hwn i greu rhestr fer o safleoedd arfaethedig i gynnal y peilot. Roedd y matrics yn hidlo safleoedd trwy asesiad cychwynnol ac yna yn ystyried ffactorau yn cynnwys y canlynol:

- pellter o drafnidiaeth gyhoeddus;
- pellter o annedd;
- cysylltiad dŵr a charthffosiaeth;
- pellter o leoliad o ddiddordeb i ymwelwyr a llwybrau cerdded/seiclo; ac
- effaith andwyol posibl ar olygfa.

19 Nid oedd y ddogfen ymchwil yn nodi sut byddai'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor nac unrhyw nodau strategol eraill. Er hynny, ymgorfforwyd y peilot fel un o brosiectau Cynllun y Cyngor yn ddiweddarach yn 2023 i gyfrannu at gyflawni'r amcan Gwynedd Lewyrchus.

20 Mae ymchwil trwyadl, fel y gwelwyd yma, yn bwysig mewn cyd-destun gwerth am arian er mwyn osgoi cyflwyno polisïau diffygiol.

Nid yw'r Cyngor wedi dwyn ar yr holl drefniadau rheoli prosiect cydnabyddedig wrth gyflawni peilot Arosfan

21 Roedd bylchau yn nhrefniadau'r Cyngor i reoli prosiect Arosfan. Nid oedd y Cyngor wedi llunio'r confensiynau rheoli prosiect safonol a ganlyn ar gyfer cynnal a chwblhau'r gwaith:

- amserlen fanwl gyda thargedau amser ar gyfer y gwahanol gydrannau; nac ychwaith

- cynllun cyfathrebu.

22 Nodwyd mai isadeiledd dŵr y safleoedd oedd y prif rwystr rhag cynnal y gwaith o fewn y dyddiad targed.

23 Er bod y Cyngor wedi llunio cofrestr risg sylfaenol i gefnogi'r cais am arian grant, ni chafodd ei diweddaru. Ymhellach, nid oedd y gofrestr yn cynnwys cyfeiriad at y risgiau a arweiniodd yn bennaf at yr oedi i'r prosiect.

24 Mae'n arferiad da i awdurdodau cyhoeddus ddwyn ar y dulliau rheoli prosiect cydnabyddedig uchod. Mae'r rhain yn gallu helpu'r Cyngor adnabod ac ymateb yn brydlon pan fo camau allweddol yn llithro a gwariant yn cynyddu. Mae hefyd yn fodd o adnabod pob risg o flaen llaw, ymdrin â nhw yn ffurfiol ac yn debygol o gyfrannu at ennill sicrwydd o werth am arian.

25 Goruchwyliwyd y prosiect gan weithdrefn lywodraethu ragnodedig. Lluniwyd Bwrdd Prosiect trawsadrannol dan ofal Pennaeth Adran Cynorthwyol i drafod cynnydd efo'r peilot ac mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn fisol. Adroddodd y Bwrdd i Grŵp Prosiectau Sylweddol y Cyngor ar un achlysur. Ers cael ei gynnwys fel un o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn derbyn diweddariadau ffigurau defnydd y peilot. Er hyn, ni fu cyfle i gyfundrefn craffu'r Cyngor graffu ar y cynllun ymlaen llaw.

26 Gall lefel briodol o graffu cychwynnol gynorthwyo'r Cyngor i adnabod risgiau ariannol ac ymarferol yn gynharach drwy gynnwys mwy o bobl o wahanol safbwyntiau. Mae'n rhesymol i bennu mwy o oruchwyliaeth a gwiriadau pan mae prosiect o natur peilot, i roi sicrwydd o werth am arian bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n helpu'r Cyngor gyflawni ei amcanion.

Argymhellion

27 Noder bod yr argymhelliad hwn ar gyfer trefniadau rheoli prosiect cyffredinol y Cyngor ac y dylid eu cymhwyso mewn ffordd sy'n gymesur efo'r prosiect dan sylw.

A1 Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnal prosiect neu beilot o brosiect yn llwyddiannus, dylai'r Cyngor ddefnyddio trefniadau rheoli prosiect sy'n gymesur efo maint y gwaith (**paragraffau 21-26**). Dylai'r rhain gynnwys y nodweddion canlynol fel isafswm:

- cofrestr risg;
- cynllun cyfathrebu;
- cyllideb fanwl; ac
- amserlen fanwl.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â'r trefniadau oedd gan y Cyngor ar waith i gynllunio, cyflawni ac adolygu ei brosiect Arosfan. Roedd yr archwiliad yn asesu i ba raddau y sicrhaodd trefniadau'r Cyngor werth am arian yn ystod pob un o'r camau hyn. Ystyriodd Archwilio Cymru dystiolaeth mewn perthynas â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer y prosiect hwn yn unig. Fodd bynnag, fe all Archwilio Cymru wneud sylwadau ar drefniadau corfforaethol lle bo'n briodol. Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod mis Mai 2026.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

- A wnaeth trefniadau'r Cyngor i gynllunio'r prosiect sicrhau gwerth am arian?
- A wnaeth trefniadau'r Cyngor i gyflawni'r prosiect sicrhau gwerth am arian?
- A wnaeth trefniadau'r Cyngor i adolygu'r prosiect sicrhau gwerth am arian?

Meini prawf

Defnyddiodd Archwilio Cymru feini prawf wrth gynnal yr archwiliad hwn. Maent yn ymwneud â threfniadau cynllunio, cyflawni ac adolygu. Adwaenir nifer fel yr hyn a ddisgwylir yn ôl arfer da rheoli prosiect yn nhyb CIPFA.

Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- Adolygwyd dogfennau a rannwyd â ni; a
- Chyfwelwyd â swyddogion allweddol (tri chyfweliad).

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Ffurflen ymateb rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig	
Corff a archwilir	Cyngor Gwynedd
Enw'r archwiliad	Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan
Dyddiad cyhoeddi	25 Awst 2026

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
A1	Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnal prosiect neu beilot o brosiect yn llwyddiannus, dylai'r Cyngor ddefnyddio trefniadau rheoli prosiect sy'n gymesur efo maint y gwaith (paragraffau 21 26). Dylai'r rhain gynnwys y nodweddion canlynol fel isafswm:	Mae trefniadau corfforaethol rheoli prosiect yn bodoli yng Nghyngor Gwynedd (yn cynnwys cyfarwyddyd ar Gofrestr Risg, Cynllun Cyfathrebu, Cyllideb fanwl a Cynllun Prosiect / amserlen fanwl) ac mae hyfforddiant corfforaethol ar gael i staff, gan gofrestru ar ei gyfer trwy drefniadau Dysgu a Datblygu yn y ffordd arferol.	Parhaus	Uwch Ymarferydd Prosiectau	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
	• cofrestr risg; • cynllun cyfathrebu; • cyllideb fanwl; ac • amserlen fanwl.	Bydd ymgyrchoedd godi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant yn cael eu gwneud drwy'r Gair Wythnosol i staff. Yn ogystal, bydd tudalen fewnrwyd penodol yn cael ei chreu er mwyn hyrwyddo'r trefniadau a rhannu templedi rheoli prosiect y Cyngor ac ymarfer da.	Parhaus Rhagfyr 2026		

Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Hydref 2027

4 Chwefror 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cynllun Rheoli Asedau
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Arbedion 2027/28
Strategaeth Gyfalaf 2027/28 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2027/28
Cyfraddau Casglu Treth Cyngor
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor

15 Ebrill 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2026/27
Siarter Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2027/28
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor

Mai 2027
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2026/27
Trefniadau Rheoli Risg Cyngor Gwynedd
Cyfrifon Drafft Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2027
Cyfrifon Terfynol 2026/27 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2026/27
Cynllun Gwaith Archwilio Cymru
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor

Gorffennaf 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Rhaglen Ddatblygu'r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2027 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2026/27
Rheolaeth Trysorlys 2026/27
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2026/27
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor

Medi 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2027 a'r Archwiliad Perthnasol
Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2027 *(os oes angen)*
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2026/27
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor

Hydref 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2027/28 – Adolygiad Diwedd Awst 2027
Rhaglen Gyfalaf 2027/28 – Adolygiad Diwedd Awst 2027
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Rheolaeth Trysorlys 2027/28 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Blaenraglen y Pwyllgor